

# CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Llywelyn ap Gutun

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU  
CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

*Cyfarwyddwr*

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT, FBA

*Golygydd y Gyfres*

Ann Parry Owen, BA, PHD

*Cymrodyr Ymchwil*

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Rhiannon Ifans, BA, PHD

Barry James Lewis, MA, MPHIL, PHD

Eurig Salisbury, BA, MPHIL

*Golygydd Ymgynghorol*

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, DLITT, FBA

*Bwrdd Golygyddol*

Gareth A. Bevan, MA

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Peredur Lynch, BA, PHD

# GWAITH LLYWELYN AP GUTUN

golygwyd gan

R. IESTYN DANIEL



ABERYSTWYTH  
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU  
2007

Prifysgol Cymru ©, 2007.

Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 978-0-947531-23-2

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, [apo@cymru.ac.uk](mailto:apo@cymru.ac.uk).

## *Dull y golygu*

Gan na ellid yn aml ganfod ‘prif destun’ o blith y gwahanol gopïau, lluniwyd testunau cyfansawdd o’r cerddi gan ddangos y darlleniadau amrywiol (ac eithrio’r rhai orgraffyddol pur) yn yr ‘Amrywiadau’ ar waelod y testun. Os ceir yr un amrywiad mewn grŵp o llawysgrifau, fe’i cofnodir yn orgraff y llawysgrif hynaf yn y grŵp hwnnw, hyd y gellir. Defnyddir cromfachau i ddynodi darlleniad sydd wedi ei ychwanegu yng nghwr y ddalen neu uwchben y testun. Os oes gair neu ran o linell yn eisiau mewn llawysgrif, nodir hynny drwy roi’r gair neu’r geiriau (yn orgraff y testun golygedig) mewn bachau petryal. Pan fo llinell neu linellau yn eisiau mewn llawysgrif, nodir y rheini mewn bachau petryal wrth nodi trefn y llinellau. Fodd bynnag, os yw gair neu eiriau’n annarllenadwy neu wedi cael eu dileu oherwydd staen, twll, &c., dynodir hynny â bachau petryal gwag.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a’i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai bod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG<sup>3</sup> xlvii); er enghraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai bod yr odl yn hawlio cadw’r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd ffurfiau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *ymy*, *yty* (sef ‘imi’, ‘iti’), *wyd* (sef ‘wyt’), &c.

Yn yr Eirfa ar ddiwedd y gyfrol rhestrir y geiriau a drafodir yn y nodiadau (nodir hynny ag ‘n’). Rhestrir hefyd eiriau dieithr neu eiriau sy’n digwydd mewn ystyr wahanol i’r arfer, gan gynnig aralleiriad ar eu cyfer. Rhoddir llythyren fechan i bob enw cyffredin, er bod rhai enwau â phriflythyren yn y testun pan fõnt yn cyfeirio at Dduw, Crist neu’r Drindod. Yn y mynegeion i enwau priod rhestrir pob enw person a phob enw lle sy’n digwydd yn y cerddi.

## *Diolchiadau*

Cydnabyddir yn ddiolchgar gymorth y canlynol: Golygyddion a staff Geiriadur Prifysgol Cymru; staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; a Bwrdd Golygyddol a Golygydd Ymgynghorol y gyfres hon a'm cyd-weithwyr yn y Ganolfan. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Dr Nerys Ann Howells, a gyflawnodd y gwaith ar y llawysgrifau cyn ei phenodi i swydd arall. Bu ei gofal a'i chywirdeb yn sail gadarn i'r golygiad hwn.

## Cynnwys

DULL Y GOLYGU.....	v
DIOLCHIADAU .....	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol.....	ix
Termau a geiriau.....	xvii
RHAGYMADRODD .....	1
TESTUN	
1.    Marwnad Gruffudd ap Llywelyn ap Gutun.....	17
2.    I ofyn dau bentan haearn gan Ddacyn a Gutun .....	21
3.    I ofyn geifr a bwch gan Ifan ap Gruffudd ap Siancyn o Fechain Uwch Coed .....	24
4.    I ofyn ci gan Gutun Siancyn .....	27
5.    I ofyn dwy sbectol gan Syr Siôn Mechain, person Llandrunio .....	30
6.    Siomiant serch.....	32
7.    Mab a merch yn caru.....	34
8.    Cystadlu am Alswn o Fôn a dychan i Risiart Cyffin, Deon Bangor .....	36
9.    Dychan i Risiart Cyffin, Deon Bangor.....	40
10.   Dychan i Risiart Cyffin, Deon Bangor, a'i feirdd.....	44
11.   Dychan i Guto'r Glyn .....	47
12.   Ateb Llywelyn ap Gutun i gywydd llateiaeth Dafydd Llwyd o Fathafarn i Werful Mechain.....	53
13.   Ateb Llywelyn ap Gutun i gywydd dychan cyntaf Dafydd Llwyd o Fathafarn iddo .....	55
14.   Ateb Llywelyn ap Gutun i ail gywydd dychan Dafydd Llwyd o Fathafarn iddo .....	61
15.   Ceisio talu dyled .....	67
16.   Dychan i Abad Enlli.....	70
17.   Moliant i berson Llanarmon a dychan i berson Selatyn.....	72
18.   Cwyn ynghylch ffyrdd geirwon .....	73

Atodiad i.	Lewys Môn i Risiart Cyffin, Deon Bangor, ynghylch Llywelyn ap Gutun .....	74
Atodiad ii.	Ateb Guto'r Glyn i ddychan Llywelyn ap Gutun .....	76
Atodiad iii.	Cywydd llateaeth Dafydd Llwyd o Fathafarn i Werful Mechain ac i yrru Llywelyn ap Gutun ati yn llatai .....	78
Atodiad iv.	Ateb Gwerful Mechain i gywydd llateaeth Dafydd Llwyd o Fathafarn.....	80
Atodiad v.	Cywydd dychan cyntaf Dafydd Llwyd o Fathafarn i Lywelyn ap Gutun .....	83
Atodiad vi.	Ail gywydd dychan Dafydd Llwyd o Fathafarn .....	85
	i Lywelyn ap Gutun .....	85
NODIADAU.....		87
GEIRFA.....		141
	Enwau personau .....	153
	Enwau lleoedd .....	155
LLAWYSGRIFAU.....		157
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF .....		165
MYNEGAI I'R NODDWYR A'R GWRTHRYCHAU .....		167



# Byrfoddau

## Llyfryddol

- AAST *Anglesey Antiquarian Society and Field Club Transactions*, 1913–
- AWH *Aspects of Welsh History: Selected Papers of the late Glyn Roberts*, ed. A.H. Dodd and J. Gwynn Williams (Cardiff, 1969)
- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–93
- Bangor Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Cymru, Bangor
- Bangor (Mos) Llawysgrif yng nghasgliad Bangor (Mostyn) ym Mhrifysgol Cymru, Bangor
- P.C. Bartrum: WG1 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- P.C. Bartrum: WG2 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Aberystwyth, 1983)
- BD *Brut Dingestow*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942)
- BDG *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym, o grynhoad Owen Jones a William Owen* (Llundain, 1789)
- BL Add Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
- Brog Llawysgrif yng nghasgliad Brogyntyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- BT *Brut y Tywysogion, Peniarth MS 20*, gol. Thomas Jones (Caerdydd, 1941)
- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- ByCyAt *Y Bywgraffiadur Cymreig 1941–1950 gydag Atodiad i'r Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1970)

- CAMBM *Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum*
- Card Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- CFG Melville Richards, *Cystrawen y Frawddeg Gymraeg* (Caerdydd, 1938)
- CLC<sup>2</sup> *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*, gol. Meic Stephens (ail arg., Caerdydd, 1997)
- CM Llawysgrif yng nghasgliad Cwrwmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- CMCS *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–93; *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 1993–
- CMOC<sup>2</sup> *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol*, gol. Dafydd Johnston (argraffiad diwygiedig, Pen-y-bont ar Ogwr, 1998)
- CTC Catrin T. Beynon Davies, ‘Cerddi’r Tai Crefydd’ (M.A. Cymru [Bangor], 1973)
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- D *Dictionarium Duplex*, ed. John Davies (Londinium, 1632)
- DGG<sup>2</sup> *Cywyddau Dafydd ap Gwilym a’i Gyfoeswyr*, gol. Ifor Williams a Thomas Roberts (ail arg., Caerdydd, 1935)
- DGIA Huw M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford, 1996)
- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- DrOC *Drych yr Oesoedd Canol*, gol. Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen (Caerdydd, 1986)
- L. Dwnn: HV *Heraldic Visitations of Wales*, ed. Samuel Rush Meyrick (2 vols., Llandovery, 1846)
- EANC R.J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938)
- EEW T.H. Parry-Williams, *The English Element in Welsh* (London, 1923)

- Esgair Llawysgrif yng nghanol Esgair, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Études *Études celtiques*, 1936–
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GB *Geiriadur Beiblaidd*, gol. Thomas Rees, D. Francis Roberts, J. T. Evans, David Williams, Ifor Williams (Wrecsam, 1926)
- GC *Gwaith Casnodyn*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1999)
- GDB *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Caerdydd, 1995)
- GDC *Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2002)
- GDG *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (Caerdydd, 1952)
- GDG<sup>3</sup> *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GDID *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen*, gol. A. Eleri Davies (Caerdydd, 1992)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- Gen ‘Llyfr Genesis’ yn yr Hen Destament
- GEO *Gwaith Einion Offeiriad a Dafydd Ddu o Hiraddug*, gol. R. Geraint Gruffydd a Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 1997)
- GGDT *Gwaith Gruffudd ap Dafydd ap Tudur, Gwilym Ddu o Arfon, Trahaearn Brydydd Mawr ac Iorwerth Beli*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Aberystwyth, 1995)
- GGH *Gwaith Gruffudd Hiraethog*, gol. D.J. Bowen (Caerdydd, 1990)
- GGI *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (Caerdydd, 1939)

- GGI<sup>2</sup> *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GGLI *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000)
- GGM *Gwaith Gwerful Mechain ac Eraill*, gol. Nerys Ann Howells (Aberystwyth, 2001)
- GGrG *Gwaith Gronw Gyriog, Iorwerth ab y Cyriog, Mab Clochyddyn, Gruffudd ap Tudur Goch ac Ithel Ddu*, gol. Rhiannon Ifans *et al.* (Aberystwyth, 1997)
- GHC *Gwaith Hywel Cilan*, gol. Islwyn Jones (Caerdydd, 1963)
- GHD *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1995)
- GHS *Gwaith Hywel Swrdwal a'i deulu*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2000)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GILIF *Gwaith Ieuan ap Llywelyn Fychan, Ieuan Llwyd Brydydd a Lewys Aled*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2003)
- GIRh *Gwaith Ieuan ap Rhydderch*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2003)
- GLD *Gwaith Lewys Daron*, gol. A. Cynfael Lake (Caerdydd, 1994)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLI *Gwaith Llawdden*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2006)
- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)
- GLIF *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. Kathleen Anne Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GLIG *Gwaith Llywelyn Goch ap Meurig Hen*, gol. Dafydd Johnston (Aberystwyth, 1998)

- GMB *Gwaith Meilyr Brydydd a'i Ddisgynyddion*, gol. J.E. Caerwyn Williams *et al.* (Caerdydd, 1994)
- GMD *Gwaith Madog Dwygraig*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2006)
- GMRh *Gwaith Maredudd ap Rhys a'i Gyfoedion*, gol. Enid Roberts (Aberystwyth, 2003)
- GMW D. Simons Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GO *L'oeuvre poétique de Gutun Owain*, ed. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- GOLIM *Gwaith Owain ap Llywelyn ab y Moel*, gol. Eurys Rolant (Caerdydd, 1984)
- GP *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–2002)
- GPC<sup>2</sup> *Geiriadur Prifysgol Cymru* (ail arg., Caerdydd, 2003–)
- GRhGE *Gwaith Rhys Goch Eryri*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2007)
- GSCMB 'Guide to the Special Collections of Manuscripts in the Library of the University College of North Wales Bangor' (cyfrol anghyhoeddedig, Prifysgol Cymru, Bangor, 1962)
- GSCyf *Gwaith Dafydd Bach ap Madog Wladaidd 'Sypyn Cyfeiliog' a Llywelyn ab y Moel*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 1998)
- GSdT *Gwaith Syr Dafydd Trefor*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2005)
- GSH *Gwaith Siôn ap Hywel*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1999)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)

- GTP *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*, gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958)
- GWL ii<sup>2</sup> *A Guide to Welsh Literature 1282–c. 1550 Volume II*, ed. A.O.H. Jarman and Gwilym Rees Hughes, revised by Dafydd Johnston (Cardiff, 1997)
- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad J. Gwyneddon Davies, yn Llyfrgell Prifysgol Cymru, Bangor
- GyB *Galar y Beirdd*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1993)
- Hen B *Hen Benillion*, gol. T.H. Parry-Williams (Llandysul, 1940)
- HCLI *Gwaith Huw Cae Llwyd ac Eraill*, gol. Leslie Harries (Caerdydd, 1953)
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- HPF J.Y.W. Lloyd, *The History of Powys Fadog* (6 vols., London, 1881–7)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- M. Kyffin: DFF Maurice Kyffin, *Deffyniad Ffydd Eghwys Loegr, 1595* (adarg., Bangor, 1908)
- LBS S. Baring-Gould and J. Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13)
- Luc ‘Yr Efengyl yn ôl Luc’ yn y Testament Newydd
- LIA *The Elucidarium ... from Llyvyr Agkyr Llandewivrevi, A.D. 1346*, ed. J. Morris Jones and John Rhŷs (Oxford, 1894)
- LICy *Llên Cymru*, 1950–
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- J.E. Lloyd: HW<sup>3</sup> J.E. Lloyd, *A History of Wales* (third ed.; London, 1939)
- Llst Llawysgrif yng nghasgliad Llansteffan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

- LIU Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525* (Caerdydd, 2005)
- LlyB *Llywelyn y Beirdd*, gol. J.E. Caerwyn Williams, Eurys Rolant ac Alan Llwyd (Cyhoeddiadau Barddas, 1984)
- Math ‘Yr Efengyl yn ôl Mathew’ yn y Testament Newydd
- MED *Middle English Dictionary* (Michigan, 1963–)
- MFGLI *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* (Caerdydd, 1978)
- Mont Coll *Collections Historical and Archaeological ... by the Powysland Club*, 1868–
- J. Morris-Jones: CD John Morris-Jones, *Cerdd Dafod* (Rhydychen, 1925)
- Mos Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- MWM Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff, 2000)
- NLWCM J.H. Davies, *The National Library of Wales: Catalogue of Manuscripts*, i (Aberystwyth, 1921)
- OCD<sup>3</sup> *The Oxford Classical Dictionary*, ed. Simon Hornblower and Antony Spawforth (third ed. revised, Oxford, 1996)
- ODCC<sup>3</sup> *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross and E.A. Livingstone (third ed., Oxford, 1967, revised 2005)
- OED<sup>2</sup> *The Oxford English Dictionary* (second ed., Oxford, 1989)
- PACF John Edwards Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (Bangor, 1914)
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Peniarth 76 *Peniarth 76*, copiwyd gan E. Stanton Roberts a golygwyd gan W.J. Gruffydd (Caerdydd, 1927)

- PKM *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1964)
- RWM *Report on Manuscripts in the Welsh Language*, ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910); fe'i defnyddir hefyd i ddynodi rhif llawysgrif yng nghatalog J.G.E.
- W. Salesbury: OSP William Salesbury, *Oll Synnwyr pen Kembero ygyd* [Llundain, 1547], gol. J. Gwenogvryn Evans (adarg., Bangor & London, 1902)
- TA *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926)
- TCHSDd *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, 1952–
- D.R. Thomas: HDStA D.R. Thomas, *The History of the Diocese of Saint Asaph* (3 vols., Oswestry, 1908–13)
- THSC *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3–
- Traeth *Y Traethodydd*, 1845–
- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- TWS Elissa R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Cambridge, 1987)
- TYP<sup>3</sup> *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (third ed., Cardiff, 2006)
- WATU Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1969)
- WCCR<sup>2</sup> Glanmor Williams, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (second ed., Cardiff, 1976)
- WCD P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary* (Aberystwyth, 1993)
- WG J. Morris Jones, *A Welsh Grammar* (Oxford, 1913)
- WWR<sup>2</sup> H.T. Evans, *Wales and the Wars of the Roses* (second ed., Stroud, 1995)



- YB *Ysgrifau Beirniadol*, gol. J.E. Caerwyn Williams  
(Dinbych, 1965–)
- YT *Ystoria Taliesin*, ed. Patrick K. Ford (Cardiff, 1992)

*Termau a geiriau*

a.	ansoddair, -eiriol	gn.	geiryn
adf.	adferf	goddr.	goddrych
amhff.	amherffaith	gof.	gofynnol
amhrs.	amhersonol	gol.	golygwyd gan
anh.	anhysbys	grb.	gorberffaith
ardd.	arddodiad, -iaid	grch.	gorchmynnol
arg.	argraffiad	grff.	gorffennol
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
At.	Atodiad	gw.	gweler
b.	benywaidd	gwrth.	gwrthrych
ban.	bannod	h.y.	hynny yw
be.	berfenw	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
bf. (f.)	berf, -au	<i>id.</i>	<i>idem</i>
c.	<i>circa</i>	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
c. (g.)	canrif	ll.	lluosog; llinell
C.	Canol	Llad.	Lladin
C.C.	cyn Crist	llaf.	llafariad
cf.	cymharer	llau.	llinellau
cmhr.	gradd gymharol	llsgr.	llawysgrif
cpl.	cyplad	llsgrau.	llawysgrifau
Cym.	Cymraeg	m.	mewnol
cys.	cysylltair, cysylltiad	myn.	mynegol
d.g.	dan y gair	neg.	negydd, -ol
dib.	dibynnol	<i>ob.</i>	<i>obiit</i>
Diw.	Diweddar	O.C.	oed Crist
e.	enw	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
<i>ead.</i>	<i>eadem</i>	pres.	presennol
eb.	enw benywaidd	prs.	person, -ol
ebd.	ebychiad	pth.	perthynol
ed.	<i>edited by, edition</i>	r	<i>recto</i>
e.e.	er enghraifft	rh.	rhagenw, -ol
eg.	enw gwrywaidd	rhif.	rhifol, -ion, rhifyn
eith.	eithaf	S.	Saesneg
e.p.	enw priod	<i>s.n.</i>	<i>sub nomine</i>
<i>et al.</i>	<i>et alii</i>	td.	tudalen
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	tf.	torfol
f.	ffolio	tt.	tudalennau
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	traeth.	traethiad, -ol
ff.	ffolios	un.	unigol
Ffr.	Ffrangeg	v	<i>verso</i>
g.	(c.) canrif; gwrywaidd	vols.	volumes

# Rhagymadrodd

## Bywyd y Bardd

Bardd a ffynnai yn ail hanner y bymthegfed ganrif ac a gysylltir â gororau gogledd-ddwyrain Powys oedd Llywelyn ap Gutun. Bu tuedd i'w drin yn bennaf mewn cysylltiad â beirdd eraill, mwy adnabyddus, gyda'r canlyniad na chafodd ei sylw haeddiannol. Y mae, er hynny, yn fardd anghyffredin a thra diddorol, a hynny nid yn unig am natur a chynnwys ei gerddi ond hefyd am y bersonoliaeth afrywiog a adlewyrchir ynddynt a'i amlochredd. Deunaw cerdd sydd wrth ei enw ac ymwna'r rhain â themâu megis erchi a serch, ond yn bennaf â dychan ac ymryson. Ynddynt gwelir Llywelyn yn ymroi gydag egni, arddeliad a dychymyg i'w waith ac yn mwynhau gornest. Peth arall sy'n nodweddu ei gerddi yw'r amrywiaeth profiad sydd y tu cefn iddynt, oherwydd ochr yn ochr â phrydyddu, yr oedd y bardd hwn hefyd yn canu'r delyn ac yn byw bywyd anturus yn cymhortha. Ymhlith uchafbwyntiau ei waith gellir crybwyll ei farwnad stormus ac ingol i'w fab Gruffudd (cerdd 1), ei ddisgrifiad grotésg o fab a merch yn caru (cerdd 7) a'i ymryson afieithus â Guto'r Glyn (cerdd 11).

### *Achau a theulu*

Ni welwyd dim sôn am Lywelyn ap Gutun yn yr achau. 'Llywelyn ap Gutun' y'i gelwir gan amlaf yn y llawysgrifau, ond mewn rhestr o feirdd a cherddorion a ysgrifennwyd gan Gutun Owain yn ail hanner y bymthegfed ganrif,<sup>1</sup> gwelir ei fod yn fab i Ieuan Llydan. Cyfeirir ato felly mewn rhai llawysgrifau diweddarach hefyd,<sup>2</sup> neu fel 'Llywelyn ap Gutun ap Ieuan Llwyd,'<sup>3</sup> ond diau mai gwall yw 'Llwyd' am 'Llydan'.

Yn ei gywydd i ofyn am ddwy sbectol gan Syr Siôn Mechain, person Llandrunio (cerdd 5), cyfeiria Llywelyn at Owain ap Llywelyn ab y Moel fel [*c]âr ym* (5.6) a dadleuodd Eurys Rolant ar sail hyn ei bod yn 'weddol debygol' fod Llywelyn ac Owain yn berthnasau.<sup>4</sup> At hynny, cynigiodd fod Llywelyn yn fab i Guto, brawd i Lywelyn ab y Moel, a'i fod ef ac Owain, gan hynny, yn gefndryd, gyda'r Moel yn daid iddynt. Ond, fel y cyfeddyf ef ei hun, y mae hyn yn groes i'r dystiolaeth arall mai Ieuan Lydan oedd taid Llywelyn ap Gutun, a diogelach yw derbyn y dystiolaeth honno. Os oedd

<sup>1</sup> LIGC 1585D, 132<sup>v</sup>–133<sup>v</sup>. Ymhellach, gw. Daniel Huws, 'Rhestr Gutun Owain o Wŷr wrth Gerdd', *Dwned*, x (2004), 79–88.

<sup>2</sup> BL Add 14989, 74<sup>v</sup>; BL Add 31056, 65<sup>v</sup>; Llst 155, 67; Pen 112, 706; Pen 312ii, 42, 62.

<sup>3</sup> BL Add 31056, 64<sup>r</sup>, 65<sup>r</sup>; BL Add 31085, 153<sup>v</sup>.

<sup>4</sup> GOLIM xi.

Llywelyn ac Owain yn perthyn, nid oes tystiolaeth ddigonol mai dau gefnder oeddynt. Ymhellach, un arall o ystyron *câr* yw 'cyfaill'<sup>5</sup> a dichon na olygai Llywelyn fwy, felly, na'i fod ef ac Owain yn gyfeillion. O ran hynny, cyfeiria Llywelyn hefyd at Guto'r Glyn, yn yr un modd, efallai, fel *Guto 'nghâr* (15.52).

Dengys rhestr Gutun Owain fod tad Llywelyn, Gutun, yntau, yn ŵr wrth gerdd. Gwyddys hefyd fod gan Lywelyn fab o'r enw Gruffudd gan iddo ei farwnadu (cerdd 1). Yr oedd ganddo ferched yn ogystal, oherwydd *Nid âi hwn* [sef Gruffudd] ... / *I chwarae heb ei chwiorydd* (1.45–6), ond ni wyddys eu henwau.

### Bro

Yn ei gywydd i ofyn am eifr a bwch gan Ifan ap Gruffudd ap Siancyn o Fechain Uwch Coed (cerdd 3), dywed Llywelyn ap Gutun am yr anifeiliaid, *Mae i'm bryd, mi a'm brawd da, / Dan amod o dôn' yma, / Dryllio mynydd, gwŷdd a gwern, / Tu miliast, eto ym Melwern* (3.45–8), ac awgryma hyn mai ym Melwern (S. *Melverley*), sef plwyf ger Croesoswallt yn swydd Amwythig, yr oedd ei gartref. Dyna hefyd a awgrymir gan eiriau Guto'r Glyn yn ei gywydd i ateb dychan Llywelyn, *Ef â'i olud o Felwern* (At.ii.51), a chymharer geiriau Lewys Môn yn ei gywydd i Risiart Cyffin, Deon Bangor, ynghylch Llywelyn, *Llywelyn goegddall olwg, / drem iâr ar y glwyd, a'r mwg, / y mae'n eu bwrw, mewn ei bais / obry'm Melwern, bob malais* (At.i.7–10).

### Dyddiadau

Y cofnod cynharaf sy'n berthnasol i ddyddiadau Llywelyn ap Gutun yw rhestr Gutun Owain o feirdd a cherddorion, oherwydd gesyd gyfnod y bardd yn fras yn ail hanner y bymthegfed ganrif.

Yn ddiweddarach, yn LIGC 3050D [= Mos 147], 38, a ysgrifennwyd tua 1577, ceir cofnod mwy penodol lle y rhoddir y flwyddyn 1480 ar ei gyfer. Y dyddiad hwn hefyd a geir yn ddieithriad mewn llawysgrifau diweddarach<sup>6</sup> a chan John Davies, Mallwyd.<sup>7</sup> Ni ddylid, er hynny, dderbyn dyddiadau o'r fath yn ddigwestiwn gan nad yw eu sail fel arfer yn hysbys, ac ymddengys mai amcangyfrifon yw llawer ohonynt.

Ceir yr arwydd pwysicaf parthed union flynyddoedd Llywelyn ap Gutun yn ei gerdd i ofyn am ddwy sbectol gan Syr Siôn Mechain (cerdd 5). Yma cwyna Llywelyn ynghylch pylni ei olwg a'i oedran ef ac Owain ap Llywelyn ab y Moel, a sonia am ymweld â gŵr o'r enw Guto, sef Guto'r Glyn, y mae'n debyg (5.48n). Awgryma hyn ei fod yn heneiddio cyn 1493, dyddiad

<sup>5</sup> GPC 422 (b).

<sup>6</sup> BL Add 14882 [= RWM 31], 6<sup>r</sup>, 74<sup>r</sup>; CM 243, 107; Gwyn 11, 135; J 101 [= RWM 17], 428; LIGC Mân Adnau 1206B [= Tanybwlech 1], 34, 37, 67, 296; LIGC 1998B [= Pant 29], 67; Llst 155, 56, 61, 69.

<sup>7</sup> Gw. y rhestr o feirdd ar ddiwedd D; John Davies, *Flores Poetarum Britannicorum* ... (Mwythig, 1710), 75.

tybiedig marw Guto'r Glyn.<sup>8</sup> Sylwer hefyd mai tua 1440, yn nhyb Eurys Rolant, y ganwyd Owain ap Llywelyn ab y Moel,<sup>9</sup> a oedd, fel y tystia'r gerdd, tua'r un oed â Llywelyn. Os felly, byddai'n rhesymol cynnig bod Llywelyn wedi ei eni rhwng 1430 a 1440.

Anos, ar y llaw arall, yw ceisio pennu adeg ei farw. Ceir pymtheg o eiriau, ffurfiau ac ystyron yn ei waith a restrir yng *Ngeiriadur Prifysgol Cymru* am y tro cyntaf o ffynonellau eraill rhwng y blynyddoedd 1547 a 1794,<sup>10</sup> a dichon mai arwyddocâd y geiriau hyn, yn eu crynswth, yw fod ieithwedd Llywelyn ap Gutun yn perthyn i'r unfed ganrif ar bymtheg yn ogystal ag i'r bymthegfed.

Gellir cynnig, felly, mai blynyddoedd Llywelyn ap Gutun oedd rhwng 1430 a 1440 hyd wedi 1500.<sup>11</sup>

### *Ei yrfa*

Ffaith ddiddorol ac anghyffredin ynglŷn â Llywelyn ap Gutun yw ei fod nid yn unig yn fardd ond hefyd yn delynor. Ceir y prawf pwysicaf o hyn yn un o gerddi dychan Dafydd Llwyd o Fathafarn iddo (At.vi.4, 25, 33–62)<sup>12</sup> ac yn ymateb Llywelyn:

Trais amlwg yw tros ymladd  
Ym wadu'r un o'm dwy radd.  
Prydydd wyf, parod ddwy iaith,  
A thelynor a'th lawnwaith.<sup>13</sup>

Disgrifia Guto'r Glyn ef ymhellach fel *Telynior, tâl awenydd*.<sup>14</sup> Yng nghyfnod y Tuduriaid, mewn cerdd ymryson rhwng Syr Dafydd Trefor ac

<sup>8</sup> CLC<sup>2</sup> 295.

<sup>9</sup> GOLIM xii.

<sup>10</sup> Gw. y nodiadau ar 2.4, 12, 50, 52; 3.40; 5.20; 7.20; 9.50; 14.25; 15.13, 52; 16.5, 7, 19; 18.4. 1547–1632 yw cyfnod y rhan fwyaf ohonynt.

<sup>11</sup> Cyfnod blodau Llywelyn ap Gutun, yn ôl William Owen, *The Cambrian Biography: or Historical Notices of Celebrated Men among the Ancient Britons* (London, 1803), 224, oedd c. 1460–1500, dyddiad a ailadroddir gan awduron eraill o'r 19g., sef Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen, from the Earliest Times to the Present, and Including Every Name Connected with the Ancient History of Wales* (Llandovery, 1852), 300; Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru, o'r Oesoedd Boreuaf Hyd yn Awr, yn Offeiriad, Pregethwyr, Beirdd, Hynafiaethwyr, Gwyddonegwyr, Llenorion, Cerddorion* (2 gyfrol, Aberdar, 1867), ii, 239 ('rhwng 1460 a 1500'); Isaac Foulkes, *Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru: yn Rhyfelwyr, Pregethwyr, Beirdd, Gwyddonwyr, Meddygon, Seneddwyr, &c.* (Liverpool, 1870), 701 ('rhwng 1460 a 1500'); Richard Williams, 'Montgomeryshire Worthies', Mont Coll xiii (1880), 373; R.I. Prys (Gweirydd ap Rhys), *Hanes Llenyddiaeth Gymreig o'r Flwyddyn 1300 hyd y Flwyddyn 1650* (Liverpool, [1885]), 258 ('1460–1500'). Yn Robert Griffith, *Llyfr Cerdd Dannau: Ymchwiliad i Hanes Hen Gerddoriaeth a'r Dulliau Hynaf o Ganu* (Caernarfon, [1913]), 246, tua diwedd y 15g. oedd cyfnod blodau'r bardd.

<sup>12</sup> Gw. hefyd At.v.58; GGM 5.40 *Delynor heb awdl uniawn* (Dafydd Llwyd o Fathafarn).

<sup>13</sup> 14.27–30.

<sup>14</sup> At.ii.7; cf. At.ii.24.

Ifan Delynor, gofyn Syr Dafydd i Ifan a yw'n ceisio efelychu Llywelyn ap Gutun trwy fod yn delynor ac yn brydydd:

Os ceisio hwylio helynt  
Llywelyn ap Gutyn gynt,  
A cheisio gwreiddio mewn gradd  
A dwygrefft odidowgradd,  
Dy law ar dant a lowir,  
A gwaith dy dafod nid gwir ...<sup>15</sup>

Mewn tair llawysgrif ddiweddar, disgrifir Llywelyn fel 'telynor'<sup>16</sup> neu 'delynor Llwydiarth',<sup>17</sup> a dywed Robert Griffith amdano ei fod yn 'chwareuydd ar y crwth, a chrythor teuluaid i Ddafydd Llwyd ab Llywelyn ab Gruffydd'.<sup>18</sup> Dyma awgrym arall fod Llywelyn yn medru offeryn llinynnol.

Gellid gofyn pa grefft a feistrolodd Llywelyn yn gyntaf. Awgryma geiriau Dafydd Llwyd mai crefft y delyn:

Telynor fu'r mawrior mau,  
Lywelyn, fil o wyliau;  
Weithian, ym oedran Medrod,  
Yma yn fardd y myn fod ...  
Telynawr bostfawr ni bydd,  
Ni edir yntau'n wawdydd!<sup>19</sup>

Dyna hefyd yw byrdwn cyfeiriadau Guto'r Glyn a Syr Dafydd Trefor.

Yn ôl Ystatud Gruffudd ap Cynan, ni chymeradwyid arddel dwy grefft:

... na bei i neb gynnal dwy gelbhydhyd, megis prydydhiaeth a thelynoriaeth, nev dhatceiniaeth. Hebhyd na bei i neb arwein crepth [*sic*, darllener *crepht*] a chelbhydhyd; megis bod yn saer nev yn obh; a chyd a hynny prydydhiaeth nev delynoriaeth, nev grythoriaeth, nev dhatceiniadiaeth ...<sup>20</sup>

Ond fel y dywed yr Athro Dafydd Johnston:

Roedd gan grefftwyr cerdd dant gyfundrefn a rheolau digon tebyg i eiddo'r beirdd, ac roedd cysylltiad agos rhyngddynt am fod cerddi'n cael eu perfformio i gyfeiliant telyn neu grwth, felly nid yw'n syndod bod ambell un o'r cerddorion wedi meistrolï crefft cerdd dafod hefyd.<sup>21</sup>

<sup>15</sup> Henry Lewis, 'Cywyddau Ymryson Ifan Dylunior, Syr Dafydd Trefor a Ieuan ap Madog', B xvii (1956–8), 165 (llau. 9–14). (Am ymrysonau eraill rhwng Ifan a beirdd eraill, gw. Bob Owen, 'Ifan Dylunior', B xviii (1958–60), 27–36.)

<sup>16</sup> Bangor 13829, 35.

<sup>17</sup> Gwyn 5, 49; LIGC 9202B, 78.

<sup>18</sup> Robert Griffith, *op.cit.* 246.

<sup>19</sup> At.vi.39–42, 47–8.

<sup>20</sup> Thomas Parry, 'Statud Gruffudd ap Cynan', B v (1929–31), 26–7.

<sup>21</sup> LIU 46.

Heblaw Llywelyn ap Gutun ac Ifan Delynor, telynorion eraill y gellir eu crybwyll a oedd hefyd yn feirdd yw Edward Sirc, pencerdd telyn y cadarnhawyd ei radd yn Eisteddfod Caerwys 1523,<sup>22</sup> a Wiliam Penllyn (*fl. c.* 1550–70).<sup>23</sup> Ymddengys fod Tudur Aled yn feistr ar gerdd dant yn ogystal â cherdd dafod.<sup>24</sup> Yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, y mae Sefnyn, yn ei farwnad i Iorwerth ab y Cyriog, yn sôn am *ddwygrefft* Iorwerth.<sup>25</sup> Felly hefyd Risierdyn yn ei foliant i Hwlcyn ap Hywel o Brysaeddfed.<sup>26</sup> Y mae'n ddigon posibl hefyd fod Lewys Môn yn arddel dwy grefft, serch mai gofaniaeth, nid telnoriaeth, oedd yr un a ychwanegai at brydyddiaeth.<sup>27</sup> Tybed hefyd a oedd rhai o'r cerddorion (telynorion, crythorion a phibydd) a enwir yn rhestr Gutun Owain hefyd yn prydyddu? Yn ôl yr Athro Johnston, 'peth anghyffredin oedd cerddor o fardd', ac efallai mai cywir hynny. Serch hynny, gellid dadlau ar sail rhestr Gutun Owain fod y ffaith fod beirdd a cherddorion yn cael eu cynnwys ynghyd ynddi yn awgrymu math o gymuned neu frawdoliaeth estynedig lle yr oedd llai o fwllch nag y tybid rhwng y naill grefft a'r llall a mwy o ryddid, o ganlyniad, i groesi ffiniau. Cofier hefyd am y cyswllt clôs rhwng y beirdd a'r datgeiniaid, dosbarth arall o grefftwyr.

Gellir gofyn paham y troes Llywelyn ap Gutun ei law at brydyddu, ac yntau'n delynor. Ateb amlwg fyddai diddordeb ynghyd â gallu cynhenid. Ateb arall, fodd bynnag, fyddai cyfle i ymelwa mwy trwy gystadlu â beirdd proffesiynol.

Gellir gofyn hefyd pa un ai canu'r delyn ynteu prydyddu a wnâi fwyaf. Gan mai telynor ydoedd yn y lle cyntaf, y tebyg yw mai dyna ydoedd yn bennaf ac ategir hyn gan natur y cerddi o'i eiddo a gadwyd, oherwydd ni chynhwysant ddim o'r cerddi mawl a marwnad i uchelwyr sydd mor nodweddiadol o feirdd proffesiynol. Megis rhai o'r beirdd hynny 'a ganai ar eu bwyd eu hunain',<sup>28</sup> nid oedd yn clera yn ystyr arferol y gair a'r tebyg yw mai gweithgarwch achlysurol oedd barddoni iddo.

Fel y dywedwyd, cyfeirir at Lywelyn ap Gutun fel 'telynor Llwydiarth' mewn dwy lawysgrif ddiweddar, a chan Robert Griffith fel 'chwareuydd ar y crwth, a chrythor teuluaid' i Ddafydd Llwyd o Fathafarn. Nid yw

<sup>22</sup> D.J. Bowen, 'Graddedigion Eisteddfodau Caerwys, 1523 a 1567/8', LICy ii (1952–3), 130; *Gwaith Huw Ceiriog ac Edward Maelor*, gol. Huw Ceiriog Jones (Caerdydd, 1990), xx–xxi.

<sup>23</sup> Gw. ByCy 956.

<sup>24</sup> Gw. TA xxxviii–xxxix; D.J. Bowen, *art.cit. l.c.*; GLM 527; GLD 125; GHD 15.41n; CLC<sup>2</sup> 733. Nid ymddengys, er hynny, fod Tudur Aled yn *athro* cerdd dant, gw. yn enwedig D.J. Bowen, *l.c.*

<sup>25</sup> Gw. GSRh 2.44n; GGrG 36. Gellir cwestiynu barn Ifor Williams—IGE<sup>2</sup> lxxxiii, cf. GSRh *l.c.*—mai arwyddocâd y gair yw fod Iorwerth ab y Gyriog mewn urddau eglwysig yn ogystal ag yn fardd.

<sup>26</sup> GSRh 8.11n.

<sup>27</sup> GLM xiv–xv.

<sup>28</sup> Gw. Dafydd Johnston, '*Canu ar ei fwyd ei hun*': *Golwg ar y Bardd Amatur yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Abertawe, 1997).

diweddarwch y ffynonellau hyn yn cryfhau eu tystiolaeth ond ni ddylid eu hanwybyddu ychwaith gan na ellir diystyru'r posibilrwydd eu bod yn adlewyrchu traddodiadau dilys nas cofnodwyd, hyd y gwyddys, yn gynharach. Gwyddom ar sail ei ymryson â Guto'r Glyn a chyfeiriad gan Ddafydd Llwyd o Fathafarn fod Lywelyn wedi ymweld â Llwydiarth yn Llannerch-y-medd, Môn,<sup>29</sup> ac y mae'n bosibl mai dyna pam y gelwir ef yn delynor Llwydiarth. Ar y llaw arall, yn wyneb ei gysylltiadau agos â Phowys, byddai'n haws credu mai Llwydiarth, Llanfihangel-yng-Ngwynfa ym Mechain, a olygir—a chofier iddo gyflwyno cerdd ofyn i noddwr a drigai yn yr ardal honno (cerdd 3). Y mae'n bosibl, felly, iddo fod â chysylltiad agos fel telynor â disgynyddion Celynin ap Rhirid o Lwydiarth.<sup>30</sup> Ynglŷn â honiadau Robert Griffith, ni sonnir dim yn y farddoniaeth fod Llywelyn ap Gutun yn grythor yn hytrach nag yn delynor, a gall fod yma gymysgu; ond ni fyddai'n syndod pe bai Llywelyn yn medru'r crwth hefyd; wedi'r cwbl, yr oedd hwn a'r delyn ill dau yn offerynnau llinynnol a gwyddys bod y pencerdd telyn Edward Sirc (gw. td. 5) yn grythor yn ogystal ag yn delynor.<sup>31</sup> Ceir digonedd o brawf yn ei ymrysonau i ymwneud Llywelyn ap Gutun â Dafydd Llwyd o Fathafarn, ac y mae'n bosibl, felly, iddo fod â chysylltiad agos ag ef fel crythor. Rhaid cyfaddef, er hynny, na ellir fawr mwy na dyfalu ynghylch dilysrwydd yr hyn a ddywedir yn y llawysgrifau uchod a chan Robert Griffith.

Gellir dysgu mwy am droeon gyrfa Llywelyn ap Gutun oddi wrth ei gerddi ac yn enwedig y cerddi dychan ac ymryson, lle y gwelir gwrthdaro rhyngddo a phobl eraill. Bron, yn wir, na ellid disgrifio'r hyn a gesglir am ei yrfa fel cyfres o wrthdrawiadau. Yr oedd hyn yn bennaf, y mae'n debyg, am ei fod yn sefyll y tu allan i'r gyfundrefn swyddogol a bod ymroi i ddychan ac ymryson, fel yr awgryma'r Athro Dafydd Johnston, yn fodd i feirdd o'r fath arddel perthynas â beirdd eraill.<sup>32</sup> Cymar amlwg iddo yn hyn o beth fyddai Gwerful Mechain. Ar yr un pryd, yr oedd Llywelyn, ar ei addefiad ei hun, yn ŵr a 'dynnai' annoethineb ac a wnâi gynnen,<sup>33</sup> a dichon, felly, fod atyniad mwy na'r cyffredin iddo mewn canu o'r fath.<sup>34</sup>

Pan oedd Llywelyn yn ddyn ifanc,<sup>35</sup> daeth i gysylltiad â Dafydd Llwyd o Fathafarn a barodd iddo fynd yn llatai drosto at Werful Mechain (At.iii).

<sup>29</sup> Gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 11 ac At.ii.19.

<sup>30</sup> Gw. P.C. Bartum: WGI 'Aleth' 5, &c. Ar deulu Llwydiarth a'r canu iddynt, gw. ByCy 537, 937–8; CLC<sup>2</sup> 465–6; NBSD 147–59.

<sup>31</sup> Huw Ceiriog Jones, *op.cit.* xx.

<sup>32</sup> Fel yr awgrymir yn LIU 390.

<sup>33</sup> 1.19–22.

<sup>34</sup> Peth anodd weithiau yw gwybod beth yw'r gwir deimladau a chymhellion y tu ôl i gerddi dychan ac ymryson a phryd y dylid deall darn yn llythrennol neu beidio. Hwyl, difyrwch a chellwair yw cywair cerddi ymryson ym mam rhai ysgolheigion ond efallai hefyd y gellid synio amdanynt fel twnameintiau mydryddol lle y ceid nwyf a chlwyf fel ei gilydd. Er mwyn osgoi'r broblem, ceisir yn y gyfrol hon gadw at yr hyn a ddywed y cerddi.

<sup>35</sup> 12.44, 48.



Ymatebodd Llywelyn i Ddafydd Llwyd (cerdd 12) trwy fodloni i wneud hyn a hefyd i fynd ag ateb Gwerful at Ddafydd, ond gan ddweud ar yr un gwynt y byddai'n dial ar Ddafydd Llwyd trwy gipio Gwerful iddo'i hun. Nid yw'n eglur oddi wrth ateb Llywelyn paham y dymunai ddial, ond yn ei gywydd llateiaeth i Werful dywed Dafydd amdano:

Diwydiach, felly dwedynt,  
 Fydd gwas wedi'i faeddu gynt.  
 Y cenau gyda'r cynydd,  
 Ei arfer, pan faedder, fydd  
 Caru'r meistr a'i curo  
 A'i ganlyn a fyn efô ...  
 Ni bu wawdydd llonydd llwyd  
 Ufuddach er pan faeddwyd.  
 Ni fyn elw ond fy nilid,  
 Ar f'ôl, bol y baeol, bid.<sup>36</sup>

Ac yn ei hymateb hithau i gywydd llateiaeth Dafydd Llwyd,<sup>37</sup> dywed Gwerful Mechain am Lywelyn:

Gyrru gŵr, gair o'i guraw,  
 Llwytu drwg yn llatai draw.  
 Gwaeth fydd ei 'wyllys, nid gwell,  
 A gâi'i amarch a'i gymell.<sup>38</sup>

Y mae'n amlwg, felly, fod Llywelyn wedi cael ei ddarostwng rywfodd gan Ddafydd Llwyd<sup>39</sup> a gofynnodd Leslie Richards ynglŷn â geiriau Dafydd (At.iii.33–4), 'A yw'n bosibl mai cyfeiriad at yr ymryson arall ynghylch cymhortha [gw. isod] a geir yma, a bod Dafydd Llwyd yn tybied iddo faeddu Llywelyn yn hwnnw? Y mae'r cyfeiriad at Lywelyn yn "ceinioca, yta ac ŵyna' [cf. At.v.12, 13, 17]" fel pe bai'n cyfeirio at y ffrwgdw hwnnw.'<sup>40</sup> Pa un ai'r achlysur hwnnw ai un arall oedd adeg darostwng Llywelyn, gellid disgwyl iddo dalu'r pwyth yn ôl i Ddafydd Llwyd. Nid oes,

<sup>36</sup> At.iii.33–8, 41–4.

<sup>37</sup> Gthg. GGM cerdd 7 lle y dywedir mai cerdd i Lywelyn ap Gutun yw hon. Sylwer yn enwedig ar y pedair ll. agoriadol y gellir eu deall yn gyfarchiad i Ddafydd Llwyd. Er nas cyferchir â berf yn yr ail berson, gallai'r beirdd gyfarch ei gilydd yn anuniongyrchol ar dro. Y mae'n annhebygol mai Llywelyn yw gwrthrych y gerdd gan nas cyferchir mewn unrhyw fodd. Posibilrwydd arall yw mai bwriad Gwerful Mechain wrth lunio'r gerdd oedd sôn am Ddafydd Llwyd, ei hun a Llywelyn ap Gutun wrth rywrai eraill.

<sup>38</sup> At.iv.27–30.

<sup>39</sup> Gthg. GGM 150 lle y dywedir bod Dafydd Llwyd wedi croesawu Gwerful Mechain i guro Llywelyn er mwyn sicrhau ei wasanaeth fel llatai; cf. W.J. Gruffydd, *Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600* (Lerpwl, 1922), 40; ond ar sail At.iii.41–2 rhaid mai *cyn* iddo fynd at Werful y dioddefodd Llywelyn.

<sup>40</sup> W. Leslie Richards, 'Cywyddau Ymryson a Dychan Dafydd Llwyd o Fathafarn', *LICy* iii (1954–5), 217. Sylwer bod yr ymryson ynghylch cymhortha yn dilyn yr ymryson ynghylch llateiaeth yn GDL1 151–9 (cerddi 69–72), fel pe bai'r golygydd o'r farn fod yr ail yn ddiweddarach.

serch hynny, unrhyw arwydd i Lywelyn gyflawni ei amcan trwy gipio Gwerful; i'r gwrthwyneb, dywed hi amdano:

Ni wnâi, ni fynnai f'annerch,  
 Lywelyn ymofyn merch,  
 Nac iddo'i hun, bun a ball,  
 Na'i beri i neb arall.<sup>41</sup>

Ond os hwyl a chellwair oedd y cwbl, nid yw hynny, wrth gwrs, yn syndod.

Nid dyma'r unig gyfranc ychwaith a fu rhwng Llywelyn a Dafydd Llwyd. Mewn ymryson arall—naill ai cyn yr ymryson ynghylch Gwerful Mechain neu wedi hynny, ac o bosibl tua'r un adeg (At.v, cerdd 13, At.vi, cerdd 14)—ymosododd Dafydd ar Lywelyn, gan edliw iddo glera a chymhortha trwy Gymru a defnyddio dwy grefft, sef cerdd dant a cherdd dafod, yn hytrach nag un, i ymelwa. Ymddengys mai'r hyn a symbylodd Ddafydd Llwyd yn bennaf oedd fod Llywelyn wedi gwneud hyn yn ei gwr ef o Gymru: arweinai hynny at wrthdaro nid yn unig rhwng dwy bersonoliaeth dra gwahanol ond hefyd rhwng buddiannau economaidd, oherwydd, yn ôl Llywelyn, buasai Dafydd Llwyd yntau yn cymhortha, a hynny ers cyn ei amser ef ac yn fwy rheibus o lawer. Ymddengys hefyd i Lywelyn gael ei gleisio yn y ffrwgwd oherwydd cwyna ynghylch ymosodiadau dychanol Dafydd arno. Efallai, yn wir, mai at hyn y cyfeiria Dafydd Llwyd yn ei gywydd llateiaeth i Werful Mechain wrth sôn am *faeddu* Llywelyn (gw. uchod).

Daeth Llywelyn i gysylltiad â Dafydd Llwyd eto, ryw dro, pan yrodd Dafydd ef i Ynys Enlli ar neges i geisio rhywbeth naill ai iddo ef ei hun neu ynteu i Ddafydd Llwyd (cerdd 16). Fodd bynnag, ei siomi a gafodd Llywelyn gan abad yr ynys a oedd yn Sais ac yn grintachlyd, ac ymddengys mai cast ar ran Dafydd oedd ei anfon yno.

Yn ei ymwneud â Dafydd Llwyd o Fathafarn buasai Llywelyn ap Gutun hefyd yn ymwneud â chylch llenyddol eang a phwysig. Fel y dywed Enid Roberts:

... yr oedd llys Mathafarn yn ganolfan bwysig, yn arbennig yn fan cyfarfod i feirdd y cyfnod. Yr oedd nythaid o feirdd yn y cylch hwn yn ail hanner y bymthegfed ganrif: Llawdden ... Ieuan Dyfi ... Huw Pennal; Syr Rhys person Llanbryn-mair a Charno ... Guto ap Siancyn y Glyn ... Hywel ac Ieuan Swrdwal ... Owain ap Llywelyn ab y Moel ... Byddai beirdd o ardaloedd eraill yn ymweld â Llanwrin: Deio ab Ieuan [Du] ... Lewis Glyn Cothi, Gruffudd ab Ieuan Hen ... Llywelyn ap Gutun ... Dafydd ap Hywel ab Ieuan Fychan, Hywel ap Dafydd Llwyd ab y gof, Owain Twna, Maredudd ap Rhys ... Gwerful Mechain ... Ac yn ben arnynt oll, fel rhyw Gamaliel mawr ... yr oedd yr hynafgwr o Fathafarn,

<sup>41</sup> At.iv.31-4.

Dafydd Llwyd.<sup>42</sup>

Cyfeiria Llywelyn ap Gutun yn ei waith at dri o'r rhain, sef Gwerful Mechain,<sup>43</sup> Owain ap Llywelyn ab y Moel<sup>44</sup> a Guto'r Glyn,<sup>45</sup> a diau ei fod yn adnabod llawer rhagor.

Yn ddiweddarach yn ei oes, rywbryd rhwng 1480 a 1490, gwrthdrawodd Llywelyn â gŵr arall o bwys, sef Rhisiart Cyffin, Deon Bangor, a'i gylch (cerddi 8–10). Daethai Llywelyn i'r ardal ar un o'i deithiau cymhortha a derbyn llythyr gan Risiart i'w ddwyn at Huw Lewys ym Môn. Disgwyliai Llywelyn y byddai'r llythyr yn rhoi caniatâd iddo i gardota ŵyn yn y Chwaen, ond pan ddatganodd Huw Lewys ei gynnwys, nid caniatâd oedd ynddo ond cyhuddiad fod Llywelyn wedi lladrata ŵyn, gyda gorchymyn i'w garcharu, onid ei grogi hefyd! Yn sgil hyn, ymddengys iddo dderbyn gwŷs gan Siryf Caernarfon a'i garcharu. Ni wyddys beth oedd sail cyhuddiad Rhisiart Cyffin. Awgryma Llywelyn mai cenfigen o du Cyffin oedd y gwir reswm oherwydd iddo (sef Llywelyn) ymddiddori mewn merch brydferth o Fôn o'r enw Alswn a oedd wedi mynd â bryd y Deon hefyd. Mewn cywydd sy'n ymateb i gerdd Llywelyn i Alswn a'r feirniadaeth ynddi ar Gyffin (cerdd 8), dywed Lewys Môn nad oedd y gŵr hwnnw wedi caru merch *Onn hen lyfr fal Antwn lwyd* (At.i.24). Gwyddys bod Rhisiart Cyffin yn hoff o dynnu coes a herio'r beirdd a ddeuai i'w lys, ond beth bynnag oedd ei gymhellion yn yr achos hwn, ymatebodd Llywelyn i'w gast â dau gywydd dychan (cerddi 9–10), a'r ail yn dychanu rhai o feirdd ei gylch hefyd, sef Rhys Pennardd, Hywel Rheinalt ac, yn bennaf, Lewys Môn.

Mewn cywydd arall (cerdd 15), gwelir bod Llywelyn wedi cweryla gyda'r canlyniad iddo orfod talu dirwy ym Merionnydd, ac aeth ar led Cymru yn hel ŵyn i'w gwerthu i dalu'r ddyled. Ni lwyddodd i gael dim cymorth gan wŷr Gwent, Morgannwg a Phowys, er siom a dicter iddo, ond bu gwŷr Gwynedd yn hael wrtho.

Yn olaf, mewn cywydd i ofyn am ddau bentan haearn gan ddau of (cerdd 2) dysgwn iddo drawsfeddiannu cais am y pentanau haearn a oedd eisoes wedi ei wneud gan ryw noddwr nas enwir.

Gellir hel ambell friwsionyn arall am symudiadau Llywelyn ap Gutun. Fel y dywedwyd, gofynnodd i ddau of am bentanau haearn (cerdd 2). Enwau'r gofaint oedd Dacyn a Gutun a thrigent yn rhywle yn nhueddau dwyreiniol canolbarth Powys. Canwyd y gerdd rywbryd wedi brwydr Banbri ym Mehefin 1469. Gofynnodd i Ifan ap Gruffudd ap Siancyn o Fechain Uwch Coed am eifr a bwch (cerdd 3), i ryw Gutun Siancyn am gi (cerdd 4) ac i Syr Siôn Mechain, person Llandrunio, am ddwy sbectol, y naill iddo ef a'r llall i

<sup>42</sup> Enid Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caernarfon, 1981), 13–14. Gw. hefyd GGM 4–16.

<sup>43</sup> Cerdd 12.

<sup>44</sup> Cerdd 5.

<sup>45</sup> Cerdd 11.

Owain ap Llywelyn ab y Moel (cerdd 5). Tystia ei ymryson afieithus â Guto'r Glyn (cerdd 11 ac At.ii) iddo wneud Guto yn gyff gwawd yn llys Huw Lewys o Brysaeddfed ym Môn ac iddo fwynhau nawdd y gŵr hwnnw a'i frawd yng nghyfraith, Cynfrig ap Dafydd ap Ithel o Lwydiarth yn Llannerch-y-medd. Ceir englyn ganddo yn moli person Llanarmon Mynydd Mawr am ei haelioni ac yn dychanu person Selatyn am ei grintachrwydd (cerdd 17).

Crybwylla hefyd rai digwyddiadau mwy personol eu naws. Y pwysicaf oedd marw ei fab (cerdd 1). Fe'i siomwyd pan na ddaeth cariadferch, a oedd, fe ymddengys, yn ymddiddori mwy mewn dyn arall, i gadw oed ag ef (cerdd 6); ac mewn cerdd, sydd un ai'n ffaith neu ddychymyg neu'n gymysgedd o'r ddau, gwelodd fab a merch yn caru yn yr awyr agored a disgrifiodd eu hystumiau (cerdd 7).

Dywedwyd digon am Lywelyn ap Gutun i ddangos bod cymhortha (hel cardod), ac nid canu'r delyn a datgan cerddi yn unig, yn rhan amlwg a phwysig o'i ffordd o fyw. Ymhlith y pethau a archai yr oedd anifeiliaid—wŷn, defaid, geifr a meirch,—bwyd, megis yd, rhyg a cheirch, ac arian (neu geiniogau). Crybwyllir llawer o fannau yng Nghymru a'r Gororau yn ei gerddi ac yng ngherddi beirdd eraill ynglŷn â'i deithiau cymhortha.<sup>46</sup> Dyma restr o'r lleoedd hyn yn nhrefn yr wyddor:<sup>47</sup>

Bangor, Berwyn, Bodeon, Caergybi, Caersŵs, Carno, Ceri, Caerddydd, Caerwedros, Cerrig[ydrudion], ?Cornwel, Corwen, Cowres, Croes Oswallt / Treoswallt, Cwchwillan, Dyfi, Enlli, Genau'r Glyn, Glan Dyfi, Gwent, Gwynedd, Hirnant, Llanarmon [Mynydd Mawr], Llandrunio, Llanddwyn, Llangynog, Llannerch-y-medd, Llanuwllyn, Llanwddyn, Llwydiarth, Llwyndafydd, Llŷn, Machynllaith, Maelor, Mall Draeth (Malltraeth), Mathafarn, Meifod, Meirionnydd, Mochnant, Môn, Morgannwg, Nanconwy, Pennant [Melangell], Powys, Selatyn, sir Gaer[narfon], swydd Ymhwythig, Trefawr, Tre'r-Garreg, Uwch Mechain, y Chwaen, y Dre-wen, y Rhos, yr Un Dre' ar Ddeg.

Ymestyn yr enwau hyn dros y rhan fwyaf o Gymru, ond nid oes yr un yn y de-orllewin a pherthyn y rhan fwyaf i ogledd a chanolbarth y wlad a rhannau cyfatebol y Mers. Oherwydd natur y gyfeiriadaeth, ni ellir honni'n bendant iddo fod yng Nghaergybi, Cornwel, Cwchwillan a Nanconwy.

Diddorol hefyd yw nodi'r posibilrwydd i Lywelyn ganlyn Guto'r Glyn ar deithiau porthmona. Ar ôl nodi'r prinder merched ym mywyd Llywelyn, dywed Gwerful Mechain:

Gynt yr oedd heb ganto'r un  
Ac eto fal y Gutun,  
Caru, ceisio crocyswr,

<sup>46</sup> Gw. At.ii-vi.

<sup>47</sup> Gw. y mynegai am leoliad yr enwau hyn yn y cerddi.

Defaid a gyriaid y gŵr ...<sup>48</sup>

Y mae'n bosibl mai tad Llywelyn oedd y Gutun hwn (er nad oes unrhyw dystiolaeth wedi goroesi i awgrymu ei fod yn porthmona defaid<sup>49</sup>), ond gall hefyd mai Guto'r Glyn a olygir: gwyddys ei fod wedi porthmona<sup>50</sup> ac efallai nad diarwyddocâd yw'r geiriau y gŵr o gofio am ei fri fel rhyfelwr cadarn ac fel meistyr y cywydd gŵr.<sup>51</sup> Os felly, diau y byddai gan Lywelyn sawl rheswm dros ddymuno ei ddilyn gan fod ganddo lawer yn gyffredin ag ef: yr oedd yn dod o'r un cwr o Gymru, yn cymhortha ac yn byw bywyd anturus, ac y mae'r ymryson enwog a fu rhyngddo a Guto (cerdd 11 ac At.ii) yn dyst i'w hadnabyddiaeth, os nad eu hoffter, o'i gilydd. At hyn, ceir rhai cyfeiriadau eraill gan Lywelyn at Guto'r Glyn.<sup>52</sup>

Wrth edrych ar yrfa Llywelyn ap Gutun, y mae'n drawiadol mor wahanol ydoedd i eiddo beirdd hysbys eraill y cyfnod yn gyffredinol. Y mae clwm o resymau yn cyfrif am hyn. Yn un peth, yr oedd yn arfer sawl dull gwahanol er mwyn ennill ei fywoliaeth, sef canu'r delyn, prydyddu a chymhortha, a hynny er gwaethaf y ffaith mai'r cyntaf oedd ei wir broffes. Yn ail, ar sail rhai o sylwadau Dafydd Llwyd o Fathafarn a Gwerful Mechain amdano, yr oedd â'i fryd i raddau mwy na'r cyffredin ar fywyd goludog a moethus. Yn olaf, yr oedd yn ŵr egnïol, eofn a checrus. Dyma gymeriad anghonfensiynol, lliwgar ac unigolyddol.

*Ei waith*

Y mae 18 cerdd wedi goroesi y gellir eu cyfrif yn waith dilys Llywelyn ap Gutun, sef 16 cywydd (cerddi 1–16) a dau englyn (cerddi 17–18), cyfanswm o 890 o linellau.

Gellir dosbarthu'r cerddi hyn yn ôl themâu fel a ganlyn:

Marwnad	un cywydd (cerdd 1).
Gofyn	pedwar cywydd (cerddi 2–5).
Serch	dau gywydd (cerddi 6–7). <sup>53</sup>
Dychan	pum cywydd (cerddi 8–10, 15–16).
Ymryson	pedwar cywydd (cerddi 11–14).
Eraill	englyn unodl union yn canmol person Llanarmon Mynydd Mawr ac yn dychanu person Selatyn (cerdd 17), ac englyn proest am deithio ar farch (cerdd 18).

<sup>48</sup> At.iv.35–8; cf. hefyd l. 8 *Fal Gutun o foly goetir*, llau. 67–8 *Caru fal y cwncwerwr / Cerdded â gyried y gŵr*.

<sup>49</sup> Gw. GGM 7.8n.

<sup>50</sup> Gw. GGI<sup>2</sup> xii–xiii, 84–92 (XXXI–XXXIII); GTP 40–1 (cerdd 24 = GGI<sup>2</sup> 87–9 (XXXII)). Yn LIU 388, ar y llaw arall, ni dderbynnir yr ymryson hwn yn dystiolaeth i Guto fod yn borthmona dywedir 'y tebyg yw bod hyn eto'n esiampl o'r hanesion dychymyngol a geir mewn dychan'.

<sup>51</sup> Gw. 11.42n.

<sup>52</sup> Gw. 3.48n, 15.17n, 52n.

<sup>53</sup> Gellid, er hynny, ystyried cerdd 8, hithau, yn gerdd serch.

Diymatal ac ingol yw ei farwnad i'w fab ac y mae hon yn un o nifer bychan ond arwyddocaol o gerddi a ganwyd gan feirdd ar achlysur trist marw eu plant.<sup>54</sup> Difyr ac amrywiol yw'r cerddi gofyn a cheir ynddynt ddyfalu medrus, megis yn y disgrifiad o bentanau haearn (cerdd 2) neu o gi (cerdd 4). Felly hefyd y cerddi serch. Cywydd maswedd yw un ohonynt (cerdd 7) yn disgrifio mab a merch yn caru mewn ystum anarferol a chymer ei le gyda nifer o gerddi eraill o'r un rhywogaeth sy'n portreadu profiadau a dyheadau rhywiol mewn dull ysgafn a chelfydd.<sup>55</sup> Cerddi dychan ac ymryson a geir amlaf gan Lywelyn. Egniol ac effeithiol ydynt yn ei ddwylo a cheir ynddynt ddefnydd cyson o goegni. Gwahanol, er hynny, yw ei ymryson â Guto'r Glyn lle y gwelir mwy o gyfeillgarwch nag o groestynnu. Trawiadol yw'r englyn i ddau glerigwr (cerdd 17) lle y molir ac y dychenir o fewn cwmpas byr, ac mewn englyn arall (cerdd 18) fe'n hatgoffeir mor anghysurus y gallai marchogaeth fod.

O ran crefft Llywelyn ap Gutun, ac yn benodol o safbwynt mydr a chynghanedd, amrywia hyd y rhan fwyaf o'r cywyddau o 56 i 72 o linellau ond y mae rhifau 4–7 a 16 yn sylweddol fyrrach (36, 48, 38, 40, 20 o linellau, yn eu trefn). Y mae'n bosibl, er hynny, mai dryll yw cerdd 16.

Y math mwyaf cyffredin o gynghanedd o lawer yng ngwaith Llywelyn ap Gutun yw'r gynghanedd groes, ac yna, mewn trefn ddisgynnol, y draws, y sain a'r llusg. Ymhlith y mathau llai cyffredin ar y rhain ceir ganddo enghreifftiau o'r groes o gyswllt,<sup>56</sup> croes wreiddgoll,<sup>57</sup> y groes gydag odl fewnol<sup>58</sup> a'r groes drychben;<sup>59</sup> y draws gyferbyn,<sup>60</sup> y draws fantach,<sup>61</sup> y draws gydag odl fewnol<sup>62</sup> a'r draws drychben;<sup>63</sup> y sain anghytwys ddisgynedig,<sup>64</sup> y sain drosgl,<sup>65</sup> y sain gadwynog,<sup>66</sup> y sain o gyswllt,<sup>67</sup> gan gynnwys un enghraifft o gyswllt ewinog,<sup>68</sup> y llusg ag odl yng gair cyntaf y llinell<sup>69</sup> a'r llusg wyrddo.<sup>70</sup>

Ceir cyfran sydd efallai'n uwch na'r cyffredin o *f*, *n*, *r* wreiddgoll<sup>71</sup> ac o *f*,

<sup>54</sup> Gw. GyB.

<sup>55</sup> Gw. CMOC<sup>2</sup>.

<sup>56</sup> E.e., 5.1, 6.1, 13.40.

<sup>57</sup> 10.48, 11.55 (gellid disgrifio'r ail hefyd fel enghraifft o *n* wreiddgoll a thwyll gynghanedd *d*).

<sup>58</sup> 1.53.

<sup>59</sup> E.e., 3.21, 6.5.

<sup>60</sup> E.e., 2.63, 3.54, 11.1.

<sup>61</sup> E.e., 9.48, 14.26.

<sup>62</sup> E.e., 13.24, 16.10.

<sup>63</sup> 3.56, 9.44.

<sup>64</sup> E.e., 2.13, 11.7.

<sup>65</sup> 7.13, 9.5.

<sup>66</sup> E.e., 4.13, 8.62.

<sup>67</sup> E.e., 6.8, 14.42.

<sup>68</sup> 7.4.

<sup>69</sup> 11.5, 15.43.

<sup>70</sup> 1.54, 15.37.

<sup>71</sup> E.e., *f*: 1.56, 3.58; *n*: e.e., 6.13, 13.34; *r*: e.e., 7.29, 9.59.

*m*, *n*, *r* ganolgoll<sup>72</sup> a pherfeddgoll.<sup>73</sup> Amlach yw'r llythrennau canolgoll, yn enwedig *n*, na'r rhai gwreiddgoll a cheir mwy o enghreifftiau o *n* nag o *f*, *m*, *r* berfeddgoll.

Ceir hefyd rai nodweddion llai 'rheolaidd', e.e.:<sup>74</sup>

Camosodiad *nm* = *mn*

(Ni'm torwn) | gymaint arall (8.52)

Cyfatebiaeth *n* = *m*

Unben | fal cyw yn ymbil (14.40)<sup>75</sup>

Crych a llyfn

Mae i'm bryd, | mi a'm brawd *da* (3.45)

Proest i'r odl

Llanwyddyn, | lle ni wyddwn (3.15)

Twyll caled a meddal, e.e.

Gwedy pwyo | coed Powys (2.26)

Twyll gynghanedd *dd*

Draed arth, | nad oedd raid wrthyn' (2.22)

Un gynghanedd wallus yn unig y sylwyd arni

Person | Llanarmon, | llawn ŷn'—daioni (17.1)

Y mae Llywelyn ap Gutun yn fardd a wyddai sut i gynganeddu. Fodd bynnag, y mae ynddo duedd, pan ddefnyddia gynghanedd ac iddi ryw nodwedd lai cyffredin na'r arfer, i ailadrodd hynny yn fuan wedyn neu, o leiaf, o fewn yr un gerdd. O'r pum enghraifft o'r draws fantach, digwydd tair o fewn yr un gerdd (13.21, 39, 62). O bedair enghraifft o draws ac ynddi odl fewnol, ceir tair o fewn yr un gerdd (13.24, 34, 66).<sup>76</sup> Yng ngherdd 12 ceir dwy sain o gyswllt y naill yn dilyn y llall (12.20, 21). Yng ngherdd 1 ceir traws a chroes ac ynddynt odl fewnol (1.23, 53).

Gwelir yr un duedd yn gliriach yn y defnydd o lythrennau gwreiddgoll, canolgoll a pherfeddgoll. Yng ngherddi 6 a 7 ceir dwy *n* wreiddgoll y naill ar ôl y llall (6.13, 14; 7.20, 21), ac yng ngherdd 13 dwy *f* ganolgoll (13.57, 58). Yng ngherdd 2 y mae dwy o'r enghreifftiau o *n* ganolgoll yn dilyn y naill y llall gyda thrydedd enghraifft ar ôl bwlch o un llinell (2.54, 55, 57),

<sup>72</sup> E.e., *f*: 2.25, 3.26; *m*: 1.15, 8.24; *n*: 7.10, 15.2; *r*: 8.38, 12.4.

<sup>73</sup> *f*: 6.5, 7.38, 8.48; *m*: 10.47; *n*: e.e., 15.6, 16.16; *r*: e.e., 3.8, 15.20.

<sup>74</sup> Ar y gynghanedd yn 13.66, gw. y nodyn.

<sup>75</sup> Gellid hefyd ddisgrifio'r ll. fel enghraifft o *m* berfeddgoll dan yr acen (cf. 6.5 lle y ceir *f*berfeddgoll dan yr acen).

<sup>76</sup> Y mae 13.66 hefyd yn draws wreiddgoll.

ac yng ngherdd 5 y mae dwy o'r enghreifftiau yn dilyn y naill y llall (5.24, 25).

Dichon mai'r un duedd sy'n cyfrif am y ffaith fod trwch yr enghreifftiau o wrthdaro rhwng gorffwysfa a chystrawen i'w gael mewn dwy gerdd (13.44, 58, 62, 72; 15.38, 39, 42, 48, 62).

Er nad oes dim yn anghywir yn y 'clystyru' hwn, eto gellid ei gymryd yn arwydd o esgeulustod a diffyg cywreinrwydd ar ran Llywelyn ap Gutun. Hawdd, wrth gwrs, fyddai priodoli hynny i'r ffaith nad prydyddu oedd ei wir alwedigaeth yn gymaint â chanu'r delyn.

\*\*\*\*\*

Yr oedd Llywelyn ap Gutun yn fardd dawnus, difyr ac amrywiol ei gynnyrch. Tebyg mai ei ddawn bennaf oedd ei ddychymyg rhyfeddol, megis pan ddisgrifia afr neu gi, neu Guto'r Glyn yn gorwedd dan y tonnau wedi boddi (cerddi 3, 4, 11). Efallai nad cystal ei grefft â'i ddychymyg, a cheir llawer o linellau anodd eu dehongli ganddo, ond, megis amryw o feirdd eraill a ganai ar eu bwyd eu hunain, ychwanegodd liw a diddordeb at gerdd dafod swyddogol ei ddydd ac nid yn fuan yr anghofir y bersonoliaeth ymwithgar a chyffrous.

### *Awduraeth*

#### *Dafydd o ddyffryn Dyfi* (cerdd 16)

Ceir y cywydd hwn mewn wyth llawysgrif ac ar du mewn clawr *Y Gymraeg yn ei Disgleirdeb*, T. Jones ([Llundain], 1688). Mewn dau destun, ond â'r ddau yn yr un llawysgrif ac yn debyg i'w gilydd, fe'i priodolir i Lywelyn Dafydd Llwyd, mewn un i Ddafydd ap Gwilym, mewn un i 'Ddafydd' ac mewn un i Lywelyn ap Gutun. Ni wyddys am fardd o'r enw Llywelyn Dafydd Llwyd ond ynglŷn â'r gerdd hon. Yn wyneb cysylltiad Llywelyn ap Gutun hefyd â hi a'r cyfeiriad ynddi at Ddafydd Llwyd o Fathafarn, efallai mai eu henwau hwy yw sail yr enw hwn a'i fod yn ffrwyth trin dau enw gwahanol ar gam fel un. Ynglŷn â'r priodoliad i Ddafydd ap Gwilym, fel y dywed Thomas Parry, 'Yr unig reswm, gellid meddwl, dros roi hwn i DG yw ei fod ymysg ei gerddi yn C 64 [sef Card 4.156] ... Tebyg mai'r enw Dafydd yn llin. 1 a gamarweiniodd rywun.'<sup>77</sup> Yn y trydydd priodoliad, nid yw 'Dafydd' yn ddigon o enw inni wybod pwy a olygir ond efallai mai ei unig darddiad yw'r enw yn llinell gyntaf y gerdd. Yn ôl yr olnod sy'n rhoi'r gerdd i Lywelyn ap Gutun, Moses Williams oedd awdur y priodoliad, a dichon fod hyn yn gywir. Yn wyneb holl ymwneud Llywelyn â Dafydd Llwyd, ni welir dim rheswm digonol dros wrthod tystiolaeth Moses Williams.

<sup>77</sup> GDG clxxiv.



*Gwn gur er gwen ei goroen*

Ceir y cywydd hwn mewn chwe llawysgrif a'i briodoli mewn un i Lywelyn ap Gutun, ond fel y dangosir yn GLI 19, gwaith Llawdden ydyw.



## 1

*Marwnad Gruffudd ap Llywelyn ap Gutun*

- Duw'n afrwydd ar y flwyddyn,  
 Mor galed fu'r dynged ynn:  
 Diwynodd doe o anab  
 4 Duw fi 'n fy myw, dwyn fy mab.
- Rhannu bu a rhoi 'n y byd  
 Dwys haf a dewis hefyd.  
 Doe y rhôl ym wedy'r haf  
 8 O lawer y rhan leiaf.  
 Ni fynwn yn hwy f' einioes  
 No'r dydd i Ruffudd a roes.  
 Marwgoel hwn fu'r mawr gulhau,  
 12 Marfolaeth, mae ar f'aeliau.  
 Och finnau uwch y faenol  
 Na fynnai 'Nuw finnau'n ôl!  
 Oedd oerach ym a dderyw  
 16 Am nas gwelwyf tra fwyf fyw!  
 Ôl ei droed a wela' draw  
 A'i nodau lle bu'n neidiaw,  
 'Y ngharwr i'm cyngori  
 20 Draw wrth ymadaw â mi  
 Na thynnwn annoethineb  
 Ac na wnawn gynnen â neb.
- Och Wyrf Fair (gan na chair 'fo  
 24 Ennyd awr yna i dario)  
 Oni elwn, f'anwylyd,  
 I'r nef, mi ac ef i gyd!  
 Dynion ieuainc a dynnir,  
 28 Dyn hen a edy Duw'n hir.  
 Nid hwyrach croen oen unawr  
 No'r ddafad i'r farchnad fawr.  
 Iesu hefyd, ni safan'  
 32 Un gŵr gwych mwy no gwraig wan.  
 Dolur ni ad ond wylo  
 O'i flaen fyth a'i flino 'fo;

- 36 Dialedd oedd od wylwn,  
Y Gŵr a'i gwnaeth aeth â hwn.  
Och na roes, heb gydoesi,  
Gred ar ymweled â mi
- 40 I edrych 'n y drych heb drai,  
F'annwyl, oedd dim a fynnai!  
Aeth yn ofer am geraint  
Addewais i ddoe i saint.
- 44 Troes y dilyw tros dwyloer  
Am Ruffudd ym ddeurudd oer.  
Nid âi hwn, un naid â hydd,  
I chwarae heb ei chwiorydd.
- 48 O rhôl Dduw ym y rhyw ddyn,  
E ddôl elor i'w ddilyn.  
Duw hael, rhyfedd o helynt,  
Gydag Ef nas gadai gynt.
- 52 Meddylio am ei ddeiliad  
A wna dyn yn hŷn no'i dad.
- Pob enaid, o'm direidi,  
A fyn Duw ond f'enaid i.  
Boed yfory, bid fyrroes,  
Fo Dydd Farn a diwedd f'oes.
- 56 Onid hir y mae'n tariaw?  
Anffawd i Ddyddbrawd na ddaw!

*Ffynonellau*

A—Bangor 703, 45 B—BL Add 12230 [= RWM 52], 119 C—BL Add 14971 [= RWM 21], 45<sup>v</sup> D—BL Add 31071, 24<sup>r</sup> E—Card 2.68 [= RWM 19], 89 F—Card 3.37 [= RWM 20], 117 G—Card 4.101 [= RWM 83], 141 H—Card 5.10i [= RWM 48], 103 I—CM 10, 81 J—CM 129, 101 K—CM 244, 140<sup>v</sup> L—JGD 2, 234 M—LIGC 644B, 18 N—LIGC 3056D [= Mos 160], 267 O—LIGC 5474A [= Aberdâr 1], 667 P—LIGC 10748D, 39 Q—LIGC Mân Adnau 1206B [= Tanybwlch 1], 295 R—Llst 124, 198 S—Llst 133, 372 T—Llst 156, 81 U<sup>1</sup> Llst 166, 5 U<sup>2</sup> Llst 166, 52 V—Pen 77, 198 W—Pen 198, 54 X—Pen 239, 221.

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 157–63.

*Amrywiadau*

1 *L* Mae aflwydd, *V* dŵ mor afrwydd; *V* ar vlwyddyn. 2 *AEFIJOQRS U<sup>1</sup>U<sup>2</sup>W* ywr; *B* vnn, *PX* ym. 3 *Q* do. 4 *V* ddŵ; *AGU<sup>1</sup>U<sup>2</sup>* Duw yn fy myw, *BEIJOPQSWX* duw fi im oes, *M* do fi yn fy myw; *V* ddwyn. 5 *S* Rhannu a

rhoi'n y byd; *FHLMQRW* rhannv y bv,  $U^1U^2$  Rhanu i bydd;  $U^2$  rhai n. 6 *J* hÿf. 7 ; *A* Doe rhoed, *GJM* doe rhoe; *F* a rhoed,  $RU^1$  y rhoed, *X* ir hoy; *L* rhoe wedi yr haf, *P* wedi haf;  $OU^2$  ynn. 8 *L* a dwyn heddiw y dyn houwaf. 11 *L* marw gaul hwn mawr gul-hau; *EGI* fv,  $U^1U^2$  iw r. 12  $U^1U^2$  marfolaeth mawr, *AFR* marwolaeth mawr; *A* ar aeliau, *FR* ar failiav. 13 *PX* och finef, *R* och fynav. 14 *FM* fynne fy nvw finne yn i ol;  $ABORSU^1U^2$  finneu'n ei ol, (*I*) fi'n ei ol, *QW* fi yn i ôl. 15 *L* dau oerach wyf nar du=rew; *BQW* ym a ddiryw, *EI* ym y dderyw, *G* ym y ddevryw, (*I*) ym y ddarf, *J* im ô ddiryw, *M* yma dderyw, *PX* am y dderyw, *T* yna a dderyw,  $U^1$  im a ddeuryw,  $U^2$  ym a ddeiwyl. 16 *BOQSW* bwyf byw, *G* fwy fyw, *J* fwy byw, *L* fwy few. 17 *L* wyla yn drwm pan welwy draw;  $AFGKRU^1U^2V$  draed; *A* welwn (*cywiriad*: welai),  $BCDFGL-ORSU^1U^2$  welwn, *HTK* welwy', *I* welai, *V* welaf. 18 *L* y, *ABEJOPSX* ar, *Q* [ ]node; (*I*) nod, *W* nod, *H* nôd ai lle. 19 *V* bû ngharwr; *L* yngharwr au im. 20 *BEJOPQSWX* oedd draw, *L* ond brow; *EI* yn. 21  $U^1$  anaithineb. 22 *L* gyni noeth gynen. 23 *AFR* wyrff fair na chair y fo, *BEIPWX* wir fair na cheir y fo, *CDHKLT* wir vair am na chair vo, *GOS* wir fair na chair y fo, *J* wir fair ni chair y fô, *M* wir fair on i chair fo, *Q* Ath wir fair na cheir y fo,  $U^1$  wyrff fair na cheir y fo,  $U^2$  wyrff fair na cheir fo. 24 *L* amod, *S* Enaid; *S* aur;  $CDHKNTU^1U^2$  na wnai dario, *FL* yma i dario, *G* a wnai dario,  $MPQU^1U^2X$  yno i dario, *S* yna i daro, *V* na chae dario. 25  $AFRU^1$  elom,  $U^2$  Elem; *J* elwn anwylyd. 26 *J* I nêf;  $U^1U^2$  ni ag ef. 27 *H* Ifangc. 28 *F* hen aydy duw. 29 *E* hwyr;  $LU^1$  groen. 30 *J* na dafad,  $U^2$  nar dafad; *EPX* ddafad yn y farchnad, *W* ddafad i farchnad. 31  $AFGRU^1U^2$  ni safian, *W* i safan. 32 *EIX* na gwr gwann, *P* nar gwr gwan. 33  $AFRU^1U^2$  a dolvr;  $AU^1U^2$  ni wnae,  $CDFGHKMNRTV$  ni wna, *V* ni wna, *L* ni fedra. 34 *L* dyna fai am dano fo; *A-KM-U-W* o flaen fais, *X* o flaein fais;  $AFPRU^1U^2X$  oi, *BGQW* ai, *EI* yw; *H* no flino. 35 *BGJOQSV* a dialedd, *D* dialodd oedd od, *W* dialedd onid. 36 *M* ef ai gwnaeth aeth a hwn. 37 *G* ar gyd oesi, *I* wrth gyd oesi, *LV* i gydoesi. 38 *L* a gado y mab gida mi; *ABEFGMNPRX* i gred ar ymweled, *DQW* i gred i ymweled,  $SU^1U^2$  Ei gred er ymweled, *HK* i gred im weled, *CIT* i gred imweled, *J* Ei gred ymweled, *O* Ei Gred er 'Mweled. 39 *L* im sirio ar amseref; *BEIJN-QSWX* edrych y drych, *G* edrych mewn drych, *V* edrych yw drych. 40 *L* duw fwyn kyn fy nwyn ir nef; *BEJN-QSWX* fenaidd; 41  $AFGMRU^1U^2$  yw geraint, *L* fyngheraint. 42 *PX* Addewais ddoe; *HQ* ei saint. 43 *BEIN-QSWX* troes dialedd, *CDHKLT* Troes ddiliw, *FGMR* troes diliw, *J* Troes y dialedd, *V* troes y dilif; *CDHKLT* tros y ddwyloer, *G* ai tros dwyloer. 44 *M* am ddevrudd, (*I*)*QW* ir ddeurydd,  $U^1$  yn ddeurydd. 45 *P* Nid a. 46 *HK* a; *IOSV* heb chwirydd. 47 *AF* vm rvw ddyn,  $GU^1U^2$  i mi rhwv ddyn, *R* ym rhwv ddyn. 48 *FMR* fo, *H* fe;  $U^2$  Elawc; *L* oi,  $U^2$  yw. 49 *A* O Dduw hael rhyfedd yw'r hynt, (*A*) O Dduw hael rhyfedd helynt, *FR* o dduw hael ryfedd ywr helynt, *G* o ddvw hael rhyfedd fv r helynt,  $U^1U^2$  O Dduw r hedd rhyfedd iw r hynt; *BEIJNSW* rhyfeddod helynt; *CDHKMT* ryvedd yw'r helynt, *L* rhyfedd iw helynt, *PX* rhyfeddol helynt, *Q* rhyfeddodod helynt. 50

*BENPQRU<sup>1</sup>U<sup>2</sup>WX* gidag e nas gade gynt, *F* gida agef nas gadeŷ gynt, *G* gida ag ef nas gadai gynt, *J* Gyd ag ê nas gade gynt, *L* gidag ef nas gadwef gynt, *M* gidag e nas gadav gynt; *I* nis gadai gynt. 51 *H* meddylian, *MP* Myddyliav; *L* ddeilad, *CJ* ddeiliaid. 52 *EIOPQSWX* wnai, *J* daid. 53 *BEIJNOQSW* ond, *HK* am; *M* oi ddyreidi, *PX* ont tirayd ti, *U<sup>1</sup>U<sup>2</sup>* om diraid i. 55 *OS* Poed, *QW* Bôd; *J* feroês. 56 *AJU<sup>1</sup>U<sup>2</sup>* dydd y farn; *L* dydd y farn diwedd; *G* fo diwedd, *HKT* bei diwedd. 57 *E* i mae fo n, *V* y rwy'n. 58 *Q* ei ddydd=brawd na dd[ ]; *G* ddyddbrawd naw; *L* a ddaw.

### *Teitl*

*AJ* Cywydd marwnad Llywelyn ap Gutyn i'w fab, *BF* kowydd marwnad a wnaeth llwyn ab gvtvn iw fab, *D* MARWNAD YW VAB, *EI* marwnad a wnaeth gwr yw fab pan fy farw, *G* marwnad o waith lln ap gvtvn yw fab, *HK* Marwnad Griffith Llewelyn ap Guttyn a wnaeth i Dad, *L* Kow: Marwnad i vn = mab y Prydydd, *O* Marwnad Gruffydd ab Llywelyn ab y Guttyn A gant ei Dad iddo, *PX* Cowydd marwnad ir mab o waith Llen ap Gyttyn, *Q* Marwnad ei fâb Llewelyn ab Gyttyn, *R* Cyw: mar: mab y bardd, *S* Marwnad Mab Llywelyn ab Guttyn, *T* Marwnad Gruffydd ap llen ap gvtto, *U<sup>1</sup>* Cowydd Marwnad a wnaeth Llywelyn ab Gittyn iw fab Griffidd, *U<sup>2</sup>* Cywydd marw a wnaeth Llywelyn ab Gyttyn iw fab Gryffydd, *W* Cowydd Marwnad i fab Llewelyn ab Gyttyn.

### *Olnod*

*ADGHJV* Lln ap Gûttn, *BIFKLMNRSU<sup>1</sup>W* llen ap gyttyn ai kant, *C* Llewelyn ap gytto ai kant barnad iw fab, *E* Llywelyn ap guttyn ai kant iw fab a fase farw, *O* Llywelyn ab y Guttyn, *Q* Llewelyn ab Gyty[ ] 'flourished 1480' (*gyda* flourished 1480 *mewn llaw wahanol*), *T* Llywelyn ap gvtto ai K, *U<sup>2</sup>* Llywelyn ab Gyttyn ai Canodd.

### *Trefn y llinellau*

*A-DFGHKMOQ-W* 1-58.

*EIPX* 1-14, 16, 15, 17-58.

*J* 1-56, 58, 57.

*L* 1-22, *i*, 23-58.

*N* [1-36], 37-58.

### *i*

Ofna dduw byw ai bwys  
 Ai arogle dos ir eglwys  
 Dod ran i rhai gwana  
 Yn hyfryd oth olud ath dda  
 Llawer o gyngor llawen  
 Oeres byd a roes oi ben.

*I ofyn dau bentan haearn gan Ddacyn a Gutun*

- Y meibion yn eu mebyd  
 A droes budd i deiroes byd,  
 Anturiaeth a wnaent erof  
 4      Betai gant, o'r beutu, gof,  
       Ac i Dduw y gweddïon',  
       Y ddau sydd o'r ddwyoes hon.
- Dacyn wych, deucanwayw onn  
 8      Ar unwaith ar ei einion,  
       Pob dyn gofyn o'i gyfair  
       Ben i'w ffon erbyn y ffair.  
       Un arall a wnâi erof  
 12     Dwybil aur, ail Dubal of:  
       Gutun er un o'r ynys  
       A dorrai groen dewr a'i grys;  
       Gwaith ei dân o Fro Danad  
 16     Yn briwo cŵn Banbri cad.  
       Fy chwedlau yn siamplau sydd,  
       Trais golau, tros ei gilydd:  
       E bwyntiodd am ddau bentan  
 20     Lelo Brydydd gywydd gwan.  
       'Ni wyddiad, ddafad o ddyn,  
       Draed arth, nad oedd raid wrthyn'?  
       Eb yn ei fwth, 'Ni bu'n fau',  
 24     Nyth chwain, 'na tân na chynnau',  
       A dyn gwych wyf a dynn gŵys  
       Gwedy pwyo coed Powys.
- Cerdd ddirist, cerydd oedran,  
 28     Crimog frith, du chwith, wrth dân,  
       I'r ddau of yr wy'n gofyn  
       Dwy 'sgyfarn, haearn yw hyn.  
       Pon'd da i enaid pentanau?  
 32     O'r purdan ni ddeuan' ddau.  
       Hyddod dan Feifod fwyfwy,  
       Hëyrn yw eu hesgyrn hwy.  
       Cymydogaeath a wnaethan':

36 Cynnal tai mewn canol tân.  
 Eu dwy big a debygwn,  
 Hyddod yn canfod y cŵn.  
 Meirw yw'r cyrff, marwor o'r cyd,  
 40 A chryfach no cheirw hefyd.  
 Cynnal a wnân' ddau cannawr,  
 Esgyrn meirch, ysgyrion mawr.

Dau ysbryd ddiwyd a ddaw,  
 44 Dau ellyll wedy'i dwyllaw,  
 Dau gymar o'r ddaear ddu,  
 Dau gimwch wedy'i gamu,  
 Dwy ŵyll hen o'm deall i,  
 48 Diwedd f'ergyd, dau ddyfrgi,  
 Deugyw sarff dwy gŵys o hyd,  
 Dwy fulfran diofalfryd,  
 Dioer angen, dau ringyll,  
 52 Drwy'n tir hwnt dau draenter hyll,  
 Deugyw irgoed, dau gyrgam,  
 Dau Siôn Sirc nid âi Sain Siâm.  
 Dau yw'r rhain nid ân' o'r rhwyd,  
 56 Gethr eulun ar gwthr aelwyd,  
 Wedy'u rhwymo'n un dremynt  
 O Ffirir Bacwn yn gŵn gynt.

Och am was, o chymhwysa',  
 60 I ddwyn cof i'r ddeuof dda!  
 Am roi'n grib ar bob gwiber  
 Modrwy bach ym i droi bêr,  
 Gyrraf lle 'r wy'n anguriol  
 64 Yn un hynt yno 'n eu hôl,  
 A Duw a roddo dwyoes  
 I'r meibion rhwyddion a'u rhoes!

### *Ffynonellau*

A—BL Add 14967 [= RWM 23], 234 B—Pen 77, 361

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 157–63.

### *Amrywiadau*

4 *A* ir bati go, *B* ir batig of. 5 *B* gweddiwn. 6 *B* ir ddaû sy ar ddwyoes hwnn.  
 8 *A* ar vnnaith. 9 *A* yw gyvair. 10 *B* oi ffonn. 11 *A* yrro. 12 *A* Ai dwibil aur  
 dubal o. 14 *B* dyn oi grys. 15 *B* ymro danad. 16 *A* banbri i kad. 21 *B* ddafod.



23 *A* neb yni vw. 25 *B* dyn gwych wy a dyn y gwys. 26 *A* kwedi; *B* nodi pwy enaid powys. 28 *A* brith. 29 *A* Ar ddav of rwy ni govyn. 31 *A* pan ta, *B* pont da. 32 *B* nid an yn dav. 39 *A* meirwyr kyrff marwar ai kyd. 49 *B* dwygoes. 53 *B* deûgi; *B* wŷr gam. 54 *A* Iohn. 55 *A* nida or hwyd, *B* nid an ir hwyd. 57 *B* vn rhemynt. 59 *A* ochymwsa. 60 *B* ir ddaû of caf. 61 *B* am y grib. 63 *B* rwyf yn garol. 64 *B* mewn hynt ym yn i hol.

### *Teitl*

*B* Cywydd y pentane.

### *Olnod*

*AB* lln ap gvttyr Ai kant.

### *Trefn y llinellau*

*A* 1–36, [37–8], 39–42, [43–4], 45–66.

*B* 1–48, 50, 49, 51–66.

*I ofyn geifr a bwch gan Ifan ap Gruffudd ap Siancyn  
o Fechain Uwch Coed*

- 4                   Troi y bûm ar anturio byd,  
Tro, mawr sôn, trwy'r Mars ennyd;  
Trais dolur, troes a'i dily  
(Troed pob didro) i'w fro fry.
- 8                   Myned i geisio mw nai  
O yta'r Mars i'r tir mai  
Â chwyn am dda ychwaneg  
Ywch o'r un tir, Mochnant deg.  
Nid oes estron ohonun',  
Neges maith, nac oes ym un;  
Dynion, i gael dwy einioes,  
12                  Haelach na dewrach nid oes.  
Y mae rhan ym o rhennir,  
Mae ym ddwyran dwyran dir.  
Llanwddyn, lle ni wyddwn,  
16                  Llawer rhodd yn y llawr hwn.  
Oddi yno ni ddôl anael  
O Bennant i Hirnant hael.  
Llyna fan llawen a fydd,  
20                  Llangynog, llwyn y gwinwydd.  
Pawb ei lwdn o'm pobl wiwdeg  
A roent hwy, llyna rent deg!
- 24                  Os Ifan wych a safai'n nes  
I fynegi fy neges,  
Fab Gruffudd, am gywydd gwyn,  
Bowys uncarw, fab Siancyn,  
'Fo rydd pob un yn unawr,  
28                  Geden lygad felen fawr.  
O chaem ych yn Uwch Mechain,  
Bwch er rhodd i bechu'r rhain,  
Ifan uwchlaw enw a chlod  
32                  A rydd hwnnw, rodd hynod.

- Llu teg fydd is gweunydd gynt,  
 Nid âi'r angel lle y dringynt,  
 Taranllais, trwynau unlliw,  
 36 Teirs o Ffrainc hyd dros eu ffriw.  
 Rhyfeddod, feddwod ei fin,  
 A wnaeth diawl, noethi deulin.  
 Olynol y dilynant  
 40 Edrywedd, nadredd y nant.  
 Mae pyrsau, bronnau breiniawl,  
 Ym mreichiau tin merched diawl;  
 Er hynny, fal yr honnyn',  
 44 Ni bydd gwaeth llaeth no llyn.

- Mae i'm bryd, mi a'm brawd da,  
 Dan amod o dôn' yma,  
 Dryllio mynydd, gwŷdd a gwern,  
 48 Tu miliast, eto 'm Melwern,  
 A phlau'r imp a phluo'r onn,  
 A philio coed a pholion.  
 Beth a dâl, diofal daith,  
 52 Roi geifr i wŕ o gyfraith  
 Oni roent wraig ar un tro,  
 Gidris, a fedrai'u godro?  
 O chawn hyn (mae f'achwyn hir  
 56 Uwch rhaeandr a'ch rhandir),  
 Ni cheisiaf, tra fyddaf fyw,  
 Fwch geifr ywch o'i gyfryw.

### *Ffynonellau*

A—Card 2.114 [= RWM 7], 438 B—J 139 [= RWM 14], 335 C—Llst 54,  
 202 D—Llst 120, 111

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 157–63.

### *Amrywiadau*

1 *B* Troi büm ag antiriaw. 2 *B* trwy mars. 3 *B* a. 4 *B* ir. 7 *AB* achwyn. 10 *AB*  
 na goes. 12 *B* nai dewrach. 15 *AB* llan noddyn; *A* lle ym awyddwn. 16 *A* [y].  
 20 *A* llan gyngfan (*cywiriad*: llan Gynog); *A* llwyn gwinwydd. 22 *A* roen  
 twy. 23 *A* a fai n nes, *B* a safai nes. 27 *C* Fo a rydd. 28 *CD* giden. 29 *AB*  
 chaym vch. 30 *A* bwch rrodd; *AB* bechv arrain. 31 *A* enw achlod, *B* enw ach  
 lod. 33 *CD* gwennydd. 34 *C* lle r dringynt; *B* [y]. 36 *AC* [o]. 37 *CD*  
 feddrdod. 40 *A–D* i drowedd. 41 *C* Y mae. 43 *C* sel. 44 *B* gwaeth i llaeth. 45  
*AB* mymbrav da, *CD* mymbrawda. 46 *C* yn dôn. 48 *ACD* to; *AB* miliaisd. 49  
*B* ffläu i rimp. 53 *A* wrwaig. 56 *A* rayandr ach randir, *B* rayandr ich randir.

58 *B* fywch; *A* yw.

*Teitl*

*AB* llyma gowydd i ofvn geifr a bwch, *D* I'r geifr o gywydd arall.

*Olnod*

*AB* lli ap gyttvn ai kant, *CD* Llewelyn ap Guttyn.

*Trefn y llinellau*

*AB* 1–58.

*CD* [1–26], 27–8, [29–32], 33–50, [51–8].

*I ofyn ci gan Gutun Siancyn*

- Mewn lleuad mae un llawen  
 Â chi, a baich uwch ei ben;  
 Y Gutun Siancyn, os iach,  
 4 Ynn yw'r ail yn wrolach.  
 Gŵr yw a'i gi ar ei ôl,  
 Gŵr syw wrth y groesheol.  
 O rhydd y dyn â'i wraidd da  
 8 Ei gi, Gutun, gogwta,  
 Ni chŵyn fo yn ei chwain fwrn  
 Drwy'i gwsg ei daro ag asgwrn.
- Chwyrnu a chochi'i harnais,  
 12 Chwynnu bydd y chwain o'i bais.  
 Ni adai, fo udai'n faith,  
 Y domen i'w gydymaith.  
 C'nefinach y cnôï fanwydd  
 16 Â chern hwch nog â chroen hydd.  
 Llyfai ym mhob lle afiach  
 A lle llyfai 'fo wnâ'n iach.  
 Yn iacháu o grwyn a chig,  
 20 Nes fydd no Thomas feddig!  
 Lladd a wna, onis lludd nos,  
 Ednogyn o dôi'n agos.  
 Ewin y gath yn y gell  
 24 A wnâi gŵyn yn ei gonell.  
 O bai sawr (ni'm tawr) mewn tŷ,  
 Ar hwn y bwrir hynny.  
 Gorwedd a wna'r pry' gerwin  
 28 Draw yn dorch a'i drwyn i'w din.  
 O'i din o dôi ei enaid,  
 O'i drwyn yr â draw 'n ei raid.
- O rhydd ym y gŵr rhwyddwaed  
 32 Ylfin rhwth i lyfu 'nhraed,  
 Ys da feddig perfigedd,  
 Ys gwae fi nad mi a'i medd!

Os rhydd, yn amser rhoddi  
Ys hwy fydd cywydd y ci!

### *Ffynonellau*

A—Bangor 703, 42 B—Bangor (Mos) 9, 82<sup>r</sup> C—BL Add 14873 [= RWM 55], 63<sup>v</sup> D—BL Add 14969, 572 E—BL Add 31071, 33<sup>r</sup> F—Card 2.114 [= RWM 7], 281 G—CM 27, 162 H—J 139 [= RWM 14], 278 I—LIGC 3057D [= Mos 161], 201 J—Llst 53, 433 K—Llst 123, 340 L—Llst 166, 66 M—Pen 112, 176

Y mae rhai darlenniadau yn llawysgrif D yn aneglur oherwydd traul. Ni nodir y rhain oni bai bod rheswm i gredu y byddai'r darlenniadau hynny, petaent yn gyflawn, yn wahanol i'r testun golygedig uchod. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 157–63.

### *Amrywiadau*

1 *EJK* yn. 4 (*A*) I'n yw'r, *HK* vn ywr. 7 *CDEIK* e rydd, *FHM* fo rydd; *J* e rydd y dyn o. 8 *H* gi i gyttün, *IK* gyttyn i gi; *FM* i gi i gvttvn. 9 *J* chwynai fo mewn chwain; *L* fo n ymchweinia fwrn. 10 *AGHJL* drwy gŵsg. 11 *AGJL* chochi harnais. 12 *BCDFGIKM* chwnny i bydd; *L* o; *J* bai. 13 *E* fo yw dai'n; *H* vdo yn. 15 *J* kynefinach knoi. 16 *I* chernay; *AGL* chernav hŵch na chroen, *K* cherne hwgh no chroen; *J* na choryn hydd; *E* [hydd]. 17 *I* (*K*) llyvai ym pob. 18 *ABGHIKL* [*A*]; *ABGL* lle llyfai awnai yn, *H* lle llyfai ef a wnai yn, *IK* lle i llyvai vo a wnai yn, *J* ar lle llyfai e wnai n; *F* fo nai yn. 19 *AM* In; *A* hiachau; *ACEGL* groen, *D* gro [ ]chig. 20 *AGL* nag Einws, *C* na Einws, *E* nag einioes. 21 *AGJL* wnai. 22 *BJ* daw n. 24 *ABCGIJK* wna; *AC* Gŵyn, *DEFHIKL* gwyn, *J* gwvn; *H* gwyn gonell. 25 *AGJL* bydd; *BEGHL* min tawr, *J* im tawr; *FK* (*gellir darllen* min tawr *neu* nim tawr). 26 *C–FHM* hwnw; *J* hwm i hairir; *IK* ir heirir. 27 *B* wna pry. 28 *CL* a; *BL* drwyn yn i din, *D* drwyn yw [ ]; *IK* oi din. 29 *K* od â; *H* i doe o'i; *ABGL* daw, *F* dae, *IJ* da. 30 *ACGJK* iw; *B* drowyn; *H* draw ni raid. 31 *AGL* ag o rhÿdd y gŵr rhwydd waed. 33 *AGL* pryfigedd, *IK* previgedd. 34 *H* na mi. 35 *D* os Rydd yw amser Roddi, *J* os hir gwann y mysyri. 36 *FM* hwy a fydd.

### *Teitl*

*AGL* kowydd i ofyn ki tom, *B* Cowyd ir ci tom, *C* Cowydd i ofyn Ci ai Ddyfalu, *D* [ ]owydd i ofyn ki digri Iawn, *E* Gofyn Ci Digri, *F* llyma gowydd y ki, *H* kowüdd i ki, *I* K: i gyttyn Sienkyn ag iw gi, *J* kow: i gi kostog yw ddyfalv, *K* Cyw i ofyn Ci tom i Gyttyn Siencin, *M* kowydd i erchi ki i lywelyn ap Gvttvn i lyfy i draed.

### *Olnod*

*AE* Llywelyn ap Gutty, *B* llyn gyttyn ai cant, *CF–KM* llywelyn ap gyttyn ai

Kant, *D* llyn ap gvtty[ ], *L* Llywelyn ab Guttyn ai Canodd.

*Trefn y llinellau*

*AGL* 1–30, 33–4, 31–2, 35–6.

*B* [1–10], 11–12, [13–16], 17–18, [19–20], 21–30, [31–6].

*C–FHIKM* 1–36.

*J* 1–26, i, 27–36.

*i*

e dry wrth ymlid ai drwyn

i wilers yn vn olwyn.

*I ofyn dwy sbectol gan Syr Siôn Mechain, person Llandrunio*

4 Myfyrio bûm i fwrw byd  
 Ar synnwyr er ys ennyd.  
 Y mae'n barod, Medrod Main,  
 Ym gywydd, mi ac Owain  
 (Prydydd o wawdydd ydyw,  
 Ac wŷr y Moel, gân ym, yw),  
 8 I wŷr gwych, aur yw ei gob,  
 Hir a wisgir yn esgob:  
 Syr Siôn, ni fynnai siars, oedd,  
 Mechain, gŵr mwya' iachoedd.  
 Person a wnâi'r pwrs yn well  
 12 No chost barwn â chastell.  
 Llys i holl Bowys lle bo,  
 Llwyn derw, annedd Llandrunio.

16 Cwyno'r ym; canu ar ôl  
 Ddwy gerdd i Dduw ac urddol.  
 Ni a welem drwy niwloedd  
 Pe bai gynt y gwynt nog oedd.  
 20 Gwreinia megis gwŷr anardd,  
 Chweinia gynt a chwynnu gardd.  
 Weithian y mae'n oedran ni  
 A'n dau olwg yn delwi;  
 A'r llygaid, nid un naid neb,  
 24 A dynnodd ein godineb.

28 Llygod nos yw'n llygaid ni  
 Eisiau gwydr i'w cysgodi:  
 Dau sbectal, bedair dalen,  
 Dail gwych rhwng dwyael a gên.  
 Dwy ffynnon loywon ar lawnt,  
 Da gwelan' yn deg alawnt;  
 32 Dau ddrych lle nid oedd yr un,  
 A dau wanas sy danun'.  
 Dolennau a dau llyn,  
 A dau gas, un a'u dwg ynn.



- 36 Mae i'n bryd am ein brawdwr  
Fod eu gwerth ar fwyd y gŵr.
- 40 Doe ni welem dan olwg  
Droi'r maidd oni dreiai'r mwg;  
Heddiw gweled, hydd gwaywlym,  
Deupeth o'r unpeth yr ŷm.  
Nid hawdd ynn ganfod ein tai;  
Nid haws gael neb a'n twysai.  
44 O cheir, dau gloywach yw'r dydd;  
Oni cheir, yn iach irwydd.  
Ac awn i'r tai, gwnawn oed dydd,  
Lle gwyl pob dall ei gilydd;  
Awn fyth, er na fynnai 'fo,  
48 I'r gotel lle mae'r Guto!

*Ffynonellau*

A—Card 4.156 [= RWM 64], 262 B—CM 12, 32 C—LIGC 3056D [= Mos 160], 267 D—Llst 118, 347 E—Pen 77, 354 F—Pen 99, 123

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 157–63.

*Amrywiadau*

1 *C* mefyrio bwm fwrw r byd; *D* mefŷrio i bym; *DE* vwrw r byd, *F* fwrw y byd. 7 *F* I wr gwych a fv avr i gob (*gydag* a fv *wedi ei groesi allan gan yr un llaw*); *B* fu aur ei gôb. 9 *A* Syr Sion mwya siars. 10 *AE* mwya achoedd, *B* mwya'i achoedd. 11 *D* pson a; *A* wnai pwr. 14 *A* dewr; *A* llann Dreinio. 15 *CD* kwyno i rwyf. 17 *A* welen. 18 *B* [y gwynt]. 19 *C* [ ]inia megis; *BEF* gwr. 21 *AF* Weithian mae yn; *E* weithian mae yn dav oedran. 22 *CD* dwy; *E* in dielwi. 23 *A* y llygaid; *CD* ni wnn naid. 24 *A* ynon odineb, *CD* on godineb. 26 *ACD* i gysgodi. 27 *AC* dwy; *A* spectol, *F* ysbekdal; *A* dôlen. 29 *ACD* lawnd. 30 *A* gwelais, *CD* gwelai; *ACD* alawnd. 32 *ACD* a dwy; *A* fydd; *A* denŷn. 34 *B* [a'u]. 35 *A* ei; *EF* bradwr. 37 *A* welyn. 38 *B* maidd hyd oni dreier mwg; *A* onis dreia'r. 39 *A* gwiwlym. 41 *CD* haws; *A* oedd ganfod. 43 *B* Ni chair dau oleuach dŷdd, *EF* Ni chair golevach ywr dydd. 45 *A* A gawn Ein tai. 46 *A* gwel. 47 *ACD* nas mynnai. 48 *A* An gwir gattel awn Gytto.

*Teitl*

*A* Gofyn dwy o Espectals: sef un i Lawelyn ab Gyttyn ar llall I Owen ab Llawelyn Moel Gan Syr Sion Mechain deisyfid y rh[ ], *BF* Cywydd y Sbectal, *CD* K: i ofyn dwy spectral, *E* I ofyn Spectalae.

*Olnod*

*ABDF* llen ap Gvtvn ai kant, *CE* lln ap Guttyrn.

*Siomiant serch*

Ni chynghorwn chwi, 'ngheraint,  
 Dduw Sul, fawr weddio saint,  
 Hyd y bûm, hoed heb amau,  
 4 O nych a hud yn iacháu.  
 Y mae ofn ymy fwyfwy  
 Ydd âi 'myd ac na ddôi mwy.  
 Y ferch wen sy'n f'eiriach i,  
 8 Anras fal Suddas iddi  
 Pan na ddaw hon, widdon wedd,  
 I'r llwyn y bu yrllynedd!  
 Er llaw merch a rhoi llw mawr  
 12 Ar Dduw oll ar ddwy allawr,  
 Ni choelia' (och i'w helin!),  
 Oni cha' glo uwch ei glin.  
 Er ei myned i'r meinwr,  
 16 Nid gwaeth er newidio gŵr!  
 Nid â o'r gwely, dirgeloed,  
 Nac o'r llwyn, ôl trwyn y troed.

C'nefinach, lle cawn feinael,  
 20 Roi plu a'u celu no'u cael;  
 Tosturio a wna', tyst yw'r naill,  
 Yr awron wrth rai eraill.  
 O blu adar mae blodau  
 24 A roed fyth ar yr iad fau,  
 Oerchwedl iddi a archa'  
 Gan blu'r ieir o gwn b'le'r â.  
 Fo wŷyr llwynog, iarll henwydd,  
 28 Anrheithio gwallt yn rhith gŵydd.  
 Gwnawn ninnau'n dau yn un dydd  
 Ben gwelw bob un i'w gilydd.  
 Bychan oedd ym, baich neu ddau,  
 32 Ban o grwybr, bwn o gribau.

Dyn ym a roes doe 'n 'y mro  
 Het helyg, Duw a'i talo.

36

Dig oeddwn, Duw a'i gwyddiad,  
 Dig fydd gwŷn dyn am ei dad;  
 Dan herwa 'r wy'n dwyn hiraeth,  
 Dan gnwc y mae'r dyn a'i gwnaeth.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14997 [= RWM 24], 57<sup>v</sup> B—Card 3.4 [= RWM 5], 21

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 157–63.

*Amrywiadau*

1 *AB* i chwi yngheraint. 2 *B* duw. 4 *A* hoyd. 5 *B* mae. 7 *B* verch hir. 9 *A* [Pan] na ddoe. 11 *A* choliaf. 13 *B* ar roer llw. 14 *B* allor. 16 *B* Ai gwaeth. 17 *B* nid aar gwely. 18 *B* llwyn nac. 19 *B* lle i kawn. 22 *B* Ar roed; *B* yn yr. 23 *A* orchoel imi a; *B* idd. 24 *B* gwn i ble. 25 *B* Awyr llwynnog; *A* iarll vnwydd. 26 *B* yn hrrt. 28 *B* yr rowran. 29 *A* nine a wnawn yn vn wydd; *B* gwnawn inau. 32 *A* i ben grwybr. 33 *B* aroes dan; *AB* ym ro. 34 *B* hellic. 38 *AB* gnwk may r.

*Teitl*

*AB* dim teitl.

*Olnod*

*AB* llywelyn ap Guttyn ai kant.

*Trefn y llinellau*

*A* 1–4, [5–6], 7–10, 13–14, 11–12, 15–20, 23–8, 21–2, 29–38.

*B* 1–10, 15–18, 11–14, 19–22, 25–6, 23–4, 27–8, 31–4, [35–6], 29–30, 37–8

*Mab a merch yn caru*

- Da gwelais ar lednais lawnt  
 Doe anelu dyn alawnt  
 O drychafael gafaelion  
 4 Fal nad adwaeniad tad hon.  
 Nid oedd hir feinir tra fu,  
 Na phell iawn o'i phellennu  
 A'i byrnio ffordd yno 'dd oedd,  
 8 A'i chodi, dyn wych ydoedd,  
 A'i gyrru, fy nyn gwirion,  
 A dyrchu'i grwth yn dorch gron.  
 E' fu encyd yn fynici,  
 12 Yn olwyn car neu lun ci;  
 Rhwym dafad, tremyniad tro,  
 A chi'n hafog i'w chneifio;  
 Pêl adwyth, lle'r pawl ydoedd,  
 16 Fal draenog, carngostog oedd;  
 A diwygiad eu deugorff:  
 March ac arth ym mreichiau'i gorff;  
 Gwarae cleirch ar gwrwgl hen  
 20 Yn gwrth-hoelio'i grwth halen.  
 Ni cheir i'n oes chwarae'n well  
 Uwch ei ffwrch hwch a phorchell;  
 Chwarae, dysgwch i'ch wyrion,  
 24 Tancwd hwch uwch tincwd hon;  
 Dyrnodiau, tancydau cadr,  
 Diawl aruthr yn dal aradr;  
 Gŵr yn myned, garw meinwych,  
 28 A'i gath i'r gell, gweithiwr gwych.  
 Aruthra' twrn, ei thraed hi  
 Glas dydd oedd ddwyglust iddi;  
 Weithiau eraill ar draill draw  
 32 Dros ei wddw yn dyrs iddaw.  
 Pen y gal, pan y'i gwelais  
 A'i gwyllo, byth heb gael bais.  
  
 'Ni cherddais, treiglais bob tro,  
 36 Rhwy ddotiais, gam rhwydd eto.

40

Tinhwygwch, cenwch eich cainc,  
 Trychefwch tra foch ifainc.  
 A fynno bod gan fenyw,  
 Yn iawn droed yr awn i'r rhiw.'

*Ffynonellau*

A—BL Add 14969, 164 B—BL Add 31071, 31<sup>r</sup> C—CM 23ii, 158

Y mae rhai darlenniadau yn llawysgrifau AC yn aneglur oherwydd traul. Ni nodir y rhain oni bai bod rheswm i gredu y byddai'r darlenniadau hynny, petaent yn gyflawn, yn wahanol i'r testun golygedig uchod. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 157–63.

*Amrywiadau*

1 *AB* da i gwelais, *C* O gwelais. 2 *AB* ynylv. 3 *A* o drachaffael, *B* O drachafael, *C* a dyrchafel. 4 *A* dwayniad, *B* dwaeniad. 5 *AB* a fv. 6 *AB* ffel; *AB* ffelenv. 7 *C* brynio. 9 *AB* a. 10 *AB* drycha i, *C* dyrcha i. 11 *C* a fv. 12 *A* ne n lvn. 14 *C* chwi n. 16 *A* garn, *B* gwr. 19 *AB* gwarr kleiriach. 20 *B* gwrthhoeli i, *C* gwrtholio i. 27 *AC* y myned. 28 *C* ar gath. 29 *C* ai throed. 30 *B* dwyglust. 32 *C* deirs. 33 *AB* gwelas. 34 *AB* bas. 36 *ABC* Rvw; *C* ddotiad; *B* atto. 40 *ABC* iawn troed; *B* y Rhiw.

*Teitl*

*A* Kowydd i ddyfalv gwr a merch yn mynd ar i gilydd, *B* Dyfalu Gwr a Merch yn myn'd i gilydd, *C* Co: Anllad.

*Olnod*

*ABC* llyn ap gyttvn.

*Trefn y llinellau*

*AB* 1–40.

*C* 1–36, [37–40].

*Cystadlu am Alswn o Fôn a dychan i Risiart Cyffin, Deon Bangor*

- Y ddyn fwyn a ddôl'n fynych  
 I dŷ Ddwynwen, un wen wych,  
 Mae dyn yn ymofyn Mai  
 4 Unwaith, Alswn, a'th welsai.  
 Gwyn ei fyd, lle gwn f'oedi,  
 Y dyn dall nad edwyn di!  
 Nid rhaid i ddyn, tywyn tes,  
 8 Wylo ond am a weles.  
 Ni chwynaf, araf yr oed,  
 Dim, wen, ond nad ŷm unoed.  
 D'annerch a wnafl, medd dynion,  
 12 Ucho, 'm oes, ddyn wycha, 'm Môn.  
 Dan arwydd, Duw'n rhwydd, yrhawg  
 Rhown aur, gwen, rhannu'r geiniawg.  
 Aeth hiraeth ym o'th arail;  
 16 Oes fan i 'mddiddan am ddail?  
 Nid hawdd yn dy wlad heddiw  
 Wneuthur draw oed, noethdir yw;  
 Och finnau, o chaf unoed,  
 20 Lle bu'r ceirch, oll na bai'r coed!  
 Pe bai Fôn fal Nanconwy  
 Yn goed mawr, ef a gaid mwy.  
 Dof yngod, nid wyf angall,  
 24 Er hyn, gwen, mae rhai yn gall.  
 Mae gennyf dŷ fry o frwyn  
 A lle iawndda yn Llanddwyn.
- Nid gwiw ceisiau, draw mewn drych,  
 28 Am f'oedran yma f'edrych.  
 Na fyn Ddean, cwman cau,  
 Heno 'm Môn hŷn no minnau.  
 Gyrrai i'r côr bob gwraig hirwen,  
 32 Gyrrai ym hwnt un grom hen.  
 Ni mynnai, gof ymofyn,  
 Mwy â merch, a mi a'i myn.  
 Myn llaw Fair, mwy ni all fo  
 36 Bechod, ond ei rybucho!

- Ac nis gad yn rhad, medd rhai,  
 Dan gyll i'r dyn a'i gallai.  
 Gwae finnau lle gofynnodd,  
 40 Gweled o ferched ei fodd!  
 Nid da'r llun hwnt ar eu lles,  
 Na'i ddull, oni bai ddalles.  
 Ni ddaw iddo yn ddididim  
 44 Liw dydd ar a welo dim.  
 O myn e' gael, mwyn ei gwên,  
 Fry i'w charu, ferch hirwen,  
 Nos a dydd nesaed iddi  
 48 Yn rhwth iawn yn fy rhith i.  
 Myn y Groes, ef a roesai  
 Mwy no neb, ym iawn a wnâi!  
 Pe rhôi eto'r Cymro call  
 52 (Ni'm torwn) gymaint arall,  
 Gwell oedd un gneuen gennyd  
 Heno, gwen, no hyn i gyd.  
 Ni fyn y Dean annerch  
 56 Draw 'n ei fyw ond yr un ferch.  
 Pana wyddiad, pwn eddi,  
 Nas câi neb pryd nas cawn i?  
 Ni myn yr un mewn yr iau,  
 60 Gwd mawn, nis gad i minnau.  
 I ddiawl am ei feddyliau  
 I wragedd drwy Wynedd draw!  
 N'ad, fy ngwen, er a genais,  
 64 I gwd byr godi dy bais.  
 Ni'm dorwn am ei 'mdaro  
 Os câi fil drwy nas cai fo.

### *Ffynonellau*

A—Bangor 13512, 233 B—BL Add 10313, 17<sup>v</sup> C—BL Add 14882 [= RWM 31], 5<sup>r</sup> D—BL Add 14966, 396<sup>r</sup> E—BL Add 14967 [= RWM 23], 218 a 232 F—BL Add 14969, 400 G—Card 4.10 [= RWM 84], 240 H—CM 14, 107<sup>v</sup> I—LIGC 428C, 116 J—LIGC 834B, 257 K—LIGC 3057D [= Mos 161], 406 L—LIGC 5269B, 240<sup>v</sup> M—Pen 77, 247 N—Pen 152, 284

Y mae rhai darlleniadau yn llawysgrifau CDFHJK yn aneglur oherwydd traul. Ni nodir y rhain oni bai bod rheswm i gredu y byddai'r darlleniadau hynny, petaent yn gyflawn, yn wahanol i'r testun golygedig uchod. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 157–63.

*Amrywiadau*

1 *BCEHKM* ddaw n. 2 *E Ni* bu ddwynwen mor wen wych; *CH* ddwynwen ddy, *BDKM* ddwynwen yn. 3 *H* gwae'r dyn; *A* ymofyn merch mai (*gyda* merch *wedi ei groesi allan gan yr un llaw*). 4 *BK* yn waeth; *BDK* nath welssai. 5 *B* lle i gwna f'oedi, *C* lle i gwn vydi, *H* llei gwynfydi. 6 *AFIJLMN* nith edwyn di, *B* nad edwyn dydi, *CH* nid edwyn di. 9 *CH* chwynaf lle raf ir oed; *M* araf erioed. 10 *CH* dyn wen. 11 *H* a wna dynion; *CDH* wna; *B* dynian. 12 *AFJ* vcho ym oes, *B* Ucha maes, *H* uxa im oes, *IN* vcho 'm oes, *K* vcho maes, *L* vch ym oes; *C* vcha im oes y ddy; *B* Ddyn wcha mân, *L* ddy wycha nonn. 13 *H* rhwydd rhawc. 14 *CH* gwen a rran or geiniawc. 16 *DE* man. 17 *C* ni; *B* hawdd dy weled heddiw, *DK* hawdd ym dy weled heddiw, *IN* hawdd y dywlad heddyw. 18 *B* Wneuthur oed traw noeth yw rhiw; *AFIJLN* vn waith draw; *A* ond noethdir. 20 *AFIJLN* llawn bvr; *B* Lle mae Ceirch oll am y Coed. 21 *B* fan; *AFHIJLN* Nant Conwy. 22 *BK* vo a gaid, *D* efo gaid, *I* ef a gaed. 23 *C* wy. 25 *M* vry dy. 29 *DH* Ddeon cwmon; *C* ddeon kwnon, *K* ddeon kwman. 30 *B* Hynny Môn, *CH* hwnw y mon, *K* hynny y mon. 31 *AFIJLN* Gyrrai corr, *B* Gyrr ir Côr, *D* [ ]cor, *M* gyrrai'r cor; *CKD* pob gwraig, *L* heb wraig. 32 *B* Gyrr i mi hwnt, *D* [ ]i mi hwnt, *EK* gyre i mi hwnt, *M* gyrrai mi hwnt; *B* un gram, *AFIJN* yn grom, *L* yn gron. 33 *BK* y may yn i gof ymovyn, *E Ni* vynai vo vngovyn. 34 *BDK* mwy annerch am verch a vynn; *I* Mwya' merch. 35 *I* Mair. 38 *L* dyann gyll; *D* y dyn; *B* a gollai. 40 *B-EHK* Weled. 41 *CH* nid ar llvn hwn, *BDK* nid da ir llwyn hwnt; *L* llv hwnt. 42 *B* onid i ddalles, *CH* onid ar ddalles, *DK* ond i ddalles. 43 *B* ddae iddo un, *CH* ddoe iddo ddy, *DK* ddoe iddo vn; *M* iddo vn ddiddim. 44 *C* ar a welo dyn, *D* ar a wele dim, *E* vn a welo dim. 45 *A* o myn o gael, *BE* o myne gael, *C* o myn gael, *D* [ ]ynni gael, *K* o mynni gael; *BDK* mwyn yw gwenn. 46 *AFIJLN* hi, *B* Fo, *DK* y hi, *M* hyf; *CDHKM* oi; *DK* charv y verch; *AFIJLN* merch; *ABFIJLMN* irwen. 47 *AFIJLN* nased. 48 *A* fowrwaith oedd yn, *E* vanraith oedd yn, *FIJLN* fowraith oedd yn. 49 *DK* efo a. 50 *AFIJLN* ym mwy no neb yma a wnai; *DK* ym vwy no neb iawn, *M* ym mwy no neb iawn; *B* yn iawn, *CH* a iawn. 51 *B* [r Cymro call]. 52 *B* Mi[m torwn gymaint arall]; *E* kymaint. 53 *E* Gwell vn gneven i genyd; *CH* oedd genevin genyd. 54 *CH* hono; *CEH* hyny; *M* hyny gyd. 55 *ACG* deon, *K* deon. 56 *CH* draw yn fyw. 57 *C* pwy a wyddiad poene iddi, *H* Pwy na wyddiad (poen iddi); *B* Wydde, *G* wyddid; *ABIJLN* pen, *M* iddi. 58 *G* nes Cawn i. 59 *G* nis mynn yr un mistir iau. 60 *G* Gwd mi wn; *ACFHIJLMN* mwyn, *B* Môn, *K* mawr. 62 *B* Ei Wragedd, *G* A wragedd. 63 *A* gerais. 64 *AK* godir bais, *BFJLN* godi y bais. 65 *A* er ymdaro, *E* ai ymdaro, *FIJLN* am ymdaro, *M* am 'mdaro. 66 *GM* bes; *C* drw.

*Teitl*

*AFL* Kowydd ymryson ynghylch merch, *D* Cow: merch, a dy[ ]arall oedd [ ]. Cow. i Alswn i geisio genthi wrthod Dean Cyffin ai garv ef, *H*



Cowydd i geisio troi meddwl merx Ifange o Sir Fon rhag Caru deon Bangor, I Dau Gywydd rhwng Llewelyn ab Guttyn a Lewis Môn, K K: i ferch o waith llywelyn ap gyttyn.

*Olnod*

*AEHJKL* lln ap gutvn ai kant, *BFGIMN* lln ap Guttvn, *C* 1480 lln ap guttyn  
*D* dienw.

*Trefn y llinellau*

*ACDFILMN* 1–66.

*BK* 1–52, [53–4], 55–66.

*E* 1–8, [9–10], 11–16, [17–20], 21–60, [61–2], 63–6.

*G* [1–54], 55–66.

*H* 1–32, [33–4], 35–66.

*J* [1], 2–24, [25–6], 27–50, [51–2], 53–66.

*Dychan i Risiart Cyffin, Deon Bangor*

- Mae doctor i Fangor fain,  
 Oes, bradwr Ynys Brydain:  
 Brad a wnaeth, briwdan eithin,  
 4 Bradog fu waith Madog Min  
 Yn derbyn Llywelyn llwyd  
 I Fuellt pan ddifawyd.  
 Tân ynn eto i'w 'nynnu:  
 8 Tebyg brad dig y Brawd Du.  
 Brad mawr fu'r bwriad ym Môn,  
 Brad eryr Aberdaron.  
 Meistr Rhisiart, rymus drwsiad,  
 12 Am yr ŵyn a wnâi fy mrad,  
 Cyffion drwg y Cyffin draw  
 A dwy egwyd i'm digiaw.  
 O chefais fil gan Wiliam,  
 16 Y pin a'r Cyffin fu'r cam:  
 Llaw'r gŵr er twyllo'r gwirion  
 A wnâi 'mil i wyna 'm Môn.  
 Nyw torrwn hwn er tre 'nhad,  
 20 Ni thyr cywir lythr caead.  
 Peris ym cyn ympiriaw  
 Leisiau drwg Huw Lewys draw:  
 Darllenai pan glywai'r glêr  
 24 Fil heb oed fal ei bader.  
 Ucho'n wych y chwenychwn  
 Ddryllio 'nhad wrth ddarllain hwn!  
 Dwyn bil y Deon boliog  
 28 A'm bwriai'n grwn mewn barn grog.  
 Rhyfeddod yr haf addwyn  
 'Y nghrogi er erchi'r ŵyn!  
 Minnau, ni ddygum yno  
 32 Ddafad yn lledrad na llo.  
 Os gefyn a gaiff dyn da,  
 Yn y Chwaen yn iach wyna!  
 Un o'r Tri, yn ŵr truan,  
 36 Hualog wyf yn hwyl gwan.

- Taliesin, Awstin ystum,  
 Yng ngefyn Cynfelyn fŷm;  
 Elffin gyda Chyffin chwyrn,  
 40 Maelgwn yn gwasgu'r melgyrn.  
 Oes wŷr, na Chymro na Sais,  
 Yn ei filiau un falais?  
 Aur a gawn od awn i'w dŷ,  
 44 A chrwydr a charchar wedy.  
 Cadarn y rhoes i'm cydoed,  
 Colles a roddes erioed:  
 O rhôl'r neill-law dan awyr,  
 48 Y llall a'i diwynai'n llwyr.  
 Brwysgo côr, braisg y cariad,  
 Ac yn ei frwysg y gwnâi frad.  
 Bloeddio mawr, blin oedd ym Môn  
 52 I'm dwyar ym Modeon.  
 Ei fil nis dygaf eilwaith  
 I'r Chwaen nes edrych ei waith:  
 Chwephar hëyrn a chyffion  
 56 A choffa ym wyna 'm Môn.  
 Och nad wyf, oni chawn dâl,  
 Ym Mhowys, mi a'm hual,  
 A'r canonwr cynhwynawl  
 60 O allu Duw yn llaw diawl!  
 Troi fy mil, taeru fy mod,  
 Twrch daear, trwy awch diod.  
 Ceiliog byr mewn clog o bân,  
 64 Cawell adar, cau llydan.  
 Ni wn ystwnt un ystad,  
 Ni wn faril un fwriad.  
 Ni ddygaf, daeraf dirwy,  
 68 I'r cwd moel lythr caead mwy.

### *Ffynonellau*

A—BL Add 14866 [= RWM 29], 87<sup>v</sup> B—BL Add 14882 [= RWM 31], 73<sup>v</sup>  
 C—BL Add 31071, 21<sup>r</sup> D—Brog (y gyfres gyntaf) 4, 73 E—Card 2.40 [= RWM 26], 108 F—Gwyn 11, 135 G—LIGC 1998B [= Pant 29], 67 H—LIGC 2023B [= Pant 56], 24 I—LIGC 3056D [= Mos 160], 268 J—Llŷt 118, 351 K—Pen 77, 303 L—Pen 112, 703 M—Pen 312ii, 40

Y mae rhai darlenniadau yn llawysgrifau BI yn aneglur oherwydd traul. Ni nodir y rhain oni bai bod rheswm i gredu y byddai'r darlenniadau hynny, petaent yn gyflawn, yn wahanol i'r testun golygedig uchod. Y mae llinellau

11–14 yn llawysgrif C yn ychwanegiad ar ymyl y ddalen gan law ddiweddarach. Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 157–63.

### *Amrywiadau*

1 *BDH(L)M* ar fangor. 4 *J* vadog. 5 *H* Lywelyn lwyd. 6 *B* ddef a wyd, *D* ddef allwyd. 7 *B* etto yn y nynv, *D* etto yn enynnv, *IJ* etto enynv. 8 *B**D**IJ* ir brawd. 9 *C* vawr. 10 *BD* barad. 13 *C* drwy. 15 *BD* kefaiss; *BD(L)M* master William. 16 (*L*)*M* impin or; (*L*)*M* yu r. 19 *BD* nis torrwn, *IJL* ni thorwn, *M* Ni torrwn; *BD* nis tre ynhad. 21 *C* pris ym; *BD* kyn i ympiriaw; *AL* ymprissiw, *IJ* ymrhissiw. 23 *BD* derlleai, (*L*)*M* Darleai; *BD(L)M* glowai gler, *IJ* glowe i gler. 25 *M* y çunyçun. 27 *CE* deau. 28 *B* bwrian yn grwn, *C* bwrier yn grwn. 29 *M* Rÿfed oed. 30 *M* yn grogi. 33 *D* gofyn. 34 *B* yn ych a wyn yn, *D* y nych a wyn yn. 36 *BCDIJ* wy hoywal gwan, (*L*) wyf yn howel gwann, *M* uy Howel gwann. 38 *D* ynghefyn, *M* y gefyn. 40 *ACEL* maelgwyn; *BD* maylgwn gwasgv yr meilgyrn, (*L*)*M* Maelgun urth wasgu Melgyrn. 41 *I* gwr; *ACL* chymbro. 43 *B* oi dy. 45 *B* kadarn yn roi ym hob kydoyd, *D* cadarn yn rhoi ymhob cyded, *M* Cadarn y roi y mob cydoed. 46 *BD(L)M* kollaist a roddest. 47 *DM* a roe r, (*L*) a roe y; *M* ir awyr. 49 *BD(L)M* gwr braisg i gariad; *C* cor (*cywiriad*: gwr), *C* y cariad (*cywiriad*: i gariad). 50 *BD* yn frwysg y gwnai ym frad, (*L*)*M* yn y mruysg y gwnai y mrad; *IJ* frwysg gwnae; *C* gwna. 52 (*A*)*C*(*E*)(*L*) dwyarr waith y deon. 54 *EL* er çwaen nis edryç y wait, (*L*) er çwaen nes edryç y wait. 56 *D* am wyna. 57 *IJ* oni cha. 58 *BD* miawn hval. 60 *BD* allai dduw ai yn llaw ddiawl, *IJ* fo alle ddûw rai n llaw ddiawl, (*L*)*M* yr alaï duu r ai n la diaul. 64 *B* kawell a darkav lladdan, *D* cawell a darcav llydan. 67 (*L*) Ni diga; *B* ddoraf ddirwyf, *D* ddoraf ddirwy. 68 *B* mwyf.

### *Teitl*

*A* cowydd etto o ddychan drwy gellwair. dy., *C* Llywelyn ab Guttyn Grythor Cy: Duchan. Achwyn. Y Deon Kyfin, *D* dychan i Ddeon Cyffin am roi'r bardd yn y cyffion, *E* Cowydd etto o Ddychan drwy gellwair dy: gan Lywelyn ap Gyttn, *FG* Tri hualog ynys Prydein according to Llewelyn ap Guttyn A.D. 1480, *H* Fal hyn y dywed Llewelyn ab Guttyn yn un o'i Gywyddau, *IJ* y kowydd yma sydd yn calyn a wnaeth llen ap gyttyn i ddeon bangor o ddychan achos fo a ddaniynasse llen ap gyttyn ar y deon roi i lythr gidag ef i gael wyna ymodeon ag aberdaron ynte a scrivenodd at hûw lewys am roi llen yn y cyffion am gymhortha heb gomissiwn ag felly a ddûg llen lythr yn i erbyn i hynan ag am hyny o frad i canodd ef y kowydd yma a ganlyn, *L* kowyd dycan i deon Bangor yr hun pan doet len ap Guttun atto i geissio ei lytyr at huu lewis or çuaen i geissio ei nerth ef i uyna a esgrifenis attau i beri idaü garçaru len am ladratta uyn:.

### *Olnod*

*ACD* llywelyn ap Gyttn, *B* 1480 llin ap guttn ai kant, *E* 1 tri hualog ynys

Bryd. Vid liber triadum. 2 Elphin ap Gwydno gida maelgwyn yn ngastell Teganwy iddo i gwnaeth Taliesin owdl y gwynt. madog min bradwr y Twysog llywelyn ap Gruff., *FG* Llewelyn ap Guttun to Cyffin dean of Bangor, *IJ* llen ap gyttyn ai kant, *K* Gûtto'r Glynn Lln ap Guttûn (*gyda* Gûtto'r Glynn *wedi ei groesi allan gan yr un llaw*), *LM* len: ap Guttun ap Ieuan lydan: a: k.

*Trefn y llinellau*

*AEL* 1–10, [11–14], 15–24, [25–6, 29–30], 31–66, 27, 28, 67–8.

*BD* 1–50, [51–4], 55–60, [61–2], 63–4, 66, 65, 67–8.

*C* 1–24, [25–6, 29–30], 31–66, 27, 28, 67–8.

*FG* [1–34], 35–40, [41–68].

*H* 1–6, [7–68].

*IJ* 1–10, [11–14], 15–24, [25–30], 31–44, 46, 45, 47–68.

*K* [1–64], 65–8.

*M* 1–6, [7–8], 9–50, [51–4], 55–60, [61–2], 63–8.

*Dychan i Risiart Cyffin, Deon Bangor, a'i feirdd*

Y mae Dean yn rhannu  
 Da i bawb, erioed y bu,  
 A rhoes ym er ys ennyd  
 4 (Mae'n rhull fyth) mwy no'r holl fyd:  
 Rhoi dillad, rhoi da allawr,  
 A rhoi'r meirch, a rhoi'r aur mawr.  
 E drôl yma ym drimeirch,  
 8 O warth i fab werth ei feirch;  
 A droes ym i Dreoswallt  
 A'i trôl i mi'n heli hallt.  
 A roddai pan ganai'r gog  
 12 Dan gryd fo âi'n dân gwresog.

Gŵr rhyfedd, mewn gwir hefyd,  
 Yw'r Dean dros buman byd:  
 Parai ymy, pêr amod,  
 16 Eiste lle ni mynne 'mod;  
 A pheri ym feddwi'n faith  
 Yr ŵyl a'i liwio'r eilwaith.  
 Parai 'nghyrchu drwy'r lluoedd  
 20 Hyd y wlad, fal hudol oedd.  
 Minnau 'mhob gwlad, o'm annawn,  
 Edrych ar ddyn wych a wnawn:  
 Er mwyn hynny, fry 'n ei fro,  
 24 Gwd anardd, ni'm gad yno.  
 Ni byddwn, deuwn y daith,  
 Banelgwd, heb win wylgwaith.  
 O Iesu Grist, osog wraidd,  
 28 I'w gadw, wrda godardaidd!  
 W a alwaf heb drafael,  
 Efô, Rhys, dau Ifor Hael,  
 Lle'n gelwir, gywir a gwan,  
 32 Lle cewch oll, lew Cwchwillan.

On'd truan y mae'n treiaw,  
 Efô a'i glêr, fwa glaw?

36 Celu cenfigen ennyd  
 Weithian aeth â'r gân i gyd.  
 Adar ydynt, dewr ydwyf,  
 I'w gael, chwym, llwdn y gloch wyf.  
 Manglych goruwch y mwynglawdd  
 40 A ganant hwy, gwenwyn tawdd.  
 Pan ganwyf, pen ag ynni,  
 Y gloch fawr, 'mogelwch fi!

44 Pwy a wnaeth hyn, pennaeth iach?  
 Ai Rhys wlanengrys lingrach?  
 Rhys Pennarodd, anarodd enau,  
 Drwg gan ei ên dorri enau;  
 48 Ni'm gwelir byth, gwyliwr bedd,  
 Dan gymod â'i ên gamedd.  
 Ni feddwai'n holl windai Llŷn  
 Hywel Rheinallt, heliwr enwyn.

52 Ai ti, Lewys wtläwr,  
 A wnaeth hyn, annoeth o w'r?  
 Collaist Bowys, dwys fu'r daith,  
 Wyt ar ôl eto'r eilwaith.  
 Cymynaist lle cymynynt  
 56 Uwch dy ben ryw gangen gynt;  
 Mae'r ysglodion ohoni  
 Yn fawrddrwg yn d'olwg di.  
 Gwallus gennyf dy gellwair,  
 60 Wrth dy gas gwas ar bob gair;  
 A throi a wna', drofa drais,  
 Oll a'th gyfarch lle'th gefais.  
 Troist ti henw, trawst tŷ henaidd,  
 64 Oes hŷn a soegyn us haidd;  
 Torri 'nghlustiau â'th glau gledd  
 Dan un o down i Wynedd!  
 Ym Mhowys, lle'r amheuwyd,  
 68 Cys mein ers, drwg hwsmon wyd!

### *Ffynonellau*

A—Bangor 13512, 236 B—BL Add 14969, 406 C—LIGC 428C, 121 D—LIGC 834B, 261 E—LIGC 5269B, 288<sup>v</sup> F—Llst 122, 618 G—Pen 77, 251 H—Pen 152, 289

Ymhellach ar y llawysgrifau, gw. tt. 157–63.

*Amrywiadau*

2 *A* bawb ar er ioed, *BCEH* bawb ac erioed. 3 *ABCEH* roes ym. 4 *F* rhydd; *A* no holl. 5 *F* dillad a rhoi. 6 *ABCEH* [*A*] rhoi'r meirch; *AB* a Roi avr mawr. 10 *CH* tri; *F* a drodd i minne hele. 15 *G* pvr. 16 *BDEH* mynne y mod. 17 *G* pheri mi. 18 liwlio'r. 19 *B–E* Parai ynghyrchv, *H* Parai ynghychv. 21 *A* ymanawn, (*C*) o man awn, *D* am anawn (*cywiriad*: om), *E* am a nawn, *F* om aniawn. 27 *AFG* oesawc. 28 *A* godardaith, *C* godarddaidd. 29 *CH* *N* a, *E* [*W*] a; *G* hwy a alwaf (pwy). 32 *BDG* Cwchillan, *E* kwchillawn. 34 *A–EH* ef ai, *FG* efo i; *A* fwya glew, *C* fwa gwlaw. 38 *FG* dewr a chwyrn llwdn cloch wyf; *A* llwdn glôch. 41 *FG* poen; *A–H* y gyni. 43 *F* [*hyn*]. 44 *A–EH* Rys ai wlangrys. 45 *A* rhûo pennardd, *G* Rhes penardd. 46 *G* cen i en. 48 (*G*) din gamedd. 49 *A–EH* feiddiai'n; (*C*) windai Lleyn. 51 *A–DH* wtlaiwr, *E* wtlawir. 52 *AE* annoeth wr. 57 *E* ysgoldion. 59 *D* gwallvs[ ]. 60 *E* dy gar. 61 *CH* thoi; *G* wnaf. 62 *BCH* cyfarch, *E* kyfarth. 63 *BCEH* trwst o henaidd, *F* trawst henaidd *G* trawsty henaidd. 64 *E* o soegyn; *F* gassoygydd is, *G* gas soegyn is; *CH* is. 68 *E* kyff mein ers, *F* Cuss min ers, *G* cvs mein ers.

*Teitl*

*A* ateb i Lewis môn, *BE* Kowydd ateb i hwnnw, *CH* Atteb ir *C*: vchod, *F* Cyw: i Ris: Cyffin Dean Bangor: a dychan Rys Penardd, Howel ap Reinallt a Lewys Môn.

*Olnod*

*AEBF* llywelyn ap gyttyn ai kant, *CGH* Lln ap Gvttvn.

*Trefn y llinellau*

*A* 1–28, [29–30], 31–58, [59–68].

*BCEH* 1–64, [65–6], 67–8.

*D* [1–10], 11–59, [60–8].

*F* 1–44, [45–6], 47–68.

*G* [1–12], 13–68.



*Dychan i Guto'r Glyn*

4 Tristach yw Cymry trostyn',  
 Tre' a gwlad, am Uto'r Glyn:  
 Boddi wnaeth ar draeth heb drai,  
 Mae 'n y nef am na nofiai!  
 Ofer oedd wneuthur erof  
 O'm caid heb farwnad i'm cof.

8 Ni bydd cymain', main mynor,  
 Un llaw mwy yn llywio môr.  
 Awenyddiaeth y draethell  
 O foddi'i gorff a fydd gwell.  
 12 Och finnau, uwch yw f'anap,  
 Am simwr y gŵr a'i gap!  
 Ei weled yn troi'n olwyn  
 Ar Fall Draeth â'r fwyall drwyn,  
 Och fi, o'i drochi drichwrs,  
 16 Na bawn ynglŷn yn ei bwrs!  
 Hwdiwch atoch ddwyfoch ddig,  
 Dilyn eich cyff Nadolig.

20 Mae 'n y môr, nis hepgorwn,  
24                   Ni cheraist ferch, o haerwyd,  
                    ond hen lyfr fal Antwn lwyd.  
                    Och, wr, ond truan na chaid  
                    luddio i un ladd ei enaid?
- 28                   Nid oes ar y llwynog, o daw,  
                    ond ei groen wedi-r grinaw.  
                    Ni bu gwatwar mab Gutun  
                    heb ystad a bostio un:  
                    ni ofynnwyd i fyny  
32                   oni roed hwn yn wr tŷ:  
                    rhai'n dwyn gwin—nis rhoen dan gêl;

rhai'n bennoeth i'r hen banel:  
 36 gŵr â chawg a gyrchai was  
 i ddwyn dŵr i ddyn dyras.  
 Y ddihareb ni ddorwn,  
 ac y sydd agos i hwn:  
 40 fo âi'r afr wrth ei ffafriaww  
 oll ar draws yr allor draw.  
 Band drwg—torri'r bont ar hyn—  
 nad âi wrsib i dersyn?

44 Caru merch dan wallt cwyr mân  
 nis gweles hyd nos Galan.  
 A phwy'r Ystwyll yn ffrostiw,  
 yn cynnig dryll ceiniog draw?  
 48 Pan dybiodd—brwysgodd i'r brig—  
 gael annerch i'w galennig,  
 tros y ddôr y trawsai ddyn  
 is ei wegil â soegyn.  
 52 Gwag iawn oedd: gogan a wnâi  
 i Ddwynwen pe 'mddiddanai.  
 Oes ferch ar a weles fo  
 na chawsai cyn ei cheisio?

56 Mab Gwilym gynt heb glaim gwŷr  
 a garasai gwawr Rhosyr:  
 fo wybu ffair am fab ffôl,  
 fal y bu i fol y baeol.  
 60 O doeth dyn ffals at Alswn  
 i neges ail y gwas hwn,  
 a beio fyth na bai Fôn  
 gwedi'i glosio'n goed gleision,  
 64 pe câi'r ferch i 'mannerch mwy,  
 gwd meddw, yn Nugoed Mawddwy,  
 ni ddô i Wynedd, na'i ddynion,  
 os rhô ben ei fys ar hon.

68 Fy nghwnsel i Lywelyn  
 yw rhoi rhaith: rhywyr yw hyn.  
 O bydd hir heb ddiheuraw  
 ei ddwy glust a ddwg i'w law.

*Atodiad ii*

*Ateb Guto'r Glyn i ddychan Llywelyn ap Gutun*

Mae llef oer mal llifeiriaint  
Malltraeth yn seithwaeth no saint.  
Myfyrio mae oferwr  
4 'Y marwnad i, marw'n y dŵr.  
Llywelyn ap Gutyn gall,  
Ai llai'i ferw no'r llif arall?  
Telynior, tâl awenydd,  
8 Trwytho beirdd mewn traethau bydd.  
Gwir gywyddol. gwageddwr,  
Gwas gwych, pwy megis y gŵr?  
Ei fin oedd ddigrif a iach,  
12 Ei ddwy grafanc ddigrifach.  
Och ym, ond doeth a chymen  
Oni bai win yn ei ben?  
Diod a wnâ'r tafod doeth  
16 Droï'i ben ar y dŵr beunoeth.

Ef a welai fy eilun  
Mewn dŵr hallt ym Môn drwy'i hun,  
Yn Llwydiarth y naill ydoedd;  
20 'Y moddi; ai meddw oedd?  
Gwin Cynfrig, wyrennig rodd,  
A gwin Huw a'i gwanhaodd.  
I lys Huw Lewys a'i lawr  
24 Y dôi lanw i delyniawr,  
A thybio, er clwyfo clêr,  
Y dôi lif hyd y lwfer.  
Rhyfel meibion Llywelyn  
28 Y rhai a'i llawnai â'u llyn.  
Rhuo a wnâ'r Cymro cau  
Rhof a'r tân, rhifo'r tonnau.  
Mae'r taeru, man y tiriwyf,  
32 Mai lledrith ym Malltraeth wyf;  
Bod ynof, bywyd enwir,  
Bysgod yn dyfod i dir;  
Bod moelrhon i'm dwyfron deg  
36 Neu f'ellyll yn y falleg.

Ef a'm gwyliai, f'ymgeledd,  
 Ac yn y môr y gwnâi 'medd.  
 40 Mewn môr y myn ym orwedd;  
 Mae'n chwannog i'm clog a'm cledd.  
 Ef a'm claddai mewn clai clyd  
 O chât f'aur uwch y foryd.  
 44 Ef a'm crogai, ni wnâi nâd,  
 Yn Rhosyr er fy nhrwsiad.

A breuddwyd heb arwyddion  
 A welai'r mab ar lawr Môn.  
 'Y moddi hwnt, meddai hwn;  
 48 Er boddi, gŵr byw oeddw'n.  
 O syrth y breuddwyd nos Iau  
 Wyl Non a welwn innau,  
 Ef â'i olud o Felwern  
 52 Gan lif i ganol y Wern,  
 Ac yntau yn ei neuadd  
 O fewn lli, a fon a'i lladd,  
 A'r ddwy Efyrnwy arnaw,  
 56 A môr drwy'r Cymerau draw.  
 Fy mryd, pan fo marw o wall,  
 Fwrw'n y dŵr farwnad arall.  
 Awn ninnau'n dau, f'enaid oedd,  
 60 (Nef i'r meirw!) i nofio'r moroedd.  
 Os i uffern y'n bernir,  
 Enilled ef y naill dir,  
 Os i nef, haws yw nofiaw,  
 64 I Fôn y try f'enaid draw.

*Atodiad iii*

*Cywydd llateiaeth Dafydd Llwyd o Fathafarn i Werful Mechain  
ac i yrru Llywelyn ap Gutun ati yn llatai*

Claf wyf eisiau cael y ferch,  
Dwyn unwaith i'm dyn annerch,  
Gwerul, ferch ragorol fain  
4 Hywel Fychan, haul Fechain.  
Pa dir, gwn pwy a dariwyd,  
Pa le draw, pa wlad yr wyd?  
Hwyliaist fal yn un helynt,  
8 Gwn gof chwedl y fargen gynt,  
I adwedd ydd âi eidiawn,  
Neu hydd gwyllt bonheddig iawn;  
Er bwrw gwalch i'r wybr gylchoedd  
12 E ddaw i'r un llaw ydd oedd.  
Ni ddout ti rhag dy sbïaw  
Led dy droed o'th lety draw.  
Ni chawn dy gydfod, tro trig,  
16 Mwy no didro Brawd Odrig,  
Na pha fan y cawn d'annerch,  
Na pha'r sir, ni phery serch.  
Gollyngaist, gwall o angof,  
20 Rai ar a'th garai o'th gof.  
Gollwng, perhôn a'i gollï,  
A wnaflatai i'th dai di,  
Ar draws llif, ag ysgrifen,  
24 Brynhawn hwyr fal brân Noe hen.  
Llywelyn gerdded-ddyn gwael  
A ddanfonaf, ddyn feinael,  
Gŵr a fedr wrth roi dedryd,  
28 Meddan', bedwar ban y byd.  
Ceinioca bu'n gynta' gwaith,  
Yta ac wyna ganwaith.  
Ef a ddaw, er anfodd un,  
32 Ag ateb, Fab y Gutun.  
Diwydiach, felly dwedynt,  
Fydd gwas wedi'i faeddu gynt.  
Y cenau gyda'r cynydd,  
36 Ei arfer, pan faedder, fydd



Caru'r meistr a'i curo  
A'i ganlyn a fyn efô.  
40 Fal hyn, Lywelyn lew iawn  
Delynor heb awdl uniawn,  
Ni bu wawdydd llonydd llwyd  
Ufuddach er pan faeddwyd.  
44 Ni fyn elw ond fy nilid,  
Ar f'ôl, bol y baeol, bid.

*Atodiad iv*  
*Ateb Gwerful Mechain i gywydd llateiaeth*  
*Dafydd Llwyd o Fathafarn*

4 Dafydd o ymyl Dyfi,  
Un glod â Nudd i'n gwlad ni,  
Llywydd â gwayw onwydd gwyn,  
Llew o aelwyd Llywelyn,  
Tâl mewn grisial goreuserch  
Lwys hardd o fetelau serch.  
8 Haerwyd ym herwa o'i dir  
Fal Gutun o foly goetir,  
A chael ffyrdd, heb ochel ffo  
Brawd Odrig yn bwrw didro.  
Ef a ddyfawd wiw Ddafydd  
12 Llwyd ei ben (gwylltiaw y bydd),  
Na cheir rhwng Môn a Cheri,  
Yng nghof dyn, 'y nghyfoed i.  
Ni ffown heb ddig na phenyd,  
16 Ni phery bun yn ffo'r byd.  
Cywir fydd merch, crefydd maith,  
Er tramwy o'r tir ymaith,  
A'm bryd oedd, ond bwrw dyddie,  
20 Ddyfod i gydfod ag e.  
Nid aeth ymaith, doeth emyn,  
Eto ni ddêl at ei ddyn.  
Am y ddwywlad, mi ddaliwn  
24 Y carai Sais y cwrs hwn.  
Ar Ddafydd, wiwryw ddifai,  
Ddoeth ei ben, ydd aeth y bai,  
Gyrru gŵr, gair o'i guraw,  
28 Llwytu drwg yn llatai draw.  
Gwaeth fydd ei 'wyllys, nid gwell,  
A gâi'i amarch a'i gymell.  
Ni wnâi, ni fynnai f'annerch,  
32 Lywelyn ymofyn merch,  
Nac iddo'i hun, bun a ball,  
Na'i beri i neb arall.  
Gynt yr oedd heb ganto'r un  
36 Ac eto fal y Gutun,

- Caru, ceisio crocyswr,  
 Defaid a gyriaid y gŵr,  
 Caru gwlan cyn cweiriaw gwledd  
 40 A chlydwr i'w foch lwydwedd,  
 A'r yd a wnâi iddo redeg  
 Drwy'r ddôr i'r Un Dre' ar Ddeg.  
 Yd o Swydd, ni edis un,  
 44 Ymhwythig oedd amheuthun.  
 Swydd yn nes sydd yn eisiau  
 A fynnai hwn i'w fwynhau:  
 Cynnar, lle gwelo cannyn,  
 48 Y try Duw naturiau dyn.  
 Duwmawrth yn gwisgo damasg,  
 A choler wen uwchlaw'r wasg;  
 Trannoeth, meddai blant Ronwen,  
 52 Yd ar ei war o'r Dre-wen.  
 Drud fydd wrth ei drawiad fo  
 Drwy'r byd heb droi ar beidio,  
 A'i fryd oedd, afraid iddaw,  
 56 Fyned yr ŵyl i Fôn draw.  
 A doeth draw, nid aeth drwodd,  
 Er yn rhaib, ei arian rhodd.  
 Da oedd gael dyddiau gwylion  
 60 Gwin a medd ac wyna ym Môn;  
 Wyna, defeita eto,  
 Gwynedd fraisg, gyfannedd fro.  
 Alecsander a'i werin  
 64 Aeth ar draws i weithio'r drin,  
 I ymwybod rhag bod bâr  
 Mawr duedd môr a daear:  
 Caru fal y cwncwerwr  
 68 Cerdded â gyried y gŵr.  
 O câi Wynedd Uwch Conwy  
 Ni ddwedai na mynnai mwy.  
 Minnau, ar ôl ymannerch,  
 72 Er ys mis a rois 'y merch.  
 Nis gwn, lle'r henwais gannyn,  
 P'le ydd a' rhag pla o ddyn.  
 Nid oes dre' er distrywio  
 76 Neu wlad fawr na weled fo.  
 Peidied, gwerthed y gorthir,  
 Gwastated ynn gwest y tir,

80

Oni rydd ym yn frau dda  
Fwtieth am ei ddefeita.

*Atodiad v*  
*Cywydd dychan cyntaf Dafydd Llwyd o Fathafarn*  
*i Lywelyn ap Gutun*

Da maen cyff Dewi Mynyw,  
A da'r banc dihareb yw,  
Da Llywelyn, dull aelaw,  
4 Y sydd fal yn drydydd draw.  
Ni bydd, y gwawdydd heb gêl,  
Fab y Gutun heb gatel.  
O chlera fynych loywrodd,  
8 Ni bydd yr wyl heb ddwy rodd.  
Gwae fo, gwell oedd gau ei fin  
Oni thau â'i wyth ewin!  
Mynnodd â'i bynnau meinion  
12 Geinioca gan mwya' ym Môn.  
Wyna, defeitia, da fydd,  
Arianna holl Feirionnydd.  
Bid ddiawl, nid arbedodd un  
16 O Lŷn oll i Lanuwllyn,  
Ac yta'r Mars, goetir maith,  
A Maelor y mae eilwaith!  
Casglu y bu 'ngwlad Bowys  
20 O dda bath mwy na'i ddau bwys!  
Da a geir, rho Duw i gyd,  
Heb ei ennill mae'n benyd.  
A gasgal am farch malen  
24 Ni thy' mwy na gwenith hen.  
Meddai Syr Rhys, modd syrêw,  
'Mae pardwn i'r mab byrdew.  
O Garno hyd ar Gornwel  
28 I geinioca'r dyrfa y dêl,  
Am goll'i farch diarchen  
A dalai swllt, dulas, hen.'  
Haws i werin, mae'n sarrug,  
32 Holl Gymru dalu gwerth dug,  
Na thalu, 'm Duw a Theilo  
A Chadfarch, werth ei farch fo.  
O Geri 'dd aeth i Gaerddydd,  
36 O Lan Dyfi i Lwyndafydd,

O Gaerwedros dan grwydraw  
 I Enau'r Glyn ar y glaw.  
 40 O Fachynllaith dug daith deg  
 I Gowres a Thre'r-Garreg;  
 O Gaersŵs i Groes Oswallt,  
 O dir y Rhos i'r dŵr hallt.  
 Ni bu, a ni a'i beiwn,  
 44 Hobi-hors un rhaib â hwn.  
 Ni chasgl un â chwe chaged  
 Y sy draw'n ei ddwy ystrêd.  
 Oes grupul ag ysgrepan,  
 48 Na dall, nac angall na gwan,  
 Un ymbil, er Sain Silin,  
 Er y gwaed a wneir o'r gwin,  
 Ac er y Grog aur ei grwys?  
 52 Am un geiniog mae'n gynnwys!  
 Ni bu yn cyrchu naw côr  
 Druthiwr well draw wrth allor.  
 Gresyn oedd na châi Groes Naid  
 56 I gynnull da rhag enaid.  
 Ystyried, pan fo'n rhedeg,  
 Llywelyn â'i delyn deg,  
 Oes bechawd pan fo'r fawd fach  
 60 Ar y drem, na chur drymach?  
 Murnio da, marw'n y diwedd,  
 A da'r byd nid â i'r bedd.

*Atodiad vi*  
*Ail gywydd dychan Dafydd Llwyd o Fathafarn*  
*i Lywelyn ap Gutun*

Eirchiad yn siarad y sydd,  
Ceiniog cau, canu cywydd,—  
Llywelyn, meddyn' i mi,  
4 Delynor hyd yleni.  
Danodes, dewin ydoedd,  
Im erchi dim, eirchiad oedd;  
Hen adill a ddanodai  
8 I wraig wyl un gŵr a gâi,  
Ac iddi hi, nid gweddw hon,  
Gan gordderch, gynau gwyrddion!  
O chlyw im (ni chël amarch)  
12 Erchi na milgi na march,  
Medd y bardd gormodd ei bwn,  
Truthiwr oedd, trethu'r oeddwn!  
Ei swydd ef hyd yn Nhrefawr,  
16 Ar hyd y Mars, rhuad mawr,  
Erchi rhyg, a'r ceirch i rai,  
A'r puryd nis dirperai.  
Mynnodd gan wŷr y menni  
20 Bynnau meirch, heb un i mi.  
Â'i fîn y'u heirch, dewin dig,  
Ac â'i ddwylo Gwyddelig.  
Bysedd sydd i'r siabaswr,  
24 Ac ewin gorn gan y gŵr.  
Ag yntau a'i ddeugeintant  
Ni bu'n eich oes neb un chwant.  
Mwy ei olud na milwr  
28 Yn trethu Cymry o'u cwr.  
Ni ad dim, myn Sain Thomas,  
Na myn brith, na mân na bras,  
Na dafad yn rhad yrhawg,  
32 Nac oen gwyn nac un geiniawg.  
Gwael fydd bod dwy gelfyddyd  
Ganddo i gribinio byd,  
Dwygrefft, wŷr odidawgradd,  
36 A'r naill grefft nid ynnill gradd.

Edwi a wna yn ddioed  
 Egin ac imp gwan i goed.  
 Telynor fu'r mawrior mau,  
 40 Lywelyn, fil o wyliau;  
 Weithian, ym oedran Medrod,  
 Yma yn fardd y myn fod!  
 Nid eistedde, gledde glas,  
 44 Islaw beirdd salw heb urddas;  
 Cadair, myn delw Fair, a fyn,  
 Ac aur brith ar gwr brethyn!  
 Telynawr bostfawr ni bydd,  
 48 Ni edir yntau'n wawdydd!  
 Y gŵr gwych â'r geiriau gwiw  
 A ddelir rhwng y ddwyliw.  
 Pan fu'r gad rhwng yr adar  
 52 Gwyllt a'r anifeiliaid gwâr,  
 Ni ddôî'r ystlum o'r trumoedd,—  
 Llechu rhwng y ddeulu 'dd oedd.  
 Cyfeillach bellach ni bydd,  
 56 Mwy no lleidr mae'n wylliedydd,  
 Ac fal hyn Llywelyn Llwyd  
 O'i ddwyradd a ddiwreiddwyd.  
 Nis cymer y glêr eraill,  
 60 Hwsmon llesg, nis myn y llail!  
 Pwy nis geilw, pen ysgeler,  
 Oes dalm a'i clyw, ystlum clêr?



# Nodiadau

## 1

Yn y cywydd hwn mynega'r bardd alar ar farwolaeth Gruffudd, ei fab.<sup>1</sup> Y mae'n un o nifer o gerddi marwnad i blant sydd ar glawr,<sup>2</sup> cerddi a nod-weddir gan fynegiant mwy dwys a phersonol na'r marwnadau confensiynol, cyhoeddus eu naws, i arweinwyr. Ni wyddys sut y bu farw Gruffudd na faint oedd ei oedran, ond awgryma Dafydd Johnston mai tua un ar ddeg oed ydoedd gan ei fod yn ddigon hen i fedru cynghori ei dad i reoli ei dymer (llau. 19–22).<sup>3</sup> Yn y gerdd gwelwn y bardd ar drugaredd teimladau stormus: y cwbl a ddymuna yw marw er mwyn cwrdd â'i fab eto, ac nid oes unrhyw ymgais i ymgysuro neu ymdawelu yng ngobaith ac addewidion y ffydd Gristnogol.

1 **ar** Cydier wrth *afrwydd*.

3 **diwynodd** Amrywiad ar *difwyno*, gw. GPC 987.

4 Cf. marwnad Lewys Glyn Cothi i'w fab, GLGC 513 (237.52) *iso'n fy myw, Siôn fy mab*.

21–2 Fel y dywedir yn GyB 93, wrth drafod cerddi Llywelyn ap Gutun, 'Mae'r cerddi hyn yn cyfleu personoliaeth eofn a byrbwyll, a diau mai dyna'r rheswm paham y bu i'w fab ei gynghori i osgoi cynnen ffôl.'

25 **oni** Disgwyliid y ffurf *onid* oherwydd y llafariaid sy'n dilyn yn *elwn* ond hepgorwyd y *-d* er mwyn y gynghanedd.

29–30 Fel y sylwir yn GyB 93, fersiwn yw'r cwpled hwn o'r ddihareb a geir yn W. Salesbury: OSP [37] *Nyd hwyrach yn y varchnat, croen yr oen, na chroen y dauat*; cf. hefyd Hen B 35 (92.1–2) *Mae gyn amled ar y farchnad / Groen yr oen â chroen y dafad*. Ar ddiarhebion yn llenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol, gw. Richard Glyn Roberts, 'Y Traddodiad Paremiolegol yng Nghymru'r Oesau Canol I. Rhai Diarhebion Cydwladol', *Dwned*, xi (2005), 19–33; *id.* 'Y Traddodiad Paremiolegol yng Nghymru'r Oesau Canol II. "y reyn oll sydd yn llawn diarebion"', *Dwned*, xii (2006), 31–47.

29 **unawr** Adf., nid a.

<sup>1</sup> Fe'i golygwyd, ynghyd â chyfieithiad S., yn GyB 93–7.

<sup>2</sup> *Ib.*

<sup>3</sup> *Ib.* 14.

- 34 **o'i flaen fyth** Derbynnir darlleniad llsgr. V er mwyn y synnwyr. Y llsgr. honno yn unig a'i rhydd ond hi hefyd yw'r llsgr. gynharaf o ddigon. *o flaen fais* a geir yn y mwyafrif mawr o'r llsgrau. eraill, a gellid deall *blaen* i olygu 'tu blaen'; serch hynny, nid yw ei arwyddocâd ynglŷn ag *ais* yn eglur. (Posibilrwydd arall fyddai cynnig y diwygiad *aes* 'tarian' a'i ddeall yn ffigurol am Grist (gw. GPC<sup>2</sup> 91), er na cheir y darlleniad yn y llsgrau.). Ymddengys mai at lun o Grist a oedd gan y bardd ger ei fron y cyfeiria'r geiriau *o'i flaen*.
- 35 Cf. GLGC 31 (10.58) *a newydd wylaw yn ddialedd*.
- 37–40 Llau. ansicr eu harwyddocâd ond cyfeirir yn GyB 93 at hen goel a drafodir yn J.G. Frazer, *Taboo and the Perils of the Soul* (third ed., London, 1914), 94–5, fel esboniad posibl arnynt. Yn ôl Frazer, '... we can now explain the widespread custom of covering up mirrors or turning them to the wall after a death has taken place in the house. It is feared that the soul, projected out of the person in the shape of his reflection in the mirror, may be carried off by the ghost of the departed, which is commonly supposed to linger about the house till the burial.' Os felly, dweud y mae Llywelyn ap Gutun y buasai'n dda ganddo pe bai ei enaid wedi ei gipio ymaith gan ysbryd ei fab gan y buasai hynny, o leiaf, yn ei ddwyn i gysylltiad ag ef. Nid yw'r goel yn un Gristnogol, ond (os yw'r dehongliad o'r llau. yn gywir) ymddengys fod y bardd yn ei chymryd o ddifrif.
- 40 **dim a fynnai** Câl'r mab unrhyw beth a fynnai gan ei dad (deallir y gn.gof. *a o flaen oedd*).
- 42 **addewais** '[Yr hyn a] addewais'. Y tebyg yw mai addewid am atgyfodi mab y bardd a olygir, fel yr atgyfododd Beuno Sant rai o'i gydnabod.  
**saint** Gallai hefyd fod yn e.un. (gw. GPC 3169 d.g. *saint*<sup>1</sup>) yn cyfeirio at sant neilltuol.
- 46 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni thrinnir *chwiorydd* yn ddeusill.
- 49 **rhyfedd o helynt** Darlleniad a geir yn llsgr. V yn unig (cf. ll. 34n).
- 51–2 Ystyr y cwpled, fe ymddengys, yw fod rhywun ifanc yn marw yr un pryd â rhywun llawer hŷn, h.y., cyn ei amser. Os felly, y mae tinc dihareb i'r geiriau; cf. y dywediad S. '*Those whom the gods love die young*'.
- 55 **byrroes** Gan fod *oes* yn eb., disgwylid *berroes*, cf. darlleniad llsgr. J *feroês*, ond nid yw'r beirdd yn gyson bob amser yn hyn o beth. Posibilrwydd arall yw fod y gair yn a. gyda *byrr-* yn cyfeirio naill ai at *yfory* (h.y., y mae *yfory* yn ddiweddedd oes fer) neu at y bardd ('boed [gŵr] byr ei oes'). Os yr olaf, ni fyddai'r newid o'r trydydd prs. i'r prs. cyntaf yn *foes* yn ll. 56 yn chwithig gan y digwydd y math hwn o beth yn fynych ddigon yn y farddoniaeth. (Treiglir y goddr. a'r traethiad fel ei gilydd ar

ôl *bid* yn y cyfnod, gw. Treigladau 314–16.)

56 **bo** Yn llawn, *a fo*, a chydier wth *yfory* yn y ll. flaenorol sy'n e., nid yn adf., yno.

**Dydd Farn** Cywasgiad o *Dydd y Farn*.

## 2

Cywydd yw hwn i erchi dau bentan haearn (S. '*firedog*' neu '*andiron*') gan ofaint o'r enw Dacyn a Gutun. Dywedir am Gutun fod *Gwaith ei dân o Fro Danad* (ll. 15) a chyffelybir y pentanau haearn i *Hyddod dan Feifod* (ll. 33). Ymddengys, felly, mai yn rhywle yn nhueddau dwyreiniol canolbarth Powys yr oeddynt yn dilyn eu crefft.

Y mae amgylchiadau cais Llywelyn ap Gutun yn haeddu sylw. Deallwn (llau. 17–24) fod rhyw gydnabod dienw i Gutun y gof—noddwr, fe ymddengys—wedi penodi bardd o'r enw Llelo Brydydd i erchi'r pentanau haearn ond bod Llywelyn ap Gutun wedi gwneud ei gais ei hun amdanynt drwy gynnig cerdd well i'r gofaint. Trawsfeddiannodd y cais gwreiddiol mewn modd ymwithgar ac ymffrostgar a chyfiawnhau ei hun trwy fychanu dawn Llelo Brydydd a honni nad oedd angen y pentanau haearn ar y noddwr sut bynnag gan ei fod ef a'i aelwyd mor arw a chyntefig. Yn wyneb yr amgylchiadau hyn, nid yw'n syndod nad enwodd Llywelyn ap Gutun noddwr Llelo Brydydd.

Ceir cywydd gan Wiliam Cynwal i ofyn am ddau bentan haearn gan Siôn ab Edwart Llwyd o Lasynys, sir Ddinbych, dros Ifan Llwyd ap Dafydd o Nantymynach ym mhlwyf Mallwyd ym Meirionnydd.<sup>1</sup> Byddent yn sicr yn gaffaeliad i aelwyd a sonia Llywelyn ap Gutun am eu defnyddio i rostio cig (llau. 61–2).

Ceir cerddi eraill sy'n ymwneud â gofaint. Mewn cywydd i ofyn bwced, y mae Tudur Aled ar yr un pryd yn marwnadu gof o'r enw Ieuan ap Deicws, ac fel Llywelyn ap Gutun, cyffelyba ef i Dubal (gw. ll. 12n). Ceir cywydd gan Ieuan ap Tudur Penllyn i ofyn cleddau gan y gof Ieuan ap Gruffudd ap Cynfrig o Ffriwlwyd dros Ieuan ap Robert ap Meredith o Eifionydd,<sup>2</sup> cywydd gan Rys Goch Eryri i ofyn baslart gan of o'r enw Dafydd ap Hywel o Bebyllda ym Mhowys,<sup>3</sup> a chywydd gan Syr Hywel o Fuellt i geisio clo cont gan y gof Hywel ap Gruffudd.<sup>4</sup>

<sup>1</sup> Rhiannon Williams, 'Testun Beirniadol o Gasgliad Llawysgrif Mostyn 111 o Waith Wiliam Cynwal, ynghyd â Rhagymadrodd, Nodiadau a Geirfa' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1965), 225–7, 400 (cerdd 73).

<sup>2</sup> GTP 80–1 (cerdd 45). Sylwyd hefyd ar ddychan i *Mab y gof* gan Fadog Dwygraig yn GMD cerdd 13.

<sup>3</sup> IGE<sup>2</sup> 327–9 (CVIII).

<sup>4</sup> CMO<sup>2</sup> 116–19. Sylwer hefyd ei bod yn bosibl fod Lewys Môn yn of yn ogystal ag yn fardd, gw. GLM xiv–xv; gw. hefyd uchod td. 5.

Dengys y cyfeiriad at frwydr Banbri (ll. 16n) mai rywbyrd wedi'r digwyddiad hwnnw ym Mehefin 1469 y cyfansoddwyd y gerdd.

- 2 **teiroes byd** Sef y byd o ran ei bresennol, ei orffennol a'i ddyfodol, y byd yng nghyflawnder ei amser.
- 4 **o'r beutu gof** Llsgr. *A ir bati go, B ir batig of*. Y mae *bati* a *batig* yn ffurfiau anh., a dichon fod y testun yn llwgr. Diwygir, gan hynny, er yn betrus. Ystyr y ll., felly, yw 'Pe bai can gof o'r ddeutu / o gwmpas'; h.y., byddai'r ddau of yn cyflawni camp i'r bardd (*Anturiaeth a wnaent erof*, ll. 3) hyd yn oed pe baent yng nghanol cant (h.y. nifer mawr) o ofaint eraill. Un enghraifft o'r ymadrodd *o'r peutu* a geir yn GPC 2791 d.g. *peutu*, a honno o'r 16g. gan Wiliam Cynwal. Gellir ystyried *beutu* yn amrywiad ar *peutu*, gw. *ib.* 277.
- 5 Dymunir i'r gofaint weddio ar Dduw er mwyn, fe ymddengys, iddynt gyflawni eu gwaith yn iawn.
- 6 **dwyoes hon** Sef y presennol. Ymddengys mai at y ddau of y cyfeiria *dwy-*, h.y., mai ffordd gywasgedig sydd yma (gyda pheth ailadrodd ar ystyr *ddau* yn yr un ll.) o ddweud 'dau of yr oes hon'. Sylwer bod *hon* yn un.: er mai dau wrthrych a ddynodir gan y ffurf ddeuol *dwyoes*, trinnir y gair fel e. un.; cf. ll. 44n.
- 7 **Dacyn** Dyma'r cyntaf o'r ddau of a enwir; enwir y llall yn ll. 13. Ffurf yw *Dacyn* ar yr e.prs. *Deicyn*, gw. G 323.
- 9 **o'i gyfair** '[Wrth fynd] tuag ato'.
- 10 **pen ... ffon** Sef y blaen metel pigfain ar ben coes gwaywffon.
- 12 **twybil** Benthyciad o'r S. *twibil* 'two-edged axe', GPC 3663; 1547 yw dyddiad yr enghraifft gynharaf yno.  
**Tubal** Sef Twbal-Cain, y gof a ddisgrifir yn Gen iv.22 fel *cyfarwyddwr pob un sy'n gwneud cywreinwaith pres a haearn*. Tyfodd traddodiad amdano yn yr Oesoedd Canol fel y gof cyntaf. Cf. GRhGE 5.41–2 *Gwŷyr gelfyddyd, seithbryd sâl, / Hynod obaith, hen Dubal*; GHD 25.27–8 *Tŵr wrth unllaw, torth wenllwyd, / Tybio ôl llaw Tubal llwyd*; TA 449 (CXV.19–20) *I law Tubal y tybiwn— / A fydd fyth of oedd fath hwn?*
- 13 **Gutun** Enw'r ail of. Y mae'n ddiddorol, ar un olwg, mai dyna oedd enw tad Llywelyn ap Gutun, yr un modd ag y mae [L]*lelo*, bardd arall (ll. 20), yn ffurf anwes ar Lywelyn, enw awdur y gerdd; ond ymddengys mai cyd-ddigwyddiad yw hyn.  
**ynys** Ni ddywedir pa ynys (sef 'ardal', y mae'n debyg) ond ymddengys mai [B]*ro Danad* (gw. ll. 15n) a olygir.
- 14 **dewr** H.y., 'gŵr dewr'.
- 15 **Bro Danad** Sef yr ardal o gwmpas Afon Tanad, sy'n 'codi ar Ferwyn ac yn rhedeg heibio i Bennant Melangell, Llangynog, Llangedwyn, a

Llanfihangel ym Mlodwal (Llanyblodwel), gan ymuno ag Efyrnwy yn Abertanad tu uchaf i Lan-y-mynech', EANC 20. Efallai, yn fwy penodol, mai Abertanad a olygir, trefgordd ym mhlwyf Llanyblodwel yn swydd Amwythig, gw. WATU 4.

- 16 **cŵn** Peth cyffredin yn y farddoniaeth oedd cyfeirio at y gelyn fel cŵn, gw. R. Wallis Evans, 'Prophetic Poetry', yn GWL ii<sup>2</sup> 267; gthg. yr ystyr yn llau. 38, 58.

**Banbri** Cyfeiriad at frwydr Banbury (neu Edgecote, fel y cyfeirir ati gan amlaf yn Saesneg), Mehefin 1469, pan laddwyd llawer o bendeffigion Cymru a oedd yn gefnogwyr Plaid Iorc, gan gynnwys Wiliam Herbert, Iarll cyntaf Penfro, a'i frawd Rhisiart. Ystyrid y frwydr a'i chanlyniadau yn drychineb llwyr gan y beirdd; gw. WWR<sup>2</sup> pennod 8; CLC<sup>2</sup> 33. (Ar union ddyddiad y frwydr, gw. William Gwyn Lewis, 'The Exact Date of the Battle of Banbury, 1469', *Bulletin of the Institute of Historical Research*, lv (1982), 194–6.)

**cad** Ffurf amhrs.grff.myn. y f. *cael*. Y goddr. (rhesymegol) yw *Gwaith ei dân* yn y ll. flaenorol.

- 17–26 Ar gynnwys ac arwyddocâd y darn hwn, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

- 17 **chwedlau** 'Geiriau', h.y., cywydd Llywelyn ap Gutun.

**siamplau** 'Patrymau', h.y., mydrau i'w hefelychu.

- 18 **trais golau** 'Grymuster disglair', cyfeiriad at eofndra cymeriad a gwycheder cywydd Llywelyn ap Gutun. Ar *trais*, gw. hefyd l. 25n.

**tros ei gilydd** 'Yn lle ei gymydog / ei gydnabod'.

- 20 **Llelo Brydydd** Ni wyddys dim mwy am y bardd hwn. Ar y ffurf *Llelo*, gw. ll. 13n.

**cywydd gwan** 'Gwan ei gywydd', ymadrodd ansoddeiriol yn goleddfu [*L*]lelo *Brydydd*, er y gellid hefyd ei ddeall yn sangiad; cf. 16.3. Cyfeirir naill ai at y cywydd a gyflwynodd Llelo Brydydd yn ei gais ar ran ei noddwr am y pentanau haearn neu ynteu at ei farddoniaeth yn gyffredinol.

- 22 **wrthyn** Sef y pentanau haearn.

- 23 **bwth** Cf., e.e., GGDT 13.97 lle y disgrifia Trahaearn Brydydd Mawr Gasnodyn fel *Pryf waethwaeth ei faeth o fythau—Cilfái*.

- 25 **a dynn gwys** Ystyr *tynnu cwys* yw S. 'plough a furrow', gw. GPC 3681. Gellid deall y geiriau, felly, i olygu bod Llywelyn ap Gutun yn amaethwr. Fodd bynnag, gall *cwys* olygu 'clwyf' hefyd, *ib.* 655 (e.e., GDG 8.18 *Cwys dewgur i'r costogion!* (Dafydd y Coed)) a dichon mai 'peri clwyf' yw'r ystyr yma. Byddai hynny'n gyson â chymeriad Llywelyn ap Gutun; cf., e.e., ei ddefnydd o'r gair *trais* yn ll. 18 *Trais*

*golau*, 3.3 *Trais dolur, troes a'i dyly*, 10.61 *[t]rofa drais*, 14.27 *Trais amlwg yw tros ymladd*, 15.26 *Trais enw oll tros Wynedd*.

- 26 **coed** Gellir awgrymu mai coed i wneud arfau (e.e. pastwn neu waywffon) a olygir.

**Powys** Sylwer mai sillaf leddf yw *-wy-* yma; felly hefyd yn 10.53, 13.53, 15.57. Ar y llaw arall, yn 5.13, sillaf dalgron ydyw (ni ellir gwybod pa un yn 3.26, 9.58, 10.67). Yn ôl J. Morris-Jones: CD 241, yr oedd yr *wy* yn *Powys* yn sillaf leddf yn yr odlau hynaf ond yn aml yn sillaf dalgron yn y cywyddau. Ymddengys, felly, fod Llywelyn yn hyblyg yn ei ddefnydd o'r ddeusain yn y gair hwn, ac efallai hefyd fod dylanwad ynganiad tafodieithol yn y cefndir.

- 27 **cerdd** Rhaid deall rhyw air fel *dyma* o'i flaen.

**cerydd oedran** Saif mewn cyfosodiad â *Cerdd ddirist*: bydd llawenydd y gerdd yn bwrw ymaith ddifflostod henaint. Ond gellid hefyd ddeall y ll. (gan hepgor y coma) yn frawddeg enwol.

- 28 Sangiad yw'r ll. sy'n cyfleu mân-ddarlun gwibiog o'r gofaint wrth eu gwaith a chroen eu crimogau chwith yn frith gan wres tân.

**crimog frith** Cf. yr ymadrodd *britho crimog(au)* S. 'to discolour or toast one's shin(s)', GPC 326.

**tu chwith** '[Ar y] tu chwith' (sef y grimog).

- 30 **dwy 'sgyfarn** Cyffelybir y pentanau haearn i ddwy glust gan eu bod o boptu'r tân.

**hyn** Sef y pentanau haearn.

- 31 **pon'd** Llsgr. A *pan ta*, B *pont da*. Diwygir er mwyn yr ystyr. Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *da i enaid*.

- 32 Am eu bod yn cynnal y tân.

- 33 **hyddod** Cyffelybir y pentanau haearn i hyddod; cf. ll. 37n a ll. 38. A oedd eu brigau ar lun pennau'r anifeiliaid hyn? Yn llau. 43–58 cyffelybir y pentanau haearn i lawer o greaduriaid eraill ond efallai fod y disgrifiadau yno yn perthyn mwy i fyd dychymyg pur.

**dan** Efallai mai 'ger' a olygir; cf. Bob Owen, 'Ifan Dylynior', B xviii (1958–60), 30 (ll. 21), *ai dwyn i lwyn dan y lan*.

**Meifod** Plwyf yng nghantref Mechain ym Mhowys, gw. WATU 155.

- 33 **mwylfwy** Ymddengys mai'r ergyd yw fod y pentanau haearn yn edrych i'r bardd yn fwyfwy *tebyg* i hyddod Meifod wrth iddo eu dyfalu.

- 37 **dwy big** Trwynau neu glustiau'r *hyddod* (ll. 38) a olygir.

**tebygwn** Ceir yr hyn y cymherir y *dwy big* iddynt yn ll. 38, ond gellid hefyd ddileu'r coma ar ôl y f. a deall yr ardd. *i* o flaen *Hyddod* yn y ll. nesaf ac wedi ei gywasgu ag ef.

- 38 **hyddod** Gw. ll. 33n.
- 39 **marwor o'r cyd** 'Marwor [sydd yn weddill] o'r bartneriaeth' (cf. ll. 35 *Cymydogath*).
- 41 **dau cannawr** 'Am ddau gant o oriau', ffordd arall o ddweud 'am amser maith'.
- 42 **esgyrn meirch** Sangiad; cf. ll. 34 *Hëyrn yw eu hesgyrn hwy*.
- 43 **diwyd** Fe'i treiglwyd am ei fod yn dilyn y rhif deuol *Dau ysbryd*, gw. Treigladau 61–2 a cf. ll. 60 *i'r ddeuof dda*.
- 44 **wedy'i dwyllaw** Er mai dau *ellyll* sydd, sylwer y trinnir y gair fel e.un., nid ll. megis heddiw, yn dilyn y rhif. *dau*; cf. ll. 46 *Dau gimwch wedi'i gamu*, ll. 54n a ll. 6n.
- 46 **wedy'i gamu** Ar y gystrawen, gw. ll. 44n; cf. ll. 53 *dau gyrgam*.
- 48 **diwedd f'ergyd** Efallai mai 'pen draw / diben fy ymgais daer' neu'r cyffelyb a olygir; cf. y ffordd y cyfeirir atynt yn ll. 51 fel *Dioer angen*.
- 50 **diolfalfryd** 1629 yw dyddiad yr unig enghraifft o'r gair a restrir yn GPC 1024.
- 52 **traenter** 1604–7 yw dyddiad yr enghraifft gynharaf o'r gair a restrir yn GPC 3543.
- 54 **Siôn Sirc** Tad Edward Sirc (gw. td. 5) a thaid y bardd Edward Maelor, gw. *Gwaith Huw Ceiriog ac Edward Maelor*, gol. Huw Ceiriog Jones (Caerdydd, 1990), xx–xxi. Ceir ei enw mewn rhestr o wŷr wrth gerdd a ffynnai yn ail hanner y 15g. a luniwyd gan Gutun Owain, gw. Daniel Huws, 'Rhestr Gutun Owain o Wŷr wrth Gerdd', *Dwned*, x (2004), 83. Nid yw'r achau yn ei grybwyll ond dywedant i Edward Sirc briodi ag Elen ferch Tudur ap Gruffudd ab Ieuan o lwyth Sandde Hardd (sir Ddinbych (Maelor)), gw. P.C. Bartrum: WG2 'Sandde Hardd' 10 (B). Ymddengys i Siôn Sirc fynd ar bererindod i Sain Siâm.
- âi Sain Siâm** Ar yr hen gystrawen, lle yr hepgorid ardd. ar ôl bf. yn dynodi symudiad, gw. GMW 19; Treigladau 227–8. Efallai na ddisgwyliid ei gweld mor ddiweddar, ond cf. GLL 4.33n. Ar rif un. y f. yn dilyn y goddr. ll. *Dau*, cf. ll. 44n. Wrth *Sain Siâm* golygir St. James neu Santiago de Compostella yn Sbaen, cyrchfan enwog i bererinion, gw. DGG<sup>2</sup> 172, 227–8.
- 55 **ân' o'r** Cyfunwyd darlleniadau llsg. B *an* ac eiddo A *or* er mwyn y synnwyr.
- 58 **o** Cymerir ei fod yn cyflwyno goddr. y bf. *rhwymo* yn ll. 57, sef *Ffrrir Bacwn* (ar y gystrawen hon, gw. GMW 161), er y gellid hefyd ei ddeall i olygu 'gan'.
- Ffrrir Bacwn** Sef Roger Bacon (c. 1214–92), 'Doctor Mirabilis', athronydd Ffransisgaidd tra dysgedig; gw. ODCC<sup>3</sup> 144. Cafodd y gair o

fod yn ddewin a'i gymysgu gan rai â Dafydd Ddu Hiraddug, gw. GP xix; M. Kyffin: DFf 248. Cf. GGI<sup>2</sup> 309 (CXX.35–6) *Ni wnâi Becoc na Bacwn*, / *Ni wesgir hawl nas gŵyr hwn*. Y tebyg yw fod rhyw stori y tu ôl i'r cyfeiriad am Roger Bacon yn chwarae cast (weddnewidiol?) â chŵn.

59 **cymhwysa'** Ymddengys mai *gwas* yw'r gwrth. dealliedig a bod angen ei wneud yn addas i gludo cerdd Llywelyn ap Gutun at y ddau of.

60 **cof** Yn yr ystyr 'cerdd'.

61 **pob gwiber** Sef y pentanau haearn.

62 **modrwy bach** Tebyg mai'r hyn a olygir yw cylchoedd ar ben y pentanau haearn y gellid doddi cigweiniau (*bêr*) trwyddynt i rostio cig uwchben y tân.

63 **gyrraf** Deellir [*g*]was (ll. 59) yn wrth.

**lle** 'O'r lle'.

[*yn*] **anguriol** Cydier wrth *Gyrraf*.

65 **dwyoes** Dymuna'r bardd fywyd maith i'r gofaint.

## 3

Yn y cywydd hwn gofyn Llywelyn ap Gutun i Ifan ap Gruffudd ap Siancyn am eifr a bwch. Deisyfa'r geifr trwy awgrymu'n gynnill fod Ifan, a oedd, fe ymddengys, yn byw ym Mechain Uwch Coed (ll. 29), yn eu cael drosto gan drigolion hael Llanwddyn, Pennant Melangell, Hirnant a Llangynog yng nghwmwd cyffiniol Mochnant Uwch Rhaeadr (llau. 8, 15, 18, 20), ond Ifan ei hun a fydd yn rhoi'r bwch iddo (llau. 23–32). Yr oedd cais Llywelyn yn un mawr, ac nid rhyfedd ei fod yn cyfeirio ato fel *Neges maith* (ll. 10). Un gŵr yn unig o'r enw Ieuan ap Gruffudd ap Siencyn a welwyd yn yr achau. Perthynai i lwyth Aleth ac yr oedd yn ddisgynnydd i Gelynin ap Rhirid o Lwydiarth ym mhlwyf Llanfihangel-yng-Ngwynfa (Mechain Uwch Coed) ac fe'i ganwyd, yn ôl Bartrum, tua 1400.<sup>1</sup> Y mae'n ddigon tebygol mai hwn oedd noddwr Llywelyn ap Gutun. Canodd Ieuan ap Huw Cae Llwyd yntau gywydd lle y sonia lawer am eifr, gan briodoli iddynt rai o'r un nodweddion ag a grybwyllir gan Lywelyn ap Gutun.<sup>2</sup>

1 **ar** 'Er mwyn', gw. GPC 173 (9).

<sup>1</sup> P.C. Bartrum: WG1 'Aleth' 7. Cf. Evan fab Griffith fab Jenkin, mab *The Cryth* ym Meifod a Pheniarth, a grybwyllir yn L. Dwnn: HV i, 278. Yn ôl *l.c.*, yr oedd gan Evan wyres o'r enw Gwenllïan a briododd â *Sir Matthew of Melwern*, ac yn wyneb cysylltiad tybiedig Llywelyn ap Gutun â'r ardal honno (gw. ll. 48n), gellid dadlau fod adnabyddiaeth glôs rhyngddo ef ac Ifan neu hyd yn oed berthynas deuluol. Ar y llaw arall, yn P.C. Bartrum: WG1 *l.c.*, nid estynnir cangen Ieuan ap Gruffudd ap Siencyn o'i dylwyth ymlaen ymhellach na'i ferched (Gwerful, Lowri, Catrin, Mawd a Mallt) ac nis parheir yn P.C. Bartrum: WG2.

<sup>2</sup> HCLI 119–20 (LII), ll. 21 ymlaen.



Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *Troi y*.

3–4 Dychwelodd y bardd i'w fro ei hun ar ôl achosi neu ddioddef ymosodiadau corfforol ar ei grwydriadau yn y Mars.

3 **trais dolur** Deallir *dolur* yn brif elfen—'dolur trais'. Â'r calediad yma, cf. 1.43 *tros dwyloer*.

4 **troed pob didro** H.y., bydded i bawb sydd ar gyfeiliorn droi'n ôl.

**fry** Fe'i defnyddir yn aml yn y farddoniaeth, megis *draw*, heb fod iddo o reidrwydd unrhyw arwyddocâd daeryddol neilltuol; cf. 8.25, 10.23 a'r defnydd o *ucho* yn 8.12, 9.25.

6 [y] **tir** Fe'i henwir yn ll. 8 (gw. ll. 8n).

7 **â chwyn** Llsgrau. *achwyn* ond diwygir er mwyn y gynghanedd.

8 **ywch** Cyferchir noddwr Llywelyn ap Gutun, Ifan ap Gruffudd ap Siancyn (gw. llau. 32–6); cydier wrth [c]wyn yn y ll. flaenorol.

**Mochnant** Sef Mochnant Uwch Rhaeadr, cwmwd ym Mhowys, gw. WATU 158, 296.

13–14 Dweud y mae'r bardd ei fod yn derbyn dwywaith cymaint gan drigolion Mochnant Uwch ac Is Rhaeadr (*dwyrán dir*) ag a dderbyniodd mewn lleoedd eraill.

15 **Llanwddyn** Plwyf yng nghwmwd Mochnant Uwch Rhaeadr, gw. WATU 140, 296.

17 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *Oddi yno*.

18 **Pennant** Pennant Melangell, plwyf yng nghwmwd Mochnant Uwch Rhaeadr, gw. WATU 175, 296.

**Hirnant** Plwyf yng nghwmwd Mochnant Uwch Rhaeadr, gw. WATU 92, 296.

20 **Llangynog** Plwyf yng nghwmwd Mochnant Uwch Rhaeadr, gw. WATU 131, 296.

23 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf. Gellid hepgor y rh.pth., fel y gwneir yn aml yn y farddoniaeth, neu ddarllen *sai'n* am *safai'n* (cf. darlleniad llsgr. A *fai n*, gwall o bosibl am *sai n*).

28 Disgrifiad byw o afr.

29 **ych** Trosiad am fwch gafr (gw. *Bwch* yn y ll. nesaf).

**Uwch Mechain** Manor a chwmd Mechain Uwch Coed yng nghantref Mechain ym Mhowys, gw. WATU 154, 290. Ar gysylltiad tebygol Ifan â'r lle, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod.

30 **bwch** Gwrth. ydyw i'r f. *r[h]ydd* yn ll. 32, nid [c]aem yn ll. 29.

**pechu** H.y., ffrwythloni.

**rhain** Sef y geifr y gobeithia'r bardd eu cael (gw. llau. 27–8).

- 33 **gynt** Gthg. y f. [b]ydd yn yr un ll. sy'n bres. arferiadol neu'n ddyfodol. Efallai mai 'megis gynt' a olygir.
- 34 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *lle y*.
- 35 **taranllais** Cf. HCLl 120 (LII.23–4) *A geifr, er yr heifr hyfref, / Anghwrtais eu llais a'u llef* (Ieuan ap Huw Cae Llwyd). Dyfnach yw brefiad gafr nag eiddo dafad.
- 36 **teirs o Ffrainc** Y mae *teirs* yn air ansicr. GPC 3469 'rhyw fath o orchudd(ion) (?disglair)'. Gall mai benthyciad ydyw o'r S.C. *targes* 'shields'; gw. hefyd GGL<sup>2</sup> 357. Os gorchudd o ryw fath a olygir, yr oedd naill ai'n dod o Ffrainc neu'n debyg i un o'r wlad honno, ond anodd gwybod sut olwg yn union a oedd ar beth o'r fath.
- ffriw** Yn y cyd-destun gallai olygu 'gwedd' neu 'drwyn' neu 'dalcen' neu 'ben', gw. GPC 1315.
- 37–8 Cyfeirir yma ac yn llau. 41–2 at rywioldeb yr afr a'i chysylltiad tybiedig â'r diafol. Fel y dywedir yn GGLl 5.10n, 'Y mae rhyw gyfaredd gwrthun i'r afr mewn llenyddiaeth, ac y mae bob amser yn rhagdybio dihirwch ac anniweirdeb. Ystyrid bod gafr yn un o gydnabod y Diafol, cf. yr ymadrodd gogleddol "Gafr a'm cipio i!", ac yn y dramâu moes portreedid y Diafol ar lun gafr. Mewn llenyddiaeth Ewropeaidd y mae anlladrwyd a grymoedd ffalig yr afr yn ddjarhebol ...'
- 37 **medd-dod ei fin** Blys rhywiol diymatal yr afr.
- 38 **diawl** Gw. llau. 37–8n. Meddylir yma am yr afr fel epil y diafol; cf. ll. 42.
- noethi deulin** H.y., dal cyfathrach.
- 40 **edrywedd** Llsgrau. *i drowedd*. Diwygir i wella'r synnwyr.
- nadredd** Sef y geifr, oherwydd y ffordd neidraidd y dilynant ei gilydd (gw. y ll. flaenorol).
- 42 **ym mreichiau tin** H.y., rhwng coesau ôl y gafresau.
- 44 A adleisir yma ryw ddihareb?  
Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf.
- 45 **brawd da** Efallai na ddylid eu deall yn llythrennol ac mai 'cyfaill' neu'r cyffelyb a olygir. Nid yw'n eglur, er hynny, at bwy y cyfeirir.
- 47–50 Cyfeirir at y difrod a wna geifr; cf. HCLl 120 (LII.35–40) *A'i hamcan ar ddifancoll / Yw cnoi brig y goedwig oll. / Dringad i bob caeadhwyn, / A mynnu llamu 'mhob llwyn. / Ymgrogi wrth gelfi gant / A philo coed ni ffaelant*.
- 48 **tu miliast** Cf. yr e. *Carnedd y Filiast* a geir ar fynyddoedd yn sir Ddinbych a Meirionnydd, ac yn sir Gaernarfon, GPC 2458. Gall mai fel e. lle y dylid deall *tu miliast*.

- Melwern** Plwyf ger Croesoswallt yn swydd Amwythig (S. *Melverley*). Yma, fe ymddengys, yr oedd cartref Llywelyn, gw. td. 2.
- 51–4 Ymddengys mai'r ddadl yw fod y bardd yn haeddu cystal â chyfreithiwr trwy gael nid yn unig y geifr ond hefyd forwyn i'w godro.
- 53 **rhoent** Efallai mai trigolion Mochnant Uwch Rhaeadr, y gobeithiai Llywelyn ap Gutun gael geifr ganddynt (gw. llau. 21–2), yw'r goddrych, ond nid yw'r pwynt o bwys gan na olyga *Oni roent* fawr mwy yn y cyd-destun nag *oni roid*.
- 54 **cidris** Llsgrau. *gidris*, ffurf anh. Fe'i deellir yn bur betrus yn gyfuniad o *cid* a *gris* a *cid* yn fenthyciad o'r S. *kid*, cf. *cidws* 'myn, gafr ...', sydd efallai'n fenthyciad o'r un gair + y terfyniad bachigol *-ws*, gw. GPC 476. Os felly, efallai mai'r hyn a olygir yw rhyw ris neu stondin at odro geifr. (Er diddordeb, ceir trefgordd o'r enw *Cedris* ym mhlwyf Tallyllyn ym Morgannwg.)
- 56 **rhaeandr a'ch rhandir** Llsgr. A *rayandr ach randir*, B *rayandr ich randir*. Ymddengys fod y testun yn llwgr ac anodd cynnig diwygiad a fyddai'n rhoi synnwyr boddhaol a diogelu'r gynghanedd.
- 57–8 Mewn geiriau eraill, bydd y bardd yn gwbl fodlon ei fyd.
- 58 **ywch** 'Gennyth' (sef y noddwr); cf. cystrawen y f. *erchi* a *gofyn* lle y rhagflaenir y sawl y gofynnir rhywbeth ganddo gan yr ardd. *i* (gw. GPC 179, 1434). Gellid deall *ywch* llsgr. B i gynrychioli *uwch* ond ansicr fyddai'r ystyr; cf. ll. 8n.
- Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf.

## 4

Cywydd yw hwn i ofyn i Gutun Siancyn am gi. Cyfeirir yn yr achau at Gutun fab Jenkin fab Ieuan o lwyth Gwyn ap Gruffudd a oedd yn gysylltiedig ag ardal y Trallwng a Llannerch Hudol;<sup>1</sup> fe'i ganwyd, yn ôl Bartrum, tua 1470. Ceir hefyd ŵr o'r enw Gutun fab Jenkin fab John o lwyth Tudur Trefor a oedd yn gysylltiedig ag ardal Llanyblodwel a Chroesoswallt; fe'i ganwyd ef tua 1430.<sup>2</sup> O'r ddau hyn, ar sail oed a lleoliad, efallai mai'r ail sydd debycaf o fod yn noddwr Llywelyn ap Gutun, ond nid oes sicrwydd ai ef neu rywun arall a olygir. A yw'n bosibl mai Guto ap Siancyn, sef Guto'r Glyn yn ôl y farn gyffredin,<sup>3</sup> a gyferchir? Yr oedd cyfeillgarwch rhyngddo a Llywelyn (gw. tt. 2, 10–11). Eto, ni ddisgwyliid i fardd noddi bardd arall, a *Guto* y geilw Llywelyn ef mewn mannau eraill (5.48, 11.2, 49, 54, 15.17, 52), er nad oes dim rheswm pam na allai fod wedi ei alw yn

<sup>1</sup> P.C. Bartrum: WG2 'Gwyn ap Gruffudd' 4(A); L. Dwnn: HV i, 330.

<sup>2</sup> P.C. Bartrum: WG2 'Tudur Trefor' 17(A); L. Dwnn: HV i, 281.

<sup>3</sup> Ar y ddadl ai'r un dyn oedd Guto ap Siancyn â Guto'r Glyn, gw. LIU 238–40.

*Gutun* hefyd. Am gi gwarchod yr oedd Llywelyn yn gofyn, a hynny yn bennaf i lyfu croen ei draed a thrwy hynny ei iacháu o losg eira neu berfigedd (llau. 31–4). Costog fyddai ci o'r fath, a gallai hynny ddynodi mastiff, corgi neu frithgi.<sup>4</sup> Gan mai un [g]ogwta (ll. 8) y dymunai'r bardd ei gael, ymddengys nad mastiff ydoedd.

- 1–2 Cyfeirir at chwedl y dyn yn y lleuad yn cario baich o goed gyda'i gi, delwedd boblogaidd iawn yn yr Oesoedd Canol ac yn ddiweddarach gyda nifer o fersiynau neu amrywiadau arni mewn gwahanol wledydd. Ymhellach, ac am enghreifftiau eraill yn y farddoniaeth, gw. Eurys I. Rowlands, 'Y Baich Drain', LICy iv (1956–7), 172–6.
- 2 **baich ... ben** Yr oedd y baich ar gefn dyn y lleuad ac felly uwchlaw pen y ci.
- 3 **os** A ddylid darllen *oes* (h.y., boed oes iach i Gutun Siancyn)?
- 4 **[yr] ail** Sef yr ail ddyn â chi.
- 10 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *darog ag*.
- 11 **cochi'i harnais** Rhydd GPC 1825 i *harnais* yr ystyron 'gêr ceffyl gwaith (neu ryw greadur arall), offer neu daclau march, cyweirdebau, addurn march, seirch; arfogaeth milwr, rhyfelwsg, arfau; ?pais arfau', ond nid yw'r rhain yn gweddu i'r cyd-destun. Yr oedd i'r S.C. *harneis*, y benthyciwyd y Gym. ohono, yr ystyr 'aelodau rhywiol' hefyd, gw. MED d.g., a dyna ydyw yn CMOC<sup>2</sup> 122 (llau. 33–4) *Da y gwedd, felly y digwyddon*, / *dan lawer pais harnais hon* [mab a olygir] (Huw Arwystli) (gthg. y cyfieithiad '*weapons*', l.c.). Haws credu, felly, mai ystyr *cochi'i harnais* yw arfer ci o lyfu'r rhan o'i gal sydd dan y blaengroen ac sy'n goch ei liw. Y mae'n bosibl, o ran hynny, mai 'ysbaddu' yw ystyr, neu un o ystyron (os oes *double entendre* yno), y f. *diharneisio* yn GSCyf 10.21 *Dwyn Sais a'i ddiharneisio* (Llywelyn ab y Moel): adeg Brwydr Bryn Glas, Mehefin 1402, honnid bod cyrff y Saeson a laddwyd yno gan filwyr Owain Glyndŵr wedi cael eu hanffurfio, gw. J.E. Lloyd, *Owain Glendower* (Oxford, 1931), 52; R.R. Davies, *The Revolt of Owain Glyn Dŵr* (Oxford, 1995), 107, a gallai Llywelyn ab y Moel (a fu'n ddilynwr i Owain), neu ryw ddatgeiniad, fod wedi cyfleu'r ystyr honno drwy'r ystum briodol wrth ddatgan y gerdd gerbron ei gynulleidfa. (Diolchaf i'r Athro Emeritus D.J. Bowen am yr awgrym hwn.)
- 13–14 H.y., byddai'r ci yn gwarchod y domen bob amser dros ei feistr.
- 14 **tomen** Cf. y termau *ci tom*, *costog tom* (gw. GPC 475, 570) a gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod. Tomen ddail neu ysbwriel a olygir lle y byddai'r ci, gellir tybio, yn ymdroi pan fyddai allan o'r tŷ.

<sup>4</sup> Ymhellach, gw. Ifor Williams, 'Nodiadau Cymysg', B xi (1941–4), 81–2; GPC 570; DrOC 192.

- 15–16 ‘Cnoi frigau [ac yntau]’n fwy cyfarwydd â [chnoi] cern hwch nag â [chnoi] croen hydd.’
- 17–18 Cyfeirir at y gred yng ngallu llyfiad ci i iacháu doluriau; cf. llau. 31–2.
- 20 **nes** ‘Gwell’.
- Tomas feddig** Ai’r un gŵr yw hwn â’r meddyg Tomas Dwpa y cyfeiria Llawdden ato yn ei gywydd i ddymuno gwellhad i Faredudd Fychan ap Maredudd o Arddfaelog, gw. GLI 16.9–10n?
- 23–4 Cyfeirir at gyfranc rhwng ci gwarchod a chath (wylt, ond odid) hefyd gan y Mab Cryg, GDC 15.7–8 *Er pan laddawdd, cawdd, y cath llosgynrgrin / Y ci lledfegin llwyd a fegais.*
- 24 H.y., y mae’r ci yn mynegi ei anniddigrwydd (*cwyn*) trwy droi ei gynffon.
- 25 **tawr** *Dawr* yw’r ffurf gysefin ond caledid weithiau i *tawr*, gw. GPC 1076 d.g. *doraf*; GMW 150 a cf. 8.52 *torwn*.
- 29–30 Ymddengys mai’r hyn y mae’r bardd yn ei ddweud yw, pe deuai enaid y ci allan o’i din, y byddai’n mynd yn syth i’w (*O’i*) drwyn, ffordd o gyfleu mor agos yr oedd y din a’r trwyn at ei gilydd.
- 31–2 Cf. llau. 17–18n.
- 33 **perfigedd** Deallir yw ar ei ôl o ran synnwyr.
- 35 **amser rhoddi** Tybed ai’r cyfnod y gellid gofyn am rodd a olygir?
- 36 H.y., bydd cywydd i ddiolch am y ci a fydd yn hwy na’r cywydd hwn i ofyn amdano. Y mae’r geiriau hyn hefyd yn gydnabyddiaeth ddi-ddorol fod y cywydd yn fyrrach nag a ddisgwyliid.

## 5

Yn y cywydd hwn gofyn Llywelyn ap Gutun i Syr Siôn Mechain, person Llandrunio ym Mhowys, am ddwy sbectol, un iddo ef a’r llall i’w gyfaill Owain, mab yr enwog Lywelyn ab y Moel.<sup>1</sup> Yr oedd Syr Siôn Mechain, heblaw bod yn ŵr eglwysig, hefyd yn ddyn cefnog, a’r tebyg yw iddo ennill ei gyfoeth trwy fagu defaid.<sup>2</sup> Ni cheir sôn amdano yn yr achau, ond awgryma Enid Roberts ei fod yn perthyn i linach Gruffudd ap Maredudd, Carreghwfa, a oedd yn ddisgynnydd i Iorwerth Foel,<sup>3</sup> Arglwydd y Waun, Nanheudwy a Maelor Saesneg.<sup>4</sup> Tua 1470 yw’r dyddiad a rydd D.R.

<sup>1</sup> Fe’i golygwyd yn GOLIM 52–3 (Atodiad). Ceir awdl gan Fedo Brwynllys i ddiolch i Watgyn Fychan ap Tomas o Hergest am sbectol, gw. W. Rhŷs Watkin, ‘The Poems of Bedo Brwynllys’ (M.A. Cymru [Bangor], 1909), 54–5.

<sup>2</sup> WCCR<sup>2</sup> 265.

<sup>3</sup> Cf. cywydd Guto’r Glyn i Siôn Mechain, GGI<sup>2</sup> 274 (CVI.30), *Fal hil Iorwerth Foel a’i had.*

<sup>4</sup> GMRh 3, 106–7.

Thomas ar ei gyfer.<sup>5</sup> Canodd Maredudd ap Rhys a Guto'r Glyn, hwythau, i Syr Siôn,<sup>6</sup> ac megis Llywelyn ap Gutun, y maent yn fawr eu clod i haelioni a moethusrwydd ei nawdd. Ymddengys fod Llywelyn ap Gutun (ac Owain ap Llywelyn ab y Moel) yn mynd i oed pan ganodd y gerdd hon (ymhellach, gw. tt. 2–3).

1–2 **bwrw byd / Ar synnwyr** ‘Treulio bywyd yn synhwyrol’, sef, y mae'n debyg, trwy baratoi cywydd (gw. y cwpled nesaf).

3 **Medrod** Fel y sylwa Eurys Rolant, GOLIM xi, cyferchir naill ai Syr Siôn Mechain neu ynteu Owain ap Llywelyn ab y Moel (gw. llau. 4–6n). Gan fod y gerdd yn gais gan *ddau* ŵr ac y byddai angen i Lywelyn ap Gutun grybwyll ei gyd-ymgeisydd a dweud pwy ydoedd, a chan na chrybwyllir Syr Siôn Mechain tan lau. 9–10, tueddir i gredu mai Owain a olygir yma. Arwr Arthuraidd oedd Medrod a ystyrir gan y beirdd, fel rheol, yn batrwm o ddewrder a chwrtseisi, gw. TYP<sup>3</sup> 445–6.

**Main** Fel y dywedir yn GOLIM xi, gall y gair gynrychioli naill ai yr a. *main* neu ynteu'r dref ddegwm Main ym mhlwyf Meifod, cwmwd Mechain. Nid yw Guto'r Glyn na Maredudd ap Rhys, yn eu cywyddau i Syr Siôn Mechain—GGI<sup>2</sup> 273–4 (CVI), 275–6 (CVII), GMRh cerddi 4 a 5—yn crybwyll Main ynglŷn â Syr Siôn, ond yr oedd gan Lywelyn ab y Moel, tad Owain, gysylltiadau â'r fangre honno, gw. GSCyf 76–7. Ar sail enwogrwydd Llywelyn ab y Moel, byddai i Llywelyn ap Gutun grybwyll Main ynglŷn â'i fab Owain yn ffordd o wneud mwy o argraff ar Syr Siôn Mechain wrth ddeisyf arno, a bernir, gan hynny, mai at y dref ddegwm y cyfeirir.

4–6 **Owain / ... / ... ŵyr y Moel** Sef Owain ap Llywelyn ap Moel y Pantri, gw. GOLIM.

**câr ym** Fel y sylwir yn GOLIM xi, gall y geiriau hyn gyfeirio naill ai at Syr Siôn Mechain neu ynteu at Owain ap Llywelyn ab y Moel, er cydnabod nad y cyntaf sydd fwyaf tebygol. Haws credu eu bod yn rhan o'r un llif meddwl ag a geir yn ll. 3 *Medrod Main* ac mai Owain, felly, a olygir (a cf. ll. 3n). Cymer Eurys Rolant, *l.c.*, *câr* i olygu ‘perthynas’, er nad oes tystiolaeth achyddol fod y ddau fardd yn perthyn i'w gilydd. Fodd bynnag, gallai olygu ‘cyfaill’ hefyd, ac os dyna a olyga yma, ni raid honni bod perthynas rhwng y ddau fardd (gw. hefyd tt. 1–2 a cf. 15.52n).

7 **i** Cydier wrth *gywydd* yn ll. 4.

8 **hir ... esgob** Efallai mai ‘a wisgir am yn hir yn esgob’ a olygir. Os felly, a awgrymir dymuniad am weld arwisgo Siôn Mechain yn esgob

<sup>5</sup> D.R. Thomas: HDStA iii, 158.

<sup>6</sup> GGI<sup>2</sup> 273–4 (CVI), 275–6 (CVII); GMRh cerddi 4 a 5.

yn y dyfodol (cf. y ffordd y bydd y beirdd yn dyheu am weld noddwr yn cael ei urddo'n farchog)? Y mae'n bosibl hefyd, ond efallai'n llai tebygol, mai'r ystyr yw '[Gŵr] tal sydd wedi ei wisgo fel esgob' (h.y., yn urddasol). Os felly, cydier *hir* wrth *gwyh* yn y ll. flaenorol.

- 9 **siars** Cf. GGI<sup>2</sup> 274 (CVI.59–60) *Drwy na cheisio'r Cymro cain / Siars na mach, Syr Siôn Mechain!*

**oedd** Cydier wrth *gŵr mwya' iachodd* yn y ll. nesaf.

- 13 Ceir yr un ll. yn union yn GGI<sup>2</sup> 275 (CVII.16).

**Powys** Sillaf dalgron yw *-wy-* yma; ymhellach, gw. 2.26n.

- 14 **llwyn derw** Cyfeirir at dŷ Syr Siôn Mechain. Y tebyg yw mai'r hyn a olygir yw coed o'r *Llwyn derw* (S. 'oak-grove', GPC 2245) i adeiladu'r tŷ yn hytrach na llwyn derw a safai ar ei bwys; cf. cyfeiriadau Guto'r Glyn a Maredudd ap Rhys at yr un adeilad: GGI<sup>2</sup> 275 (CVII.11–12) *Derwgrwt a phlas daeargylch, / Dŵr yn gaer i'w droi'n ei gylch*; GMRh 4.8 *Gorau perchen tŷ pren praff*. Ymhellach ar y tŷ hwn a'i safle, gw. hefyd Enid Roberts, *Tai Uchelwyr y Beirdd 1350–1650* (Caernarfon, 1986), 9–11; GMRh 106. Gellid dadlau hefyd mai ystyr *llwyn derw* yw '[gŵr o] hiliogaeth cedyrn' (ar yr ystyron hyn, gw. GPC 932 d.g. *derw*<sup>1</sup>, 2244 d.g. *llwyn*<sup>1</sup> (c)), ond ymddengys hyn yn llai tebygol.

**annedd** Cf. GGI<sup>2</sup> 276 (CVII.61–2) *Tysilio i lwyddo'r wledd! / Trunio a ato'r annedd!*

**Llandrunio** Plwyf yng nghwmwd Deuddwr, Powys, gw. WATU 108, 264; GMRh 106. Yma yr oedd cartref Syr Siôn Mechain.

- 15 **ar ôl** Deallir *ôl* yn e. yn yr ystyr 'llwybr, hynt' yn hytrach nag yn rhan o ardd. cyfansawdd.

- 16 **dwyr gerdd** Efallai fod yma adlais o'r gofyn yng Nghyfraith Hywel am gerdd i Dduw ac wedyn i arglwydd.

**urddol** Sef Syr Siôn Mechain.

- 17–18 H.y., byddai'r ddau fardd yn gallu gweld yn glir pe caent sbectolau. Cyffelybir golygon gwael i'r niwl a golygon da i'r gwynt sy'n ei chwythu ymaith.

- 19 **gwreinia** Nis rhestrir yn GPC 1706, ond yr ystyr, yn ddiau, fel y dywedir yn GOLIM 91, yw 'hel neu ddal gwraint'; ar *gwraint*, gw. GPC 1699 'pryfed diarhebol o fach, cynrhon, trychfilod ...'; cf. *chweinia* yn y ll. nesaf.

**anardd** Y mae i'r dewis o'r gair hwn arwyddocâd arbennig gan yr odlid ei wrthwyneb *hardd* yn ystrydebol â *bardd* (gw. GPC 1824 am rai enghreifftiau).

- 20 **chweinia** Dyddiad yr unig enghraifft a restrir yn GPC 848 d.g. *chweina* yw 1794.

- 23–4 Yr oedd diffyg ar y llygaid yn golygu lleihau temtasiwn rhywiol.
- 23 **naid** Gall fod yma chwarae ar yr ystyron ‘tynged’ a ‘chyfathrach rywiol’.
- 25–6 Cymherir y llygaid â llygod nos oherwydd bod yr olaf yn ddi-amddiffyn (rhag ymosodiadau anifeiliaid rheibus megis cathod a thylluanod).
- 27 **dalen** Ymddengys mai lensys y sbectolau a olygir, gan gyffelybu eu teneuwch i eiddo papur; cf. awdl Bedo Brwynllys i ddiolch i Watgyn Fychan ap Tomas o Hergest am sbectol, W. Rhys Watkin, ‘The Poems of Bedo Brwynllys’ (M.A. Cymru [Bangor], 1909), 55 *Tros drwyn dau olwyn daliad, yn defyll. / Fegis dau faen cawad / Dail o sug dwy ael is fâd / Yn dala Eigion dau lygad*.
- 28 **dail** Yr un yw ei ystyr (eithr ei fod yn ll.) ag eiddo *dalen* (gw. ll. 27n).
- 29–30 Cf. 7.1–2 *Da gwelais ar lednais lawnt / Doe anelu dyn alawnt*.
- 33 **dolennau** Breichiau’r sbectolau.  
**lliny** Ai cadwyn am y gwddf a olygir i gynnal y sbectol pan fo’n segur?
- 35–6 Datgan y bardd ei hyder y bydd Syr Siôn yn talu am gost y ddwy sbectol.
- 35 **brawdwr** Fe’i deallir yn ffigurol mewn ystyr glodforus.
- 37–8 Y mae’n oblygedig y byddai’r beirdd wedi gallu gweld y maidd trwy’r mwg twym a godai ohono oni bai am safon wael eu golwg.
- 38 **oni** Fel y dywedir yn GOLIM 91, tebyg mai S. ‘*until*’ a olygir (ar y treigladd meddal yn ei ddilyn, gw. Treigladau 377; GPC 2646 d.g. *oni*<sup>2</sup>; cf. 13.52 *oni gawn*).
- 39 **hydd gwaywlym** Cyfeiriad clodforus at Syr Siôn Mechain.
- 40 H.y., gwelant yn ddwbl.
- 45 **tai** Sef tai Llywelyn ac Owain, cf. ll. 41 *ein tai*. Yr oedd eu golwg mor wael fel na allent ddod o hyd i’w cartrefi.
- 47–8 Cellwair sydd yma fod y *Guto* yn amharod i groesawu’r beirdd, ond eu bod hwy am fynd i’w weld sut bynnag.
- 48 **[y] Guto** Guto’r Glyn a olygir yn ôl GOLIM 91 lle y cyfeirir at gywydd Guto i Syr Siôn (gw. uchod). Os felly, efallai mai’r glyn a gysylltir â’i enw a olygir wrth y *gotel* neu ynteu rywle lle yr oedd yn aros ar y pryd. O gofio bod Guto’r Glyn yn ddall ar ddiwedd ei oes, tybed a oes awgrym o hynny hefyd yma?

Cywydd yw hwn sy’n mynegi anniddigrwydd Llywelyn ap Gutun wedi i’w gariad gefnu arno am ryw ddyn arall. Pendilia teimladau’r bardd rhwng



chwant cryf a chasineb. Y mae rhannau o'r gerdd yn anos eu dehongli na'r arfer.

- 3 **hyd** 'Gan mor hir'.
- 5 **y mae** Llsg. B *mae*. Diwygir er mwyn hyd y ll.
- 8 **Suddas** Sef Jiwdas Iscariot, bradychwr Iesu.
- 9 **pan** 'Yn wyneb y ffaith, gan', gw. GPC 2677 d.g. *pan*<sup>1</sup> (d).
- 11–16 Y mae ieithwedd y llau. (yn enwedig *llaw*, *llw*, *Duw*, *allawr*, *clo*, *gŵr*) yn peri meddwl am y stad briodasol, fel pe bai Llywelyn ap Gutun yn briod â'r ferch, ond diau mai dyfalu sydd yma.
- 12 **dwy allawr** Efallai na ddylid deall y geiriau'n llythrennol ac mai 'dyblu'r' *llw* (ll. 11), h.y., gwneud llw neilltuol o gryf, a olygir.
- 13 **coelia'** H.y., 'nid ymddiriedaf' (yn y ferch).  
**elin** Efallai mewn ystyr ffigurol, 'coflaid'.
- 14 **clo** Sef 'clo cont' (S. '*chastity belt*'), ond odid. Ni fyddai Llywelyn ap Gutun yn ymddiried yn y ferch i beidio â charu â dyn arall oni châi hi yr offeryn hwn amdani yn gyntaf.
- 15 **meinwr** Gall ddynodi Llywelyn ap Gutun neu garwr newydd ei gariad. Os y cyntaf a olygir, yna byrdwn y ll. yw 'er iddi ddod yn gariad i mi yn gyntaf'. Gall hefyd mai llygriad yw *myned* o *mynud* / *munud* 'cwrteisi' neu o *muned* 'llaw' (ond ar yr olaf, gw. GPC 2502 d.g. *muned*<sup>1</sup>). Fodd bynnag, a fyddai *meinwr* yn air priodol am ŵr a ddisgrifiwyd gan Syr Rhys o Garno fel *mab byrdew* (At.v.26)—oni bai, wrth gwrs, mai cwbl gonfensiynol yw'r defnydd o *meinwr* yma? Os, ar y llaw arall, y carwr newydd a olygir, gellid hefyd ddehongli'r cwpled yn wahanol trwy ddodi coma ar ôl *myned*, dileu'r un ar ddiwedd y ll. a chydio 'r *meinwr* wrth *Nid gwaeth*.
- 16 **nid gwaeth** 'Nid oes gwahaniaeth / ots [ganddi].'  
**gŵr** H.y., carwr.
- 17 **gwely** Gwely dail a wneid gan gariadon wrth garu allan, gw. GSCyf 10.48n.  
Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *â o'r*.
- 18 **trwyn** Cf. GPC 3632 (b), '... pen blaen (esgid) ...'
- 19–20 Adleisir yma thema serch ofer.
- 20 **plu** Cyfeirir at yr arfer rhwng cariadon lle y byddai'r cariadfab yn gofyn i'r gariadferch wneud penwisg iddo, e.e., o frigau'r coed neu blu aderyn; cf. GDG<sup>3</sup> 88–90 (cerdd 31), 91–2 (cerdd 32), 158–9 (cerdd 59); DGIA 95. Sylwer, er hynny, yn yr achos hwn, mai Llywelyn sy'n rhoi'r benwisg (a cf. llau. 31–2), ac yn llau. 29–30 sonnir amdano ef a'i gariad

yn gwneud penwisgoedd i'w gilydd.

**celu** Y gwrth. yw *plu*, ac efallai mai ystyr eu 'celu' yw bod yn awyddus i ddangos serch at rywun arall ond gan wangelonni.

21 **[y] naill** H.y., y naill o'r ddeuddyn, sef y bardd.

Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *Tosturio a*.

22 **rhai eraill** H.y., y rhai a gafodd yr un profiad poenus â'r bardd.

24 **fyth** Yr ergyd, y mae'n debyg, yw fod Llywelyn yn meddwl ar y pryd y byddai'r ferch yn aros yn driw iddo am byth.

23 **blodau** Cf. GDG<sup>3</sup> 91 (32.21–4) *Gerlant cystal ag eurlen, / O wisg paun i wasgu pen. / Blaen talaith, bliant hyloyw, / Blodau hardd o blu da hoyw.*

25 **oerchwedl** Cf. ll. 8 *Anras ... iddi*.

**iddi** Llsgr. B *idd*. Gallai ddynodi *iddo* neu *iddi*, ond bernir mai cariad y bardd sydd dan sylw a defnyddir y ffurf lawn er mwyn hyd y ll. Sylwer mai wrth *oerchwedl* y dylid ei gydio, nid *archa*' (ar gystrawen *erchi*, gw. G 483; GPC 179).

26 **plu'r ieir** Yr un plu yw'r rhain â'r [*p*]lu *adar* a grybwyllir yn ll. 23. Defnyddia'r bardd y rhodd a gafodd gan ei gariad i ddymuno'n ddrwg iddi.

27–8 Cyffelyba Llywelyn ei hun i lwynog yn lladd gŵydd ond er mwyn ei phlu yn bennaf. Dengys y cwpled nesaf mai'r bwriad y tu ôl i hynny yw eu defnyddio i lunio penwisgoedd iddo ef a'i gariad. Dichon hefyd fod gwrthgyferbynnu rhwng plu gŵydd a phlu iâr (ll. 26) gan y byddai'r cyntaf yn rhywiocach a harddach. Os felly, dyma ffordd y gallai'r bardd ddenu ei gariad yn ôl ato.

27 **henwydd** Fe'i deellir yn gyfuniad o *hen* a *gŵydd* 'gwyllt, anwar'. Disgrifir y llwynog fel creadur bythol wyllt.

28 **gwallt yn rhith gŵydd** Ffordd arall o ddweud 'plu gŵydd'. Cydier yn *rhith* wrth *gwallt*, nid *Anrheithio*.

29 **gwnawn** Gall fod yn 1 ll.grch. neu'n 1 ll.pres.myn. y f. (gydag ystyr ddyf.).

30 **pen gwelw** Ystyr *pen* yma yw 'penwisg, gerlant'; cf. GIG 102 (XXIV.55) *Penwisg welw, ddyn ddielw ddoeth*.

31–2 **bychan ... / ... gribau** 'Bychan [o beth] gennyf ... oedd [rhoi] llwyth o gribau' (ar gyfer penwisg y ferch). Gwrthgyferbynnir haelioni'r bardd yn hyn o beth â'r *het helyg* a gafodd gan ei gariad (gw. ll. 34n).

31 **baich neu ddau** Cyfeirir at *bwn o gribau* yn y ll. nesaf.

32 **crwybr** 'Dil mêl' (S. '*honeycomb*') ond fe'i defnyddir yma'n ffigurol am wallt y ferch. Disgrifia Dafydd Nanmor wallt Llio fel *Crwybr aur*, DN 83 (XXIX.43). O gofio mai euraid yw lliw mêl, tybed ai dyna oedd

lliw gwallt cariad Llywelyn ap Gutun hithau?

- 33 **'n 'y mro** Yn llawn *yn fy mro*. Llsgrau. *ym ro*, a diwygir er mwyn gwella'r synnwyr a chryfhau'r gynghanedd.
- 34 **het helyg** GPC 1846, '*willow garland, chaplet or hat, symbol of disappointment in love*', a cf. yr hyn a ddywed Dafydd ap Gwilym wedi i Forfudd ei siomi, GDG<sup>3</sup> 234 (85.43–4) *Eraill a rydd, deunydd dig, / Am y tâl ym het helyg*.
- Duw ... talo** H.y., boed i Dduw roi ei haeddiant i'r ferch.
- 36 **gwŷn ... dad** Ai galar mab ar ôl marw ei dad a olygir? Gellid diwygio *gwŷn yn cwyn* (gan newid y gynghanedd yn draws fantach), sy'n fwy arferol mewn cyd-destun o'r fath, ond rhydd *gwŷn* yntau synnwyr boddahol.
- 38 **[y] dyn** Sef cariad y bardd. Ceir enghreifftiau yn y farddoniaeth o beidio â threiglo *dyn* pan ddynoda fenyw. Gall hefyd mai'r gynghanedd sy'n gyfrifol am y diffyg treiglo.

## 7

Yn y cywydd hwn disgrifia Llywelyn ap Gutun fab a merch yn caru.<sup>1</sup> Ceir ynddo lawer o ddyfalu a gall fod hyn yn seiliedig ar yr hyn a welodd y bardd â'i lygaid fel sbeciwr digywilydd, er ei bod yn bosibl hefyd mai ei brofiadau neu ei ddychymyg ei hun (neu'r ddau) yw'r ffynhonnell. Portreedir ystumiau'r cariadon—ac yn enwedig goesau'r ferch dros ysgwyddau'r mab—yn y fath fodd fel eu bod yn ymddangos yn annaturiol a bwystfilaidd, ac y mae'n anodd gwybod ai dwysáu blys cnawdol noeth, difyrru, neu ennyn gwrthuni fuasai'r brif effaith ar y gynulleidfa. Y mae diwedd y gerdd (llau. 35–40) yn anghyffredin, oherwydd yno, fel y dywed yr Athro Dafydd Johnston, 'ymddengys fod y ferch ei hun yn cael llais ... lle y caiff gwyno am effaith ei hystum anarferol'.<sup>2</sup>

1–2 Cf. 5.29–30 *Dwy ffynnon loywon ar lawnt, / Da gwelan' yn deg alawnt*.

- 1 **da gwelais** Yn ôl Dafydd Johnston, CMOC<sup>2</sup> 112; 'The Erotic Poetry of the *Cywyddwyr*', CMCS xxii (Winter 1991), 83–4, y tebyg yw fod y geiriau hyn yn adleisio dechrau englyn a briodolir i Ddafydd ap Gwilym—*Doe gwelais cyd â gwialen—o gorn* (CMOC<sup>2</sup> 111–12)—lle yr honna'r bardd iddo weld ceirw'n ymgydio, ac y mae elfen o bos yn y ddau. Dylid nodi, er hynny, mai prin iawn yw'r copïau llsgr. o'r englyn.

<sup>1</sup> Fe'i golygwyd yn CMOC<sup>2</sup> 112–15. Gw. hefyd D.R. Johnston, 'The Erotic Poetry of the *Cywyddwyr*', CMCS xxii (Winter 1991), 83–5.

<sup>2</sup> CMOC<sup>2</sup> 112. Gellid dadlau mai'r bardd sy'n llefaru ynddynt ond ymddengys hynny'n llai tebygol. E.e., a chymryd bod y bardd wedi ei syfrdanu gan olygfa ryfedd, prin y buasai hynny'n effeithio arno yn y modd a ddisgrifir yn llau. 35–6. Gw. hefyd l. 40n.

- llednais lawnt** Yn CMOC<sup>2</sup> 112 (ll. 1) cyfieithir *lawnt* yn '*linen*', sy'n awgrymu bod y mab a'r ferch yn gorwedd ar wely. Fodd bynnag, y mae'n fwy tebygol mai '*lawnt*' (S. '*lawn*') a olygir, gw. GPC 2055 d.g. *lawnt*<sup>1</sup>. Haws fyddai i Lywelyn weld y ddeuddyn yn caru ar y glaswellt rywle yn yr awyr agored (fel y byddai cariadon yn gwneud yn aml yn ôl y farddoniaeth) nag mewn ystafell mewn plasty neu'r cyffelyb. Gan mai mwy arferol yw defnyddio *llednais* ynglŷn â phobl nag ynglŷn â phethau, efallai mai fel e. y dylid ei ddeall yma—'*lawnt* un bonheddig'.
- 3 **trychafael** Amrywiad ar *dyrchafael*; cf. ll. 38 *Trychefwch*. Ni nodir y ffurfiau hyn yn *t-* yn GPC 1144–5, 3636.
- gafaelion** Ll. *gafael* yn yr ystyr 'pren ar lun fforch, sef pâr o nenffyrch neu gyplau yn cynnal nenbren tŷ ...', GPC 1369 (5). Fe'i defnyddir yma yn ffigurol am goesau agored y ferch.
- 5 'Ni fu'r un fain a hir (h.y., y gariadferch) yn hir [ei chorff] tra bu [yn yr ystum honno].'
- 7 **ffordd ... oedd** 'Felly yr oedd'.
- 9 **gyrru** Yn yr ystyr 'gwthio', gw. GPC 1797 (3), ond yma mewn cyddestun rhywiol.
- 10 **dyrchu'i** Llsgrau. AB *drycha i*, C *dyrcha i*. Diwygir er mwyn y rhediad; gthg. CMOC<sup>2</sup> 112 (ll. 10) *dyrcha'i*. Ffurf dalfyredig yw *dyrchu* ar *dyrchafu*, gw. GPC 1144 d.g. *dyrchaf*<sup>1</sup>. Y mae'n llai tebygol mai f. *tyrchu* 'cloddio ...' sydd yma gan na rydd gystal synnwyr yn y cyddestun, a 1800 yw dyddiad yr enghraifft gynharaf a restrir yn GPC 3682.
- crwth** Ar ei ystyron, gw. GPC 616 (c). Fe'i defnyddir yma yn ffigurol am y ferch, am ei thor neu ei chanol, fe ymddengys.
- torch gron** Ymddengys fod coesau'r ferch wedi eu codi dros ysgwyddau'r gŵr a'r traed yn cyffwrdd â'i gilydd; cf. llau. 29–32.
- 13 **tremyniad tro** Byddai'r ystyr 'ymosodwr' (gan ddynodi'r gŵr) yn gweddu i *tremyniad*, gw. GPC 3585 d.g. *tremyniad*<sup>1</sup> (a). Ar ystyron *tro* fel a., gw. *ib.* 3603 a cf. 14.11 *tremynt tro*; efallai mai 'crwm' a olygir yma. Y mae'n bosibl mai'r gystrawen yw *tremyniad dro* (gyda chalediad -d d- > t) ac mai e., felly, yw *tro* yn yr ystyr 'symudiad' neu 'gast', er yr ymddengys hynny'n llai tebygol yng ngoleuni gweddill y cwpled lle y pwysleisir y syniad o grymedd neu grynder. Yn CMOC<sup>2</sup> cyfieithir y ddau air yn '*goblin's shape*', ond gair geiriadurol nad yw'n gynharach na 1632 yw *tremyniad* yn yr ystyr honno, gw. GPC 3585 d.g. *tremyniad*<sup>2</sup>, a byddai'r ystyr '*shape*' i *tro* yn anarferol.
- 14 **cneifio** Yn yr ystyr 'anrheithio, ysglyfio', gw. GPC 519, yn hytrach na S. '*shearing*' megis yn CMOC<sup>2</sup> 113 (ll. 14).
- 15 **pawl** 'Polyn', yma'n ffigurol am gal y gŵr.

- 16 **fal draenog** Fe'i cymerir gyda *Pêl adwyth* yn y ll. flaenorol, gan gyfeirio at allu'r draenog i ymffurfio'n belen.
- carngostog** 'Prif fastiff' a ddeallir yn gyfeiriad at ffyrnigrwydd nwyd y gŵr (cf. ll. 13 *tremyniad*). Yn CMOC<sup>2</sup> 113 (ll. 16) darllenir *ar gostog* ond ni cheir y darlleniad hwn yn y llsgrau. Cyfieithir [*c*]ostog hefyd yn 'spike', ystyr sydd, fe ymddengys, yn gyfieithiad o'r ystyr a roddir iddo yn *Gweithiau Gethin* (Llanrwst, 1884), 230, am 'fath o drosol byr tua llathen o hyd â phwynt yn un pen iddo', gw. GPC 570 (b), ond ni welwyd enghreifftiau o'r gair yn yr ystyr hon mewn Cym.C.
- 19–20 Os deallir *cwrwgl* a [*c*]r<sup>w</sup>th *halen* yn ffigurol, ymddengys mai'r hyn y ceisir ei gyfleu yma yw henwr yn ymgydio â merch oedrannus. Yn CMOC<sup>2</sup> 112 (llau. 19–20) fe'i cyfieithir '*an old man's nape on an old coracle / riveting his salt basket*'.
- 19 **gwarae** Gthg. CMOC<sup>2</sup> 112 (ll. 19) *gwar* (a cf. darlleniad llsgrau. AB), ond dilynir darlleniad llsgr. C er mwyn hyd y ll. ac i wella'r ystyr. Gthg. ll. 23 *Chwarae*.
- 20 **gwrth-hoelio** 1592 yw dyddiad yr enghraifft gynharaf a restrir yn GPC 1727.
- 30 **glas dydd** GPC 1402 (6 (a)) 'toriad neu wawr (y dydd)', ond efallai na olyga fawr mwy na 'liw dydd' yma; cf. CMOC<sup>2</sup> 113 '*by daylight*'.
- 31 **ar draill** GPC 3552 d.g. *traill*<sup>1</sup> '*trailing, rolling, turning ...*'; CMOC<sup>2</sup> 115 '*bent*'.
- 34 **cael bais** 'Cyrraedd y gwaelod'. Ymhellach ar yr ymadrodd, gw. GDG<sup>3</sup> 502.
- 36 **rhwy** Llsgrau. *Rvw* ('rhyw'), ond gan na ddefnyddir yr e. hwn o flaen ffurfiau bf. rhediadol (gw. GPC 314–5 d.g. *rhyw*<sup>1</sup>), fe'i diwygir yn *rhwy* 'yn ormodol' (gw. *ib.* 3110–3111). Posibilrwydd arall fyddai darllen *rhy* (gyda'r un ystyr). Gthg. CMOC<sup>2</sup> 114 (ll. 33) *rhyw ddotiais* a gyfieithir '*as if I was stunned*'.
- 37 **tinhwygwch** Yn GPC 3501 d.g. *tinhwygaf* cynigir yn betrus mai 'bygro, sodomeiddio' yw ei ystyr (efallai o *tin* a (*r*)*hwygo*, *l.c.*; cf. hefyd GTP 50 (29.46) *tinrhwyg wylliad* (Tudur Penllyn)), a chyfieithiad CMOC<sup>2</sup> 114 (ll. 37) o enghraifft y testun yw '*Bugger away*'. Ond nid yw sodomiaeth yn gweddu i'r cyd-destun. Ceir mynych enghreifftiau gan y beirdd o ddefnyddio geiriau—megis *tin* a *hers*—sy'n dynodi pen-ôl merch ynglŷn â chyfathrach rywiol, a gellir awgrymu mai gair cynnil ydyw yn yr achosion hyn am ei man dirgel (cf., e.e., y ffordd y defnyddir *pen* am y geg). Cynigir, felly, mai ystyr *tinhwyo* yw 'cnuchio'n ffyrnig'.
- 38 **trychefwch** Y mae gwrth. megis *caliau* yn ddealedig ar ei ôl; cf. hefyd yr ymadrodd 'codi pais' (merch) ynglŷn â chyfathrach rywiol (e.e., 8.64).

- 39 O safbwynt ei pherthynas gystrawennol â'r ll. nesaf, deallir y ll. hon yn gyfarchiad i rywun â'r goddr. heb ei fynegi.
- 40 **iawn droed** Llsgrau. *iawn troed*, a diwygir er mwyn cywirdeb. Gthg. CMOG<sup>2</sup> 114 (ll. 40) *iawn draed*, darlleniad nas ceir yn y llsgrau. Holl ergyd geiriau'r ferch yw osgoi'r hyn a ddisgrifir yn llau. 35–6 ac annog cael cyfathrach rywiol mewn ystum normal.

## 8

Yn y cywydd hwn gwelir Llywelyn ap Gutun yn cystadlu â'r *Dean* (llau. 29, 55) am ffafr merch o Fôn o'r enw Alswn.<sup>1</sup> Y mae tebygrwydd ei ddisgrifiad o'r gŵr hwn i'r disgrifiad o wrthrych y gerdd nesaf (cerdd 9), Rhisiart Cyffin, Deon Bangor,<sup>2</sup> ynghyd â lleoliad Alswn ym Môn, yn rhoi pob lle i gredu mai'r deon hwnnw a olygir.<sup>3</sup> Yr oedd yn Ddeon Bangor o tua 1480 hyd ei farwolaeth yn 1502<sup>4</sup> ac yn rheithor eglwys Llanddwyn, a gosododd ddelw o Ddwynwen yn un o ffenestri lliw côr Eglwys Gadeiriol Bangor.<sup>5</sup> Dymuna Llywelyn gwrdd ag Alswn mewn [t]ŷ ... o *frwyn* / ... yn *Llanddwyn* (llau. 25–6) ac er mwyn hyrwyddo ei achos ei hun, bychana gymwysterau Rhisiart Cyffin i fod yn garwr i'r ferch. Ar y llaw arall, wrth ymateb i gywydd Llywelyn, dywed Lewys Môn am y Deon, *Ni cheraist ferch, o haerwyd, / ond hen lyfr fal Antwn lwyd* (At.i.23–4).

Dadleuir mai yn y degawd 1480–90 y canwyd y gerdd nesaf (cerdd 9, a gw. y sylwadau rhagarweiniol arni), a byddai'n deg tybio bod y gerdd hon yn ei rhagflaenu ac mai yn yr un cyfnod, felly, y canwyd hithau.

- 2 **tŷ Ddwynwen** Sef eglwys Dwyn neu Ddwynwen yn Llanddwyn, Ynys Môn (gw. hefyd l. 26n). Ar y ferch hon, nawddsantes cariadon Cymru, gw. CLC<sup>2</sup> 204; LBS ii, 387–92. Am dreiglo e.p. ar ôl tŷ, gw. Treigladau 109–10.

**un** Gthg. GLM 49 (XIV.2) *mor* (cf. darlleniad llsgr. E).

- 4 **unwaith** O ran synnwyr, dilyna *a'th welsai*.

<sup>1</sup> Golygwyd y gerdd hon yn GLM 49–52 (XIV). Yno fe'i trinnir fel rhan o ymryson â Lewys Môn (gw. teitl y gerdd ddilynol, *ib.* 53). Ond ni sonia Llywelyn ap Gutun ddim am Lewys Môn yn ei gerdd, a chŵyn ynghylch Llywelyn wedi ei chyfeirio at Risiart Cyffin yw cerdd Lewys.

<sup>2</sup> Cf., e.e., 8.64 [c]wd byr, 9.63 *Ceilio*g byr.

<sup>3</sup> Cf. hefyd raglithiau llsgrau. DH.

<sup>4</sup> ByCy 505; WCCR<sup>2</sup> 321–2; John Le Neve, *Fasti Ecclesiae Anglicanae 1300–1541: XI The Welsh Dioceses*, compiled by B. Jones (London, 1965), 6. Yn ôl Enid Pierce Roberts, 'Crefydd yr Uchelwyr a'u Beirdd', *Efrydiau Athronyddol*, liv (1991), yr oedd Cyffin 'o bosibl, yn un o Gyffiniaid dyffryn Tanat'. Am gerddi eraill i Risiart Cyffin, gw., e.e., GGI<sup>2</sup> 245–9 (cerddi XCIV, XCV) a cf. *ib.* 250–8 (cerddi XCVI–XCVIII).

<sup>5</sup> GSdT 180.

- 5 **lle ... f'oedi** Dyma sefyllfa'r bardd, mewn gwrthyferbyniad â'r dyn dall (deallir *lle* i olygu S. 'whereas'); cf. ll. 9n.
- 9 **araf yr oed** H.y., y mae'r ferch yn hwyrffrydig i ganiatáu oed, y bardd yn orawyddus, neu'r amgylchiadau'n anodd.
- 10 **nad ym unoed** H.y., 'nad ydym yn mwynhau oed ar y cyd â'n gilydd'. Gthg. GLM 49 (XIV.10) *nâd ym unoed* 'nad yw'n gadael unoed imi' (ar *nâd*, cywasgiad o *na ad*, gw. WG 381), ond golyga hynny newid o'r ail berson (sef y cyfarchiad *wen*) i'r trydydd o fewn yr un ll. (er y digwydd hynny weithiau yn y farddoniaeth). (Sylwer mai e., nid a., yw *unoed* yn ll. 19.)
- 12 **ucho** Cf. y defnydd o *fry*, gw. 3.4n; cf. 9.25, 13.68.
- i'm oes** Gthg. GLM 49 (XIV.12) lle y rhennir y geiriau '*i moes*.
- 13 **arwydd** Efallai mai 'bendith' a olygir yn y cyd-destun.
- 14 Dichon fod yma gyfeiriad at yr arfer o offrymu ceiniogau (a'u plygu) wrth ffynnon sant neu santes, sef Dwynwen yn yr achos hwn, gw. GSDT 13.38n. Deallir *rhown* yn 1 un.amhff.myn./dib. y f. *rhoddi* yn hytrach na'r l ll.pres.myn.
- 16 **dail** Sef gwely dail ar gyfer cariadon, gw. 6.17n.
- 17–22 Sylw diddorol ar gyflwr Môn yng nghyfnod y bardd. Yr oedd yn ddi-god (*noethdir*) ac ymddengys mai'r rheswm am hyn oedd fod y tir wedi ei ddefnyddio i dyfu ceirch; gthg. GIG 29 (VI.43–4) *Yr ynys dywell, cell cerdd, / Y gehwid Môn wegilerdd*.
- 21 **Nanconwy** Cwmwd yng nghantref Arllechwedd, sir Gaernarfon, gw. WATU 162. Efallai mai'r rheswm y cyfeiria Llywelyn at Nanconwy yn benodol yw ei fod, fel y Graig Lwyd, Cefn Digoll, &c., yn lloches nodedig i herwyr a gwylliaid (gw. Enid Roberts, 'Dafydd Llwyd o Fathafarn a'i Gefndir', *Traeth xxxiii* (1965); 53; *ead.*, *Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caernarfon, 1981), 9), a byddai'n rhaid i'r cyfryw le fod yn dew gan goed i ymguddio'n ddiogel. Nanconwy oedd yr agosaf i Ynys Môn o'r llochesau hyn.
- 22 **mwy** Sef mwy o oedau, yn wahanol i'r *unoed* a grybwyllir yn ll. 19.
- 25 **tŷ fry o frwyn** Ymddengys fod rhyw adeilad yn Llanddwyn lle y gallai'r bardd aros. Ai defnydd y to a arwyddoceir gan *o frwyn*? Ar *fry*, gw. 3.4n.
- 26 **lle iawndda** Sef y [t]ŷ ... o *frwyn* (ll. 25). Bron nad yw [t]ŷ ... / ... *iawndda* yn ffurfio undeueb (S. 'hendiadys')—'tŷ ... mewn lle ...', cf. 9.16n.
- Llanddwyn** Gorynys yng nghwr eithaf plwyf Niwbwrch ar Ynys Môn lle y sefydlodd Santes Dwynwen (gw. ll. 2n) ei chartref.
- 27 **draw mewn drych** Ymddengys fod y bardd yn meddwl am Alswn

(goddr. y sangiad) yn edrych mewn drych, efallai i ymbincio. Yn GLM 50 (XIV.27) ni roddir coma ar ôl *ceisiaw* a *drych*, ond ni rydd hynny gystal synnwyr.

28 **am f'œdran** ‘Oherwydd fy oed (llai)’. Yr awgrym yw y byddai’n well gan Alswn gwrdd â Llywelyn am ei fod yn iau na Rhisiart Cyffin, a ddisgrifir yn nes ymlaen fel *hŷn no minnau* (ll. 30).

**yma** Sef y fan lle yr oedd Llywelyn yn aros.

29 **Dean** Sef Rhisiart Cyffin, Deon Bangor.

31 Y mae’r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *Gyrrai i’r* yn ddeusill.

32 **gyrrai ym hwnt** Gthg. GLM 50 (XIV.32) *gyrrai i mi hwnt* (cf. darlleniadau llsgrau. BDEK).

33–6 Byrdwn y llau. hyn yw fod Rhisiart Cyffin yn rhywiol fusgrell.

33 **ni mynnai** Gthg. GLM 50 (XIV.33) *Y mae’n ei gof* (cf. darlleniadau llsgrau. BK).

**cof ymofyn** Ai’r ystyr yw na all y Deon deimlo chwant cnawdol ond â’i feddwl? Byddai’r dehongliad hwn yn gyson â llau. 35–6.

35–6 **ni ... / ... rybucho** ‘Ni all ef [gyflawni] pechod (sef puteinio) mwyach, ond ei ddymuno [yn unig].’

38 **‘i** Cyfeirir at *Bechod* (ll. 36).

43–4 ‘Ni ddaw ato liw dydd yn waglaw neb sy’n gweld unrhyw beth.’ H.y., y mae’r merched sy’n mynd at Risiart Cyffin naill ai’n derbyn rhodd / tâl am eu ffafir neu ynteu maent yn ddall / yn wael eu golwg.

44 **ar** Y dangosolyn, gw. GMW 70–1.

46 **fry** Gthg. GLM 50 (XIV.46) *hi* (cf. darlleniadau llsgrau. ADFIJKLN), darlleniad sy’n gwanhau’r gynghanedd. Ar arwyddocâd *fry*, gw. 9.25n.

48 **rhwth** Un o nodweddion cofforol Rhisiart Cyffin, yn ôl Llywelyn ap Gutun, oedd ei fod yn dew; cf. ll. 60 [*c*]wd mawn, 9.27 y *Deon boliog*, 64 *Cawell adar, cau llydan*, 66 [*b*]aril, 10.26 [*P*]anelgwd.

**yn fy rhith i** H.y., gofyn Llywelyn am gael mynd at Alswn yn lle’r Deon—am gael bod yn ddirprwy iddo. Posibilrwydd arall yw na chaiff y Deon lwyddiant ond os dynesa at Alswn yn rhith Llywelyn, ond i’r un man y daw y ddau ddehongliad.

50 **ym** Gellid ystyried darllen *am*, er nas ceir yn y llsgrau., a dileu’r coma ar ôl *neb*.

52 **ni’m torwn** ‘Ni fyddai gwahaniaeth gennyf’. Ar y gystrawen, gw. GPC 1077 (c) d.g. *doraf*. Ar y calediad yn *torwn*, cf. 4.25n a gthg. ll. 65 *ni’m dorwn*.

53 Gthg. GLM 50 (XIV.53) *Gwell un gneuen i gennyd* (cf. darlleniad llsgr. E).

**un gneuen** ‘Tamaid bach’, GLM 399.



- 54 **hyn** Gthg. GLM 50 (XIV.54) *hynny* (cf. darlleniadau llsgrau. CEHM).  
 57 **pwn eddi** Cyfeiriad at wisg foethus y Deon.  
 59 **mewn yr iau** Efallai mai 'yn briod' a olygir.  
 60 **cwd mawn** Cyfeiriad arall at dewder Rhisiart Cyffin (gw. ll. 48n) ond hefyd at ei fyrder (cf. ll. 64 [c]wd byr, 9.62 *twrch daear*, 9.63 *Ceiliog byr*, 10.26 [P]anelgwd).  
**gad** Y goddr. yw Rhisiart Cyffin.  
 62 **i** Cydier wrth *I ddiawl* yn y ll. flaenorol.  
 66 'Pe câi fil [o ferched] cyhyd ag na chei di ef'. Ar *drwy* yn yr ystyr hon, gw. CFG 186–7; GDG<sup>3</sup> 522.

## 9

Dychan yw'r cywydd hwn i Risiart Cyffin, Deon Bangor (c. 1480–1502).<sup>1</sup> Yr oedd Llywelyn wedi derbyn llythyr gan Risiart i'w ddwyn at Huw Lewys ym Môn, llythyr y disgwyliai y byddai'n rhoi caniatâd iddo i gardota wŷn yn y Chwaen. Fodd bynnag, pan ddatganodd Huw Lewys gynnwys y llythyr, nid caniatâd a glywyd ond cyhuddiad fod Llywelyn wedi lladrata wŷn, gyda gorchymyn iddo gael ei garcharu, onid ei grogi hefyd (gw. llau. 28, 30). Yn dilyn hyn, ymddengys iddo gael gwŷs gan Siryf Caernarfon (gw. ll. 15n) a'r tebyg yw fod y siryf a Chyffin yn gyd-gynllwynwyr yn hyn o beth. Ni wyddys a oedd sail i gyhuddiad Rhisiart Cyffin ai peidio; ond boed a fo am hynny, yn y gerdd nesaf (cerdd 10) ceir awgrym mai'r gwir reswm oedd cystadlu rhwng y bardd a'r Deon am Alswn (gw. 10.21–4n), gwrthrych y gerdd flaenorol (cerdd 8). Ni wyddys beth yn union a ddigwyddodd i Lywelyn yn sgil y cyhuddiad: ymddengys iddo gael ei garcharu (llau. 33–40), ond yn sicr nis crogwyd gan iddo fyw i ymosod eilwaith ar Risiart Cyffin (cerdd 10)!

Yr oedd Rhisiart Cyffin yn Ddeon Bangor o tua 1480 hyd ei farwolaeth yn 1502 (gw. sylwadadau rhagarweiniol cerdd 8) a blynyddoedd Huw Lewys, yn ôl Dafydd Wyn Wiliam, oedd c. 1433–c. 1490.<sup>2</sup> Teg felly yw gosod cyfnod canu'r cywydd hwn yn y degawd 1480–90.

- 1 **doctor** Yr oedd Rhisiart Cyffin yn wŷr gradd yn y Gyfraith Ganon, gw. ByCy 505, felly gall mai cyfeiriad sydd yma at radd doethor yn y pwnc hwnnw. Cf. yr hyn a ddywed Hywel Cilan am Ieuan ap Hywel ab Iolyn o Langedwyn a ddaliai radd doethor yn y gyfraith, GHC 28 (XVI.5–6) *Ail Grigor yw'r doctor du / Eglwysig yn galw Iesu*, a gw. *ib.* 61; GGI<sup>2</sup> 334.

<sup>1</sup> Golygwyd rhan o'r cywydd, sef llau. 1–10, 15–20, yn LlyB 110, 124–6.

<sup>2</sup> Dafydd Wyn Wiliam, 'Y Traddodiad Barddol ym Mhlwyf Bodedern, Môn', AAST, 1971–2, 52–3, n5.

- main** Efallai mai adeilad o feini a olygir, sef eglwys Bangor. Ynteu ai'r a. sydd yma—'cyfyng', gan gyfeirio at leoliad Bangor ar lawr dyffryn cul?
- 2 **bradwr Ynys Brydain** Sef Madog Min, gw. y nodyn nesaf. (Y mae'n llai tebygol mai Gwrtheyrn a olygir, un o frenhinoedd y Brytaniaid yn y 5g., a ystyrir gan y Cymry yn archfradwr am iddo roi tir i'r Saeson yn dâl am eu cymorth i ymladd ei elynion, gw. CLC<sup>2</sup> 307; TYP<sup>3</sup> 386–90; WCD 338–42.)
- 4 **Madog Min** Gŵr y dywedir iddo, neu iddo ef ac eraill, achosi marwolaeth Llywelyn ap Gruffudd, tywysog olaf Cymru (gw. ll. 5), trwy dwyll, gw. LlyB 125–6; GGrG 19–20. Cyfeirir at y cynllwyn yn BT 228, *ac ena y gwnaethpwyd brat lliwelyn ene clochte en mangor y gan y wyr ef ehvn*. Yn ôl GGrG 20, gall mai uchel swyddog ym Mangor ydoedd yng nghyfnod Llywelyn, ond gw. hefyd isod ll. 8n.
- 5 **derbyn ... / ... Fuellt** Awgrymir bod Madog Min wedi derbyn ('croesawu') Llywelyn (gw. ll. 4n) ym Muellt er mwyn rhoi llythyr iddo, er ei bod yn fwy tebygol mai ym Mangor y bu hynny, gw. LlyB 125. Ar hanes y digwyddiadau a arweiniodd at ladd Llywelyn ger Cilmeri i'r gorllewin o Lanfair-ym-Muallt, gw. J. Beverley Smith, *Llywelyn ap Gruffudd, Tywysog Cymru* (Caerdydd, 1986), pennod IX. (Am farn wahanol sy'n lleoli ei farwolaeth yn Aberedw, gw. Anthony Edwards. *Appointment in Aberedwy* (Pen-y-Groes, 1992).)
- 7 Cf. ll. 3 *brwdan eithin*.
- 8 **tebyg brad** ['Brad] tebyg i frad'. Deellir *tebyg* yn e.—S. 'the like of'—yn hytrach nag yn a. mewn brawddeg enwol. Os derbynnir yr ail ddehongliad, rhaid mai Rhisiart Cyffin neu rywun anhysbys a olygir wrth y *Brawd Du*, ond gw. y nodyn nesaf.
- Brawd Du** Yn ôl ByCy 505, adwaenid beddrod Rhisiart Cyffin yn eglwys gadeiriol Bangor hyd y 18g. fel 'bedd y Deon Du'. Fodd bynnag, ystyr arferol *Brawd Du* yw aelod o urdd y Dominiciaid. Gan hynny—oni bai mai at ryw Ddominiciad arall, adnabyddus ond anhysbys bellach, a gyflawnodd [*f*]rad dig y mae'r bardd yn cyfeirio—ymddengys mai Madog Min (ll. 4) a olygir. Ar berthynas Llywelyn ap Gruffudd â'r Dominiciaid, gw. AWH 217–24; dywedir *ib.* 223–4 am flynyddoedd olaf Llywelyn, '... there can be no doubt that the Bangor friars were on the king's side during this last struggle for the independence of Gwynedd'.
- 10 **eryr Aberdaron** Ymddengys oddi wrth y cyd-destun mai Rhisiart Cyffin a olygir; cf. rhaglithiau llsgrau. IJ lle y dywedir bod Llywelyn ap Gutun wedi gofyn i Rhisiart Cyffin am gael wyna ym Modeon ac Aberdaron. Gall mai cynnwys y cywydd yw unig sail hynny, ond yn ôl Arthur Ivor Pryce, *The Diocese of Bangor in the Sixteenth Century*

(Bangor, 1923), 1, dan y flwyddyn 1514, dywedir bod gan yr esgob Thomas Skeffington gyfran (*portion*) o eglwys Aberdaron; ac ar d. 8, dan y flwyddyn 1536, nodir ymddeoliad (diddyddiad) *Richard Rencoyd Rector or Comportionary of the parochial Church of Aberdaron*. Dichon, felly, y daliai Rhisiart Cyffin gyfran o'r eglwys.

- 11 **Meistr Rhisiart** Sef Rhisiart Cyffin. Ar *Meistr*, gw. GPC 2414 (g) '... fe'i rhoddid yn wreiddiol i ddyd o uchel dras neu o ddysg, e.e. clerigwr â gradd ...'.

**grymus drwsiad** '[Un â] gwisg [yn arwyddocáu] grym'.

- 13 **y Cyffin** Sef Rhisiart Cyffin.

- 15 **bil** Ar ei ystyron, gw. GPC 277 d.g. *bil*<sup>1</sup> 'dogfen ysgrifenedig, nodyn, cofnod; hysbysiad ysgrifenedig o achos neu gwyn gyfreithiol, llythyr dyfyn; deiseb at un mewn awdurdod ...', benthyciad o'r S. *bill*. Os siryf sir Gaernarfon oedd y *Wiliam* a roddodd hwn i Lywelyn (gw. y nodyn nesaf), y tebyg yw mai dogfen yn gwsio'r bardd i'r llys (cf. ll. 21n) ydoedd. Sylwer mai *bil* gwahanol ei gynnwys ydoedd i'r un a grybwyllir yn ll. 18 ac un a ddaeth yn sgil hwnnw.

**Wiliam** LlyB 126 'Wiliam Gruffudd o'r Penrhyn ger Bangor oedd Wiliam pwysicaf y cyfnod, ond tebyg er hynny mai at gâr iddo y cyfeirir, sef Wiliam ap Gruffudd ap Robin o Gwchwillan, siryf sir Gaernarfon ...' Ar yr olaf, gw. ByCyAt 171–2; cf. 10.32n.

- 16 **y pin a'r Cyffin** Bron nad oes yma undeueb—'pin (h.y., yr hyn a ysgrifennodd) Cyffin'; cf. 8.26n.

- 17–18 'Er mwyn twyllo'r diniweityn (sef Llywelyn) y lluniodd llaw'r gŵr fy nogfen i[mi] gardota ŵyn ym Môn.'

- 18 **bil** Gw. ll. 15n. Dogfen yn rhoi caniatâd a olygir yma; cf. ll. 53.

- 19 **nyw torrwn** Llsgrau. BD *nis torrwn*, IJL *ni thorwn*; M *Ni torrwn*, ond y mae angen diwygio *nis* a sicrhau ei ddilyn gan *t-* er mwyn y gynghanedd a'r gystrawen. Dilynir, felly, LlyB 126 a darllen *nyw* 'nis' (a gw. GPC 2600 d.g. *nwy*<sup>4</sup>).

**tre 'nhad** 'Fy nhreftadaeth'. Ar *tre(f) tad*, gw. GPC 3573 (c).

- 20 **llythr caead** Gellir tybio mai'r hyn a olygir yw'r [b]il a gafodd Llywelyn ap Gutun gan Risiart Cyffin (ll. 18) wedi ei selio; cf. OED<sup>2</sup> ii, 190 d.g. *bill*<sup>3</sup> (1a) 'a written document (originally sealed) ...'. Cf. hefyd *Litterae Clausae* (S. 'Letters Close') y cyfnod a ddefnyddid mewn achosion mwy preifat na'r *Litterae Patentes* ('Letters Patent'); ymhellach gw. *ib.* xi, 333, d.g. *patent*, 1.1.

- 21 **ympiriaw** Tebyg mai ymddangos mewn llys a olygir, gw. GPC 3797 a cf. uchod ll. 15n.

- 22 **lleisiau** Y rheswm, efallai, am y ffurf l. yw fod y bardd yn meddwl am

y cymalau a'r brawddegau a ddatganodd Huw Lewys wrth ei gyhuddo; cf. llau. 23–4 lle y cymherir hyn i adrodd y llaswyr.

**Huw Lewys** Mab i Lywelyn ap Hwlcyn o Brysaeddfed, Môn. Olynodd ei dad yno a thrigai ei frodyr mewn plastai eraill ar yr ynys. Cysylltir Meurig â Bodeon a Bodsilin, Gruffudd â'r Chwaen a Rhys â Bodychen. Ni chysylltir Dafydd ag unrhyw blas arbennig ac yr oedd yn ddietyfedd, ffaith sy'n awgrymu y gallai fod wedi marw'n ifanc, gw. HPF v, 281–5; Dafydd Wyn Wiliam, 'Y Traddodiad Barddol ym Mhlwyf Bodedern, Môn', AAST, 1969–70, 39–79.

- 23 **pan glywai'r glêr** Ymddengys i Huw Lewys ddatgan ei gyhuddiad gerbron bagad o feirdd—gan gynnwys Llywelyn ap Gutun—a oedd wedi dod i'w blasty.
- 24 **heb oed fal ei bader** Y mae natur ailadroddus y llaswyr yn peri ei hadrodd yn beiriannol a gweddol gyflym.
- 25 **ucho** Gw. 8.12n.
- 26 **'nhad** Sef, fe ymddengys, Rhisiart Cyffin.  
**wrth ddarllain hwn** H.y., wrth i Huw Lewys (nid Llywelyn ap Gutun) ei ddarllen.
- 27 **y Deon bolïog** Sef Rhisiart Cyffin, Deon Bangor (ar ei dewder, gw. 8.48n).
- 33–4 Gellid hefyd ddileu'r coma ar ôl *da* a doddi un ar ôl *Chwaen*.
- 34 **y Chwaen** Y Chwaen Wen, sef plasty ym mhlwyf Llantrisant ym Môn a oedd yn gartref i gangen o deulu Prysaeddfed a gyfrannodd yn hael i'r traddodiad o noddi beirdd, gw. ll. 22n; CLC<sup>2</sup> 149; WATU 139.
- 35–6 **Tri ... / Hualog** Yn ôl y Trioedd, Tri Hualog Ynys Prydain oedd Cadwaladr Fendigaid, Rhun mab Maelgwn a Rhiwallon Wallt Banhadlen, gw. TYP<sup>3</sup> 32–4. Fodd bynnag, tri hualog Llywelyn ap Gutun yw Taliesin, Elffin a Maelgwn Gwynedd.
- 37–8 **Taliesin ... / Yng ngefyn Cynfelyn fûm** Cf. YT 78 (llau. 446–9) lle y dywed Taliesin *Myui a vum ynn y gwynuryn / yn llys Kynnvelynn, / Mewn kyyff a geuyn / vn dydd a blwyddyn* ac *ib.* 118 lle yr awgrymir i Daliesin fod yn ddisgybl i Gynfelyn. Ar Gynfelyn, gw. TYP<sup>3</sup> 325 d.g. *Cynvelyn*<sup>1, 2</sup>; G 247–8.
- 37 **Awstin ystum** Cyfeirir at Awstin Sant o Hippo (O.C. 354–430), y pwysicaf o'r Tadau Eglwysig. Ymddengys na olyga *ystum* fawr mwy yma na 'thebyg': cyffelybir y gŵr eglwysig Rhisiart Cyffin (yn hytrach na Thaliesin) i Awstin o ran dysg a doethineb.
- 39 **Elffin** Elffin ap Gwyddno Garanhir, un o wŷr llys Maelgwn Gwynedd a meistr Taliesin yn ôl y chwedl. Arweiniodd buddugoliaeth Taliesin mewn ymryson â beirdd Maelgwn yn Negannwy at ryddhau Elffin o

- garchar wedi iddo frolio am ddiweirdeb ei wraig a honni bod ganddo fardd a ragorai ar holl feirdd y brenin; ymhellach, gw. TYP<sup>3</sup> 501–2; CLC<sup>2</sup> 229, 694–5; YT.
- 40 **Maelgwn ... melgyrn** Cyffelybir Rhisiart Cyffin i Faelgwn Gwynedd pan oedd, yn ôl traddodiad, yn llechu rhag y fad felen yn eglwys y Rhos (gw. J.E. Lloyd: HW<sup>3</sup> 131).
- 45 **cydoed** Y tebyg yw ei fod yn ll. neu'n dorfol o ran synnwyr, er nad o ran ffurf.
- 46 **colles** Ymddengys mai ffurf lafar ydyw ar *collais*, sef 1 un.grff.myn. y f. *colli*.
- 47 **dan awyr** Ymddengys mai 'dan y nen' a olygir. Sylwer mai *awŷyr* yr yngenir *awyr* i odli â *llwyr* yn y ll. nesaf. Dyma oedd ffurf gynharach y gair, gw. G 48; GPC 244.
- 50 **brwysg** 'Medd-dod', gw. GPC 337 (2). 1595 yw dyddiad yr enghraifft gynharaf o'r gair a restrir yno yn yr ystyr hon.
- 51–2 **blin oedd ... / I'm dwyar** Ymddengys i Lywelyn gael ei hel ymaith o Fodeon neu ei rwymo'n gaeth yno. Pa un bynnag, ergyd y cwpled yw fod Huw Lewys yn anfodlon iddo ymdroi ym Modeon.
- 52 **Bodeon** Plasty ym mhlwyf Llangadwaladr ym Môn a chartref i gangen o deulu Prysaeddfed a oedd yn enwog am noddi'r beirdd, gw. ll. 22n; CLC<sup>2</sup> 51; WATU 15.
- 58 **Powys** Yr oedd cartref Llywelyn ap Gutun ym Melwern ger Croes-osalwt ar gyrion Powys (gw. td. 2).
- 59 **canonwr** GPC 417 (b) 'un sy'n hyddysg yn y Gyfraith Ganon, dehonglydd y Gyfraith Ganon', a gw. uchod ll. 1n.
- 61–2 **Troi fy mil ... / ... trwy awch diod** Cf. ll. 50 *Ac yn ei frwysg y gwnâi frad*.
- 61 **taeru fy mod** Rhaid deall rhywbeth fel 'wedi dwyn defaid' neu 'yn euog' ar ôl y geiriau hyn.
- 64 **cawell adar** Cyfeiriad arall at dewder Rhisiart Cyffin (gw. 8.48n).
- 68 **i** H.y., 'dros', fel y dengys y cyd-destun.

## 10

Dychan yw'r cywydd hwn i Risiart Cyffin, Deon Bangor, a'i feirdd.<sup>1</sup> Os cael ei garcharu trwy waith Cyffin oedd cefndir y gerdd flaenorol, cael ei wahardd ganddo o'r ardal am roi ei serch ar *ddyn wych* (ll. 22), sef Alswn o Fôn, yn ôl pob tebyg (gw. cerdd 8), yw cefndir y gerdd hon. Er mai Rhisiart

<sup>1</sup> Golygwyd y gerdd hon yn GLM 57–9 (XVI).

Cyffin oedd yn gyfrifol am y gwaharddiad, amheua Llywelyn ei feirdd hefyd o fod yn gyfrannog, ac yn enwedig Lewys Môn. Nid yw ei ddrwgdybiaeth o'r olaf yn syndod oherwydd yn sgil cerdd Llywelyn i Alswn canodd Lewys gywydd i Risiart Cyffin yn beirniadu Llywelyn am ei ymwneud â'r Deon ac â'r ferch (At.i). Dywed y dylid dwyn Llywelyn o flaen ei well am ei holl gamymddwyn; ac os na phrofir ef yn ddieuog yn ddigon buan, bydd Lewys yn torri ymaith ei glustiau (At.i.67–70)! Dygir i gof gais Casnodyn mewn oes gynharach ar i Drahaearn Brydydd Mawr, a oedd wedi ei ddychanu, gael ei hel ymaith o Forgannwg.<sup>2</sup>

- 1 **Dean** Sef Rhisiart Cyffin, Deon Bangor.
- 3 **rhoes** Llsgrau. *roes*, ond mwy naturiol yw'r cys. o'i flaen ac y mae orgraff y llsgrau. yn anghyson yn aml wrth wahaniaethu rhwng *r* ac *rh*.  
**ynn** Dyma ddarlleniad llsgr. F. Gthg. GLM 57 (XVI.3) *ym* (cf. llsgrau. ABCEH) sy'n torri ar y gynghanedd. Cyfeirir at yr holl feirdd, gan gynnwys Llywelyn ap Gutun, a fwynhasai haelioni Rhisiart Cyffin.
- 4 **rhull** Fel y dywedir yn GLM 402, y mae dwy ystyr wahanol y gair, 'parod, hael' a 'gorbarod' yr un mor briodol yma am Risiart Cyffin.
- 6 **rhoi'r meirch** Gthg. GLM 57 (XVI.6) *rhoi meirch*, ond ceir y fannod yn y llsgrau.  
**rhoi'r aur** Gthg. GLM 57 (XVI.6) *rhoi aur* (cf. darlleniadau llsgrau. AB).
- 8 Byddai'r Deon yn rhoi gwerth ei feirch i Lywelyn gan godi cywilydd ar eraill trwy ei haelioni.
- 9 **Treoswallt** Sef Croesoswallt.
- 10 **a'i trôl** Gthg. GLM 57 (XVI.10) *a drôl*, darlleniad nas ceir yn y llsgrau. ond cf. llsgr. F *a drodd*. Gellid diwygio yn *a drôl*, gan osgoi ailadrodd y syniad a fynegir yn *A droes* yn y ll. flaenorol gan y rh. '*i*, ond nid yw'r ailadrodd o reidrwydd yn chwithig a gellir ei ystyried yn enghraifft o analepsis.
- 11 **pan ganai'r gog** H.y., pan fyddai'r Deon mewn hwyliau da; cf. yr ymadrodd *mor llawen â'r gog*.
- 12 Ai cyfeiriad sydd yma at y ddiod gadarn (cf. ll. 17)?
- 14 **puman byd** Cf. yr ymadrodd *pedwar ban byd*.
- 15–20 Fel y dywedir yn GLM 402, y tebyg yw mai cyfeiriad sydd yma at yr helynt rhwng Llywelyn a Rhisiart Cyffin a ddisgrifir yng ngherdd 9.
- 17 **ym** Gthg. GLM 57 (XVI.16) *i mi*, darlleniad nas ceir yn y llsgrau., sy'n creu cynghanedd sain deirodl ac yn gwneud y ll. yn rhy hir o sillaf (oni

<sup>2</sup> GC 11.97–8, *Perwch ddeol ffôl, ffael anghelfydd—wawd, / Gerdd odlawd gardd odlydd.*

chywesgir *pheri i*).

18 **yr ŵyl** Un o'r tair gŵyl arbennig, sef y Nadolig, y Pasg a'r Sulgwyn, pan arferai'r beirdd ymweld â'u noddwyr, gw. Thomas Parry, 'Statud Gruffudd ap Cynan', B v (1929–31), 32 (llau. 4–18).

**a'i liwio'r eilwaith** Cyfeiriad, o bosibl, at ymosodiad Llywelyn ap Gutun ar Risiart Cyffin yng ngherdd 9, os ystyrir cerdd 8 yn ymosodiad cyntaf arno (er mai ymosodiad rhannol yn unig yw honno gan mai merch yw'r prif bwnc).

19 **cyrchu drwy'r lluoedd** Cyfeiriad, efallai, at anfon swyddog(ion) yr awdurdodau allan i ddod â Llywelyn ap Gutun o flaen ei well.

22–4 Yn ôl GLM 402, dweud y mae Llywelyn ap Gutun yma mai eiddigedd Rhisiart Cyffin ynghylch Alswn (gw. cerdd 8) oedd y gwir reswm dros i Gyffin ei garcharu (gw. llau. 15–20n); cf. ll. 35 *celu cenfigen*.

25 **deuwn y daith** 'Deuwn [yno] (sef i lys Rhisiart Cyffin) ar y daith.' Gellid hefyd ystyried darllen *i daith*, er mai *y* a geir yn y llsgrau.

26 **panelgwd** Ystyr *panel*, yn ôl GPC 2679 (a), yw 'darn o frethyn neu glustog a ddodir o dan gyfrwy i arbed cefn ceffyl, mul, &c. ...', ac fe'i defnyddir yn ffigurol hefyd ar dro, *l.c.* (b). Efallai na olyga yma fawr mwy na 'swp, hulp' mewn ystyr ddilornus am rywun (megis y S. *heap*), cf. GGH 397 (120.41–2) *Pan welid hwn, panel tew, / Pwy a'i credai, pac rhydew?* lle y mae *panel* yn debyg o ran ystyr i *pac*. Gw. hefyd GLM 401, ond ymddengys yn llai tebygol mai 'llwynog' yw ystyr yr enghraifft a drafodir yno. Deellir *panelgwd*, felly, i olygu 'pwtyn bol-iog', cyfeiriad arall at dewder a byrder Rhisiart Cyffin (gw. 8.48n, 60n).

27 **gosog wraidd** Cyfeirir at Risiart Cyffin, nid Crist; cf. GLGC 290 (129.43–4) *a Iesu a'th roes yn osog—Talgarth, / i wŷr Deheubarth yr wyd hebog*.

28 **godardaidd** GLM 551 'un â diodlestr'. Nis rhestrir yn GPC 1421 ond daw o *godard* (â'r terfyniad a. *-aidd*).

29–30 Cyffelyba Llywelyn *W* a *Rhys* (gw. llau. 29n, 30n) i Ifor Hael.

29 **W** GLM 402, 'Wiliam ap Gruffudd o Gwchwillan a barnu wrth 32'. Arno, gw. 9.15n.

30 **Rhys** Sef Rhisiart Cyffin: gelwid ef yn *Rhys* yn ogystal â *Rhisiart*, GLM 492.

**Ifor Hael** Sef Ifor ap Llywelyn o Fasaleg, sir Fynwy, prif noddwr Dafydd ap Gwilym. Yr oedd ei haelioni yn ddiaarhebol a daeth ei enw i gynrychioli patrwm o noddwr beirdd, gw. ByCy 390; CLC<sup>2</sup> 361–2.

31 **gwan** Cyfeiria'r beirdd yn fynych at y cymorth a roddai eu noddwyr i weiniaid, sef aelodau anghenus y fro.

32 **oll, lew** *-ll l- = ll*.

- Cwchwillan** Gw. ll. 29n. Cochwillan yw'r ffurf heddiw, plasty ym mhlwyf Llanllechid ger Bangor.
- 34 **bwa glaw** Delwedd drawiadol (ond coeglyd) ar gyfer y Deon.
- 36 **â'r gân** *ar* a geir yn y llsgrau. a gellid hefyd, felly, ddarllen *ar gân* (cf. 15.10 *Trois ar gân*).
- 38 Ymddengys mai'r gystrawen yw 'Llwdn y gloch sydd i'w gael yn chwym (h.y. sydd yn chwym) wyf'.
- 39 **manglych ... mwynglawdd** Cyffelybir beirdd Rhisiart Cyffin i glychau mân mewn gwrthgyferbyniad â Llywelyn ap Gutun, *Y gloch fawr* (ll. 42 a cf., e.e., GLIG 12.20 *Llywelyn Goch, gloch dy glod*) ond aneglur yw'r cyfeiriad *goruwch y mwynglawdd*, a thywyllu cyngor a wna'r nodyn yn GLM 402. 1588 yw dyddiad yr enghraifft gynharaf o *mwynglawdd* yn GPC 2521.
- 40 **gwenwyn tawdd** Ymddengys fod beirdd Rhisiart Cyffin yn dychanu Llywelyn ap Gutun.
- 41 **ag ynni** Llsgrau. *y gyni*. Fel y nodir yn GLM, eg. yn unig yw *cyni* yn G; felly hefyd yn GPC 790 d.g. *cyni*<sup>1</sup>. Gall fod y gair wedi ei drin yn eb. er mwyn y gynghanedd, ond bernir y ceir gwell synnwyr o'i ddiwygio yn *ag ynni* 'genau ag ynni / genau llawn egni', cyfeiriad at ddawn farddol Llywelyn ap Gutun; cf. GMB 14.5 *Traethaf, armaaf o'r meint ynni* (Gwalchmai ap Meilyr).
- 43 **hyn** Rhyw gam a gawsai Llywelyn ap Gutun, gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod; cf. llau. 51–2.
- pennaeth iach** H.y., gŵr uchel ei achau, sef Rhisiart Cyffin.
- 44 **Ai Rhys wlanengrys lingrach** At Rys Pennardd y ll. nesaf, nid Rhisiart Cyffin (gw. ll. 30n), y cyfeirir. *Â wlanengrys lingrach* cf. GIG 167 (XXXVII.61–2) *Ni bydd blaidd ifancaidd iach / Wrth oen â gwlangroen glingrach*.
- 45 **Rhys Pennardd** Bardd (*fl. c.* 1480) naill ai o Gonwy neu Glynnog yn sir Gaernarfon, gw. ByCy 793. Ceir cyfeiriadau dychanol ato hefyd gan Dudur Penllyn, GTP 63 (V.3–4) a Thudur Aled, TA 532 (CXLI.25–8).
- 47 **gwyliwr bedd** Efallai mai'r hyn a olygir yw fod Rhys Pennardd yn *wr* dwys a difrifol.
- 48 **gên gamedd** Gellir ei ddeall yn llythrennol i olygu 'cemi gên' ond y mae'n bosibl hefyd, fel y dywedir yn GLM 403 gan gymharu *mingamu*, mai ystyr ffigurol sydd yma, sef 'coegni'. Yn wyneb geiriau Llywelyn ap Gutun, *Ni'm gwelir byth ... / Dan gymod ...* (llau. 47–8), efallai mai'r ail ystyr sydd fwyaf tebygol yma ac, yn fwy penodol, mai at ddychan gan Rys Pennardd y cyfeirir (cf. ll. 40n). Byddai'r symudiad o'r ên llythrennol yn ll. 46 at ên ffigurol hefyd yn ddatblygiad syniadol.



- 50 **Hywel Rheinallt** Bardd o Lannor, sir Gaernarfon (*fl.* 1461–1506/7); gw. ByCy 381; CLC<sup>2</sup> 354; Elsbeth Wendy Owen Davies, ‘Testun Beirniadol o Waith Hywel Rheinallt ynghyd â Rhagymadrodd, Nodiadau a Geirfa (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1967), i–xiv; Wendy Davies, ‘Hywel Rheinallt’, LlyC ix (1966–7), 200–8; CTC 309, 525–6.  
**heliwr enwyn** H.y., yfai’r ddiodyd hon yn hytrach na gwin, arwyddo israddoldeb; cf. y ffordd y gwrthgyferbynnir maidd a medd yn y farddoniaeth a ll. 64n.  
 Y mae’r ll. yn rhy hir o sillaf.
- 51–68 Nid yw’r gyfeiriadaeth yn y llau. hyn yn eglur ac anodd yw dilyn trywydd meddwl y bardd.
- 51 **Lewys** Sef y bardd Lewys Môn, gw. CLC<sup>2</sup> 440 a’r sylwadau rhagarweiniol uchod.
- 53 **collaist Bowys** Yn ôl GLM 403 cyfeirir at yr helynt a fu rhwng Lewys Môn a gwŷr Caereinion, *ib.* 289–92 (LXXXI), neu rhyngddo a Siôn Pilstwn, *ib.* 256–63 (LXXII), er yr ymddengys y posibilrwydd cyntaf yn fwy tebygol (a gw. llau. 55–7n, 58n). Efallai mai’r hyn a olygir wrth y geiriau yw ‘collaist barch [gwŷr] Powys’; cf. *ib.* 289 (LXXXI.5–6) *colli wyneb cell henaur / Caer Einion Yrth, croenen aur.*
- 54 **ar ôl eto’r eilwaith** ‘Mewn sefyllfa debyg drachefn’. Ar ystyr *ar ôl* yma, cf. GSCyf 12.40n, isod 11.52n. Trinnir y ll. hon fel cwestiwn yn GLM 54 (XVI.54) (gydag *Wyt*, felly, yn dalfyriad o *A wyt*) ond nid oes angen.
- 55–7 Efallai mai’r hyn a olygir yw fod Lewys Môn wedi gwneud ffyn neu waywffyn (ll. 57 *ysglodion*) iddo’i hun unwaith o’r *gangen* i ymladd â rhywrai ym Mhowys (gw. ll. 54n); cf. GLM 291 (LXXXI.67–70) *er a gair mewn ffair* [‘ffrwgwd’] *o ffyn*, / *er a ’mladder ym mhwyddyn*, / *ni beiddiai neb, myn bedd Non*, / *torri crwyn teirw Caereinion.*
- 58 **mawrddrwg** Paham yr ystyriai Lewys Môn ysglodion y *gangen* (llau. 56–7) felly? Efallai mai’r ateb yw iddo gymodi â gwŷr Caereinion am helynt a fu rhyngddo a hwy (gw. ll. 53n), ac os mewn ymladdfa â ffyn y bu hynny (gw. llau. 55–7n), naturiol fyddai iddo ystyried ei weithred â’r ffon yn un ysgeler iawn. Os felly, y rheswm y crybwylla Llywelyn ap Gutun edifarhad Lewys yw er mwyn datgan ei siomedigaeth a’i syndod os ef a barodd *hyn* (ll. 43 ac *ib.*n) iddo.
- 60 Deellir y ll. yn frawddeg enwol (h.y., ‘gwas wyt ...’).  
**cas** Sef Llywelyn ap Gutun.  
**gwas** Efallai mai gwas—h.y., gwas bach, cynffonwr neu’r cyffelyb—i Risiart Cyffin a olygir. Deellir *ydwy* ar ei ôl.
- 61–2 Ymddengys mai’r ystyr yw y bydd Llywelyn ap Gutun yn newid yr holl sefyllfa (*A throi a wna’ ... / Oll ...*) trwy gwrdd â Lewys Môn lle y cyfarfuasant o’r blaen a rhoi curfa (*drofa drais*) iddo.

- 63–4 ‘Gwyrdroaist / llychwinaist [fy] enw, [ŵr sydd fel] trawst tŷ [ac yn] oedrannus, [dydi sy’n] hŷn dy flynyddoedd ac [yn yfwr] talp o waddod us haidd.’
- 63 **trawst tŷ** Felly y dehonglir darlleniad llsgr. G *trawsty*. Gellid hefyd ei dderbyn fel y mae a’i ddeall i olygu ‘tŷ cadarn’, ond defnyddir *trawst* hefyd yn ffigurol ynglŷn â phobl, gw. GPC 3568 (b). Ymddengys mai’r ystyr yma yw fod Lewys Môn yn braff o gorff. Gthg. GLM 59 (XVI.63), *trawst to*, darlleniad nas ceir yn y llsgrau.
- 64 **a** Gthg. GLM 59 (XVI.64) *no*, darlleniad nas ceir yn y llsgrau.  
**soegyn us haidd** H.y., diod israddol; cf. ll. 50n.
- 65–6 Cf. At.i.69–70 *O bydd hir heb ddiheuraw / ei ddwy glust a ddwg i’w law*. Rhaid deall rhyw ymadrodd fel ‘bygwth a wnaethost’ o flaen *Torri*.
- 66 **dan un** Fel y dywedir yn GLM 403, gallai olygu ‘ar unwaith’ neu ‘ynghyd’; gw. hefyd GPC 3437.
- 68 **cys mein ers** Benthyciad o’r *S. kiss mine arse*. Fel y dywedir yn GLM 403, ‘Y mae’r llw yn fyw heddiw ar lafar yn Saesneg ac fe’i defnyddir i fynegi anghrediniaeth dirmygus [*sic*]. Digon agos at hynny ydyw defnydd Llywelyn ap Gutun ohono.’ Gw. hefyd EEW 57.
- 68 **drwg hwsmon wyd** H.y., fe’i *hystyrir* (gan bobl Powys) yn hwsmon drwg. Yr awgrym yw, os yw Rhisiart Cyffin a’i feirdd yn gweld Llywelyn yn ddrwg, yna yr un yw syniad Llywelyn a gwŷr Powys am Lewys.

## 11

Ffug-farwnad yw’r cywydd doniol a haeddiannol enwog hwn i’r bardd mawr Guto’r Glyn.<sup>1</sup> Fe’i hatebwyd gan Guto (At.ii). Dywed Llywelyn ap Gutun fod Guto wedi boddi wrth groesi traeth Malltraeth ym Môn ac â ati i ddychmygu corff Guto dan y dŵr yn ysglyfaeth i bysgod a chreaduriaid eraill y môr. Deallwn iddo ddatgan ei ddychan adeg y Nadolig gan wneud Guto yn gyff gwawd (llau. 17–18).<sup>2</sup> Deallwn hefyd oddi wrth gywydd ateb Guto mai wedi i Lywelyn fod yn yfed gwin Cynfrig, sef Cynfrig ap Dafydd ap Ithel o Lwydiarth yn Llannerch-y-medd,<sup>3</sup> a Huw Lewys, brawd yng nghyfraith Cynfrig a drigai ym Mhrysaeddfed (gw. 9.22n), y bu’r datganiad, a hynny, fe ymddengys, yn llys Huw (At.ii.19–24). Ceir perthynas agos o ran cynnwys rhwng cerdd Llywelyn a cherdd arall gan Guto lle y diolcha Guto fod Huw Lewys yn fyw ac yn iach wedi iddo bron â boddi ym

<sup>1</sup> Golygydd y gerdd hon yn GGI<sup>2</sup> 98–100 (XXXVII); D.J. Bowen, *Barddoniaeth yr Uchelwyr* (Caerdydd, 1957), 52–3 (cerdd 21). Ar ffug-farwnadau’r cyfnod, gw. Huw M. Edwards, ‘Murnio Marwnadau: Golwg ar y Ffug-farwnad yng Nghyfnod y Cywydd’, *Dwned*, v (1999), 47–70.

<sup>2</sup> Yn hytrach nag yn gyff clêr yn ystyr fanwl yr ymadrodd hwnnw, gw. LIU 388–9.

<sup>3</sup> PACF 95.

Malltraeth,<sup>4</sup> ffaith sy'n peri llai o syndod o gofio bod y ddau fardd wedi mwynhau croeso'r un noddwr. Yn ôl W.J. Gruffydd, y mae Llywelyn ap Gutun yn parodio dull cyffredin marwnadau'r cyfnod yn y cywydd hwn.<sup>5</sup>

Ceir llawer o amrywio yn y llawysgrifau yn nhrefn llinellau'r gerdd, a dilyn y testun golygedig drefn testunau llawysgrifau R<sup>1</sup> ac R<sup>2</sup> ond cyflenwyd llinellau 27–8 sydd yn eisiau ynddynt.<sup>6</sup>

- 1 Cf. GGI<sup>2</sup> 14 (V.15) *Tristaw ydyw'r byd trostaw* (marwnad Llywelyn ab y Moel). Parodio'r ll. a wna Llywelyn.
- 5–6 'Ofer fyddai llunio [marwnad] imi pe'm ceid heb farwnad yn fy meddwl.' H.y., byddai'r bardd yn un gwael pe na allai farwnadu, a'r awgrym, felly, yw y bydd ei farwnad i Guto'r Glyn yn un dda.
- 7 **cymain** 'Cymaint ag'; cydier wrth *Un llaw* yn y ll. nesaf.  
**main mynor** Cyfeiriad at fedd Guto'r Glyn dan y tonnau. Defnyddid marmor ar gyfer beddi; cf. IGE<sup>2</sup> 316 (llau. 13–14) *Pan aeth ef, mawr fu'r llefain, / I gôr dan fedd mynor main* (Rhys Goch Eryri). Gthg. D.J. Bowen, *Barddoniaeth yr Uchelwyr* (Caerdydd, 1957), 105 lle y deallir y geiriau i ddynodi dwylo mawr Guto.
- 8 **llywio môr** Cyfeiriad, efallai, at fordeithiau Guto'r Glyn pan âi i ymladd yn Ffrainc.
- 12 **simwr** Dygir i gof y cywydd a ganodd Ieuan ap Hywel Swrdwal i Syr Rhisiart Gethin i ddiolch ar ran Guto'r Glyn am hugan a gawsai Guto gan Syr Rhisiart, gw. GHS cerdd 24.
- 13 **troi'n olwyn** Ai ymgais sydd yma i gyfleu disgyn yn bendramwnwgl?
- 14 **Mall Draeth** Malltraeth, cwmwd ym Môn, gw. WATU 152, 233. Rhannwyd yr enw yn ddau er mwyn y gynghanedd, ond hefyd, efallai, er mwyn pwysleisio ystyr yr enw; gw. *Atlas Môn*, gol. Melville Richards (Llangefni, 1972), 158, d.g. *Malltraeth* lle y dywedir, 'Yr oedd afon *Cefni* yn llifo'n araf gan mor wastad oedd y tir, gan ffurfio Cors Ddyga. Gellid galw tir felly yn *fall* "budr, pwr". Cymharer y gair *malldan* am y goleuni neu'r tân a achosir gan nwy yn codi oddi wrth gors.'
- [y] **fwyall drwyn** Gofynnir yn GGI<sup>2</sup> 332 ai enw penrhyn sydd yma, ond y mae'n fwy tebygol mai trwyn Guto'r Glyn a olygir; cf. ll. 43 *P'le mae'r barcut secutor?*
- 15 **trichwrs** Ar ystyron *cwrs*, gw. GPC 648. Efallai na olygir fawr mwy na 'teirgwaith' yma.

<sup>4</sup> Dafydd Wyn Wiliam, 'Y Traddodiad Barddol ym Mhlwyf Bodedern, Môn', AAST, 1969–70, 75–7. Ni cheir y cywydd hwn yn GGI na GGI<sup>2</sup>.

<sup>5</sup> W.J. Gruffydd, *Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600* (Lerpwl, 1922), 30–1.

<sup>6</sup> Gthg. trefn llau. GGI<sup>2</sup> 98–100 (XXXVII); D.J. Bowen, *l.c.*

17–18 Gan fod Guto'r Glyn wedi marw, rhaid cael rhywun arall ([*d*]wyfoch *ddig*, / *Dilyn*) yn ei le yn gyff clêr dros y Nadolig.

17 **hwdiwch** 'Cymerwch (hwn)', bf. ddiffygiol, gw. GPC 1929 d.g. *hwde*.

18 **dilyn eich cyff** Gthg. IGE<sup>2</sup> 98 (ll. 18) *Dylyn yn gyff* (a cf. D.J. Bowen, *op.cit.* 52 (21.18)) lle y deellir *Dylyn* i olygu 'dyn dwl'. *dylyn* a geir yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. a gallai gynrychioli *dylyn* neu fod yn un o ffurfiau'r be. *dilyn* (ymhellach, gw. G 353 d.g. *dilit*<sup>2</sup>). Fodd bynnag, ni cheir y darlleniad *yn gyff* ond yn llsgr. c (sydd hefyd yn gymharol ddiweddar), ac *eich cyff* a geir yn y mwyafrif mawr o'r llsgrau., darlleniad sy'n milwrio yn erbyn *dylyn* yn yr ystyr o rywun dwl. Haws, felly, yw deall *dylyn* yn ffurf ar *dilyn* yn yr ystyr 'ymlid'. Yn gystrawennol, ymddengys ei fod yn dibynnu ar *Hwdiwch* yn y ll. flaenorol ('*a dilyn*', megis).

Wrth *cyff* golygir 'cyff clêr', sef, yn yr achos hwn, Guto'r Glyn. Ar yr arfer o wneud bardd yn gyff clêr, gw. J.E. Caerwyn Williams, 'Cerddi'r Gogynefirdd i Wragedd a Merched a'u Cefndir yng Nghymru a'r Cyfandir', LICy xiii (1974–9), 92–3.

**Nadolig** H.y., 'adeig y Nadolig', sef un o'r tair gŵyl arbennig pryd yr ymwelai'r beirdd â'u noddwyr, gw. 10.18n.

19 **nis hepgorwn** Cydier wrth *i'r neb a wn* yn y ll. nesaf.

24 **moelrhon** Ar ei ystyron, gw. GPC 2475. Dichon mai 'morlo' a olygir yma.

25–6 Ymddengys mai'r hyn a olygir yw y byddai gŵr a oedd yn pysgota mewn afon a heb ddal dim yn falch o'r holl benwaig yn esgidiau Guto'r Glyn (er mai pysgod môr yw penwaig).

26 **ysgadan yn ei** Gthg. GGI<sup>2</sup> 98 (XXXVII.26) *Ysgadain o'i*. Ni cheir y ffurf *ysgadain* yn y llsgrau. Ar *o'i*, cf. llsgrau. GIMSZg.

27 **nid llai no gwn** Cyfeiriad, fe ymddengys, at faintioli corfforol Guto'r Glyn.

29 **cair ei fudaw** H.y., y mae Guto bellach wedi ei symud o'r tir i'r dŵr.

35–6 'Ni adawai'r don i'r rhydau lle bu'r rhodiwr fynd o'r dŵr.' Wrth *rhydau* golygir brwydrau ger rhydau. Ergyd y cwpled yw y bydd Guto'r Glyn yn dal i ymladd dan donnau'r môr.

37–8 'Ond ei rwymo, [ac yntau'n] ymladd, ar yr un ochr a'i hyrddio'. Gellir dychmygu Guto'r Glyn yn gorwedd ar ei gefn ar wely'r môr a llif y dyfroedd yn symud ei gymalau i bob cyfeiriad.

**hwrdd** Nid ychwanega at ystyr *hyrddu* (sy'n dod ohono) ond dichon ei fod yn ei ddwysáu.

41 **cenfigenwyr** Gthg. GGI<sup>2</sup> 99 (XXXVII.41) *genfigenwyr*, darlleniad nas ceir yn y llsgrau.

- 42 **gwalch cywyddau gwŷr** Ar fri Guto'r Glyn fel meist'r ar ganu 'cywydd mab', gw. GGI<sup>2</sup> ix.
- 43 Yr ergyd yw na ellir penodi ysgutor ar gyfer Guto'r Glyn gan mai ei unig eiddo oedd y caneuon a ddarfu gydag ef.  
**mae'r** Cywasgiad o *mae i'r*. Yn GGI<sup>2</sup> 99 (XXXVII.45) darllenir *mae i'r barcut scutor* ond ni cheir y ffurf gywasgedig *scutor* yn y llsgrau.
- 47 **Dafydd, nid iach** Gthg. GGI<sup>2</sup> 99 (XXXVII.47) *iddaw, grudd gwrach*, darlleniad a geir yn llsgr. *f* yn unig. Nid yw'n eglur pwy yw *Dafydd*, ond gellir cynnig mai Dafydd ab Edmwnd a olygir: yr oedd yn fardd adnabyddus a disglair a chanodd Guto'r Glyn dri chywydd dychan iddo, gw. GGI<sup>2</sup> 189–90 (LXXI), 208–9 (LXXIX); CMOC<sup>2</sup> 130–3. Os felly, ymddengys yr awgrymir yn y cwpled, yn ffeithiol neu'n ffansiol, fod rhyw gystadlu rhyngddynt am uchafiaeth fel beirdd.
- 48 **cadair ar gadach** Gw. GPC 375 d.g. *cadair* (2 (a)) '... y tlws arian ar lun cadair a wisgid ar yr ysgwydd chwith yn arwydd fod bardd naill ai'n bencerdd neu'n athro cerdd dafod neu gerdd dant'; cf. GGrG 5.23 *Aerwy gwydr yw ar gadach* (Iorwerth ab y Gyriog, i ddiolch am gae).
- 49 **y Guto** Gthg. GGI<sup>2</sup> 99 (XXXVII.49) *Gwido*, darlleniad nas ceir yn yr un o'r llsgrau. ac nad yw'n rhoi cynghanedd. O ddarllen *Guto*, rhaid un ai ynganu'r *-d* yn *ysbryd* fel *t* (cf. llsgrau. BCLNPR<sup>1</sup>R<sup>2</sup>TUWXbefgi *ysbrvtt*) neu ystyried bod yma dwyll gynghanedd meddal a chaled. Crybwyllir *Gwido* yn ll. 56, gw. y nodyn.
- 51 **mae'n rhodio** Y goddr. yw *un ar ei ôl* yn y ll. nesaf.  
**[yr] hudol** Cf. GP 136 (ll. 12), *Tri over gerddor: klerwr, a bardd y blawd, a hvdol*.
- 52 **ar ei ôl** S. 'after him' (h.y., wedi iddo farw), neu gallai olygu 'tebyg iddo'. Os yr olaf, cf. 10.53n.
- 53 **hwyl ... helynt** Cf. 14.53 *Ag un hwyl dygwn helynt*.
- 56 **cadach** Y pwynt a wneir yw fod ysbryd Guto'r Glyn, er yn debyg i ysbryd Gwido, hefyd yn wahanol am ei fod yn gwisgo dillad; h.y., yr oedd yn weladwy.  
**ysbryd Gwido** Cyfeirir at stori adnabyddus yn y cyfnod am ysbryd gŵr a fu, wedi ei farw, yn cythryblu ei wraig. Ceir fersiwn Cymraeg, gw. T. Gwynn Jones, 'Ysbryd Gwido a'r Prior', B v (1929–31), 100–12.
- 58 **mwg** Mwg o dai, efallai, ffordd arall o ddweud 'cartrefi'. Ynteu a oes rhyw ystyr ffigurol? Os oes, cf. BD 189 (llau. 10–11) ... *canys ymlad a theruysc y gywdavt ehun a mwc teruysc a chyghoruynt a tywyllavs medvl dy uryt ti ...*
- 61 **gyrrent** Sylwer mai 3 ll.grch. y f. sydd yma, nid y 3 ll.amhff.myn./dib. (gw. GMW 115).

62 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *ai i*.

## 12

Ateb Llywelyn ap Gutun yw'r cywydd hwn i gywydd a ganodd Dafydd Llwyd o Fathafarn i Werful Mechain (At.iii) lle y mynega Dafydd ei serch at Werful gan ddweud y bydd yn anfon Llywelyn ap Gutun ati hi yn llatai. Bychanol iawn yw dull Dafydd o gyfeirio at y llatai. Yng ngeiriau Nerys Ann Howells: <sup>1</sup>

Dychenir Llywelyn gan ei alw yn *gerdded-ddyn gwael* ... a thynnir sylw at ei farusrwydd yn *ceinioca* ... ac yn *yta ac wyna* ... dros *bedwar ban y byd* ... Yn ôl Dafydd Llwyd, byddai Llywelyn yn derbyn swydd y llatai'n ufudd oherwydd byddai'r gwas yn ffyddlon i'w feistr ar ôl derbyn curfa yn union fel y byddai'r cenau'n gwbl driw ac yn mynnu dilyn yr heliwr ... Ymhellach, gelwir Llywelyn mewn modd hynod ddeifiol yn *Delynor heb awdl uniawn* ...

Ymetyb Llywelyn trwy ddychanu Dafydd Llwyd am ei henaint a'i anghymwyster i fod yn garwr i ferch lawer iau fel Gwerful, gwrthyd fod yn llatai iddo a dywed y bydd yn dial arno trwy ennill Gwerful yn gariad iddo ef ei hun. Awgrymir bod Llywelyn yn ŵr cymharol ifanc ar y pryd (ll. 44). Golygwyd y cywydd yn GGM cerdd 8, ac atgynhyrchir y testun hwnnw uchod;<sup>2</sup> gw. hefyd y sylwadau rhagarweiniol a'r nodiadau yno.

## 13

Ateb Llywelyn ap Gutun yw'r cywydd hwn i'r cyntaf o ddau gywydd dychan iddo gan Ddafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffudd, neu Ddafydd Llwyd o Fathafarn (At.v).<sup>3</sup> Yn ei gywydd ef, beirniada Dafydd Llwyd Lywelyn am bentyrro cyfoeth ar ei fynych deithiau trwy Gymru a'r Mers. Yn ei ateb sylwa Llywelyn ar ddirmyg Dafydd Llwyd tuag ato a dweud, er ei bod yn wir ei fod yn cymhortha, a hynny o'i febyd, fod Dafydd Llwyd yntau yn gwneud yr un peth, a hynny ers cyn ei amser ef a chan geisio llawer mwy. Gellir casglu oddi wrth eiriau Llywelyn ei fod wedi pasio drwy ardal Dafydd ar un o'i deithiau cymhortha a bod hynny wedi arwain at wrthdaro rhyngddynt ac at ddychanu Llywelyn gan Ddafydd. Nid yw'n anodd gweld sut y gallai gwrthdaro o'r fath ddigwydd rhwng cymeriad fel

<sup>1</sup> GGM 148.

<sup>2</sup> Cyhoeddwyd testun hefyd gan Henry Lewis, 'Ymrysonau Dafydd Llwyd a Llywelyn ap Gutun', B iv (1927-9), 315-16.

<sup>3</sup> Golygwyd ateb Llywelyn yn GDLI 153-5 (cerdd 70). Cyhoeddwyd testun hefyd gan Henry Lewis, 'Ymrysonau Dafydd Llwyd a Llywelyn ap Gutun', B iv (1927-9), 319-21. Ar Ddafydd Llwyd, gw. CLC<sup>2</sup> 159; GDLI 11-16; Enid Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caernarfon, 1981).

Llywelyn a phatriarch lleol pwysfawr fel Dafydd Llwyd, yn enwedig os oedd yr olaf yn defnyddio rhai o'r un dulliau â Llywelyn i ymgyfoethogi.

- 2 **mabsant** Cyffelybir noddwyr weithiau i fabsant, 'nawddsant, nawddsant plwyf ...' (GPC 2296), gan y beirdd oherwydd meddwl amdanynt fel dynion da sy'n gwarchod tiriogaeth (cf., e.e., ddisgrifiad Sypyn Cyfeiliog o Harri Salsbri o Leweni, GSCyf 2.28, fel *Mabsant un dyfiant â dêr*), ac yr oedd Dafydd Llwyd o Fathafarn yn sicr yn wŷr lleol iawn adnabyddus a dylanwadol (cf. ll. 23 *Dafydd, bardd Dyfi*, ll. 33 *Â'i dafod o lan Dyfi*, ll. 37 *Tawed ef uwch tu Dyfi*). Coeglyd, er hynny, yw defnydd Llywelyn ap Gutun o'r gair ynglŷn â Dafydd a nodweddiadol o'i ddychan (cf., e.e., l. 6 *Ifor Mathafarn*, llau. 23–4 *bwriodd ... / ei ras oll ...*, ll. 41 *engyl angall, &c.*).
- 4 **Llwyd ... Llywelyn** Gthg. GDLl 153 (70.4) *Lwyd ... Lywelyn*, darlleniad nas ategir gan y llsgrau. Tad Dafydd Llwyd a olygir wrth *Llywelyn*. Gan fod *aelwyd* yn eb., disgwyliid gweld y ffurf dreigledig *Llywelyn*, gw. Treigladau 108, ond cf. yr arfer o beidio â threiglo a. yn goleddfu eb. weithiau pan ddelai'n union ar ôl yr orffwysfa er mwyn y gynganedd, *ib.* 55n *et passim*.
- 5 **Cymru** Gellid hefyd ddarllen *Cymry* megis yn llsgrau. BCFMNXcp; cf. ll. 43.
- 6 **Ifor Mathafarn** Cyffelybir Dafydd Llwyd i Ifor Hael (gw. 10.30n).
- 7 **mawrchwydd** Cyfeirir at Ddafydd Llwyd.
- 8 **uwch** H.y., y mae Dafydd Llwyd yn erchi mwy nag y mae Llywelyn ap Gutun.
- 11 **ei** Cyfeirir at *Mwnai*, sy'n eb. (nid [*t*]alm, sy'n eg.). Gan y gall *mwnai* hefyd fod yn e. torfol yn golygu 'darnau arian' (gw. GPC 2509), gellid hefyd ddeall *i* y llsgrau. i ddynodi *eu*, cf. GDLl 153 (70.11).  
**dilyn** Arno ynglŷn ag arian, cf. TA 220 (LIV.57–8) *Dal dy gefn, dilid gyfoeth, / Dy rinwedd yw, dewr, neu ddoeth*.
- 13 **mi a'i rhwymais** Nid yw'n eglur at beth y cyfeirir. Ai at *Mwnai* (ll. 11) ? Os felly, ymddengys mai'r awgrym yw fod Llywelyn wedi diogelu hwnnw, ar ffurf arian neu anifeiliaid, rhag crafangau Dafydd Llwyd.
- 14 **Sais** Efallai mai'r rheswm y cyfeirir at Ddafydd Llwyd felly yw ei farusrwydd.
- 15–16 A oes yma adlais o Math vii.3–5, Luc vi.41–2 am y brycheuyn a'r trawst yn y llygad? Cf. hefyd lau. 41–2.
- 16 Diddorol sylwi y dilynir y ll. hon yn llsgr. K gan gwpled sy'n cyfateb i 12.51–2.
- 17 **o'm addef** Deallir *addef* yn e. Ystyr yr ymadrodd yw 'os addefaf

- [hynny]', h.y., 'os dywedaf y gwir' (cf. y S. 'if truth be told') neu'r cyffelyb (cf. ymadroddion megis *o'm tyb, o'm barn, &c.*). Gthg. GDLl 153 (70.17), 213, lle y deallir y geiriau i olygu 'o'm cartref'.
- 20 **Machynllaith** Yr oedd yn agos i Fathafarn yn Llanwrin lle y trigai Dafydd Llwyd.  
Yng ngeirfa Wiliam Llŷn dyfynnir dan y gair *Taith* 'siwmai' y fersiwn hwn o'r ll., *o vachynllaith duc daith dec*.
- 21 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf ond gellid ynganu *diolchaf* yn ddeusill.
- 22 **Meurig** Gellid dadlau, ar bwys ei gyplysiad â Duw a Mair, mai sant a olygir. Rhestrir sant o'r enw Meurig ap Tewdris ab Teithall, brenin Morgannwg a chymwynaswr mawr i'r Eglwys, yn LBS iii, 481–3 (ceir bron y cwbl sy'n hysbys amdano yn Llyfr Llandaf, *l.c.*). Fodd bynnag, nid oes cysylltiad amlwg rhwng Llywelyn ap Gutun a Meurig ap Tewdris. Ai rhyw noddwr, neu ryw gydnabod arall o bwys, i Lywelyn, yn hytrach, ydoedd y Meurig hwn?
- 23 **Dyfi** Yr oedd Mathafarn, cartref Dafydd Llwyd, ar lan Afon Dyfi.
- 25 **cof** Efallai mai 'synnwyr' a olygir yma.  
Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *fusasai* yn ddeusill.
- 28 **croesan** Cf. disgrifiad Dafydd Llwyd o Lywelyn, GGM 5.40, yn *Delynor heb awdl uniawn*.
- 29 **llu** Sef tylwyth neu gydnabod Dafydd Llwyd, ond odid.
- 31 **os dioddef** Rhaid deall rhywbeth fel *a wna* ar ei ôl.
- 33 **o Lan Dyfi** Gthg. GDLl 154 (70.33) *yng Nglan Dyfi* (cf. llsgrau. LPUai).
- 35–6 Ni cheir y cwpled hwn yn GDLl 154 yn dilyn ll. 34 (cf. llsgrau. JLMPSWXYabefijknop).
- 35 **os celaf** H.y., os bratha Llywelyn ei dafod (yn wyneb [*rh*]uad (ll. 32) Dafydd Llwyd).
- 38 **taw** Er mai yn llsgr. *f* yn unig y ceir y darlleniad hwn, dyma'r un o'r darlleniadau gorau o ran synnwyr. Gellid hefyd ystyried darlleniad llsgrau. BDVZl *mvd* ond dichon ei bod yn arwyddocaol mai *t* yw llythyren gyntaf yr amrywiadau eraill (ac eithrio llsgr. A *hy*).
- 41–2 'Yn hwyrfrydig y gwêl (sef Dafydd Llwyd) ... eirchiad yn llygad y llall (sef Llywelyn ap Gutun)', h.y., amharod yw Dafydd Llwyd i gydnabod y caiff rhywun heblaw ef ei hun fod yn eirchiad; cf. hefyd lau. 15–16n.
- 41 **engyl** Sylwer mai un. ydyw, nid ll., gw. GPC 1182, a cf. y ffordd y geilw Llywelyn Ddafydd (yn goeglyd) yn *Mabsant* yn ll. 2.
- 43–4 Y synnwyr yw '[achlysur] canu i'r Cymry oedd cynnull ef a'i ddatgeiniaid', cyfeiriad at ganu brud tra gwladgarol Dafydd Llwyd.
- 46 **fal ceiniog Ieuan** Efallai mai'r hyn a olygir yw cywydd nad oedd yn



werth llawer (cf. ll. 45 *gweniaith a gân*). Os felly, byddai'n gwrthgyferbynnu'n naturiol â gwerth yr hyn a ddisgrifir yn y cwpled nesaf. Ni welwyd enghraifft arall o'r ymadrodd *ceiniog Ieuan* ond efallai mai swm bychan ydoedd a delid ar achlysur cysylltiedig â rhywun o'r enw, megis gŵyl Ioan Fedyddiwr neu Ioan Efenglylydd (gw. GPC 1759).

47–8 Yr hyn a olygir yw fod Dafydd Llwyd wedi gwerthu ei waith ar ffurf llawysgrif (*Papur ac inc*) am grocbris (*fal pupr gwyn*), er nad oedd y cynnwys yn werth hynny (*er nas perthyn*). (Ystyrid pupr yn arwydd o gyfoeth yn yr Oesoedd Canol a thelid yn ddrud amdano.)

50 **uwch no'r gwŷdd** H.y., ychen o'r maint mwyaf.

52 **oni gawn** Ar y treigladd meddal, gw. 5.38n.

53 **heb hëu** H.y., heb *ei* hau (sef Powys).

53–4 Yn GDLI 154 (71.55–6) ceir y cwpled hwn yn dilyn ll. 58.

54 **ein ... na** Derbynnir darlleniad y rhan fwyaf o'r llsgrau. Gthg. GDLI 154 (70.56) *ei ... i'w*; ag *ei*, cf. llsgrau. BDUVZI, ond ni cheir dim sy'n cyfateb i *i'w*.

56 **anrheg** H.y., y rhoddion a dderbyn y ddau fardd o erchi.

58 Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf ond gellid hepgor *a* i gael y nifer cywir (cf. llsgrau. KMOPSUahi).

59 **dau druthiwr** Sef y ddau fardd (oherwydd eu gwaith yn erchi), nid y *Dwy dreth*.

60 **maen a dŵr** Ymddengys mai cyfeiriad sydd yma at chwedl 'Owain' lle y mae ymladd yn dechrau wedi i Owain daflu dŵr dros y garreg ger y ffynnon (gw. *Owein or Chwedyl Iarllles y Ffynnawn*, ed. R.L. Thomson (Dublin, 1968), 8–9). Os felly, deellir y geiriau i olygu 'i frwydro'.

63 **o dri thyfiant** Ffordd arall o ddweud 'cymaint deirgwaith'.

64 **drws nant** Ai'r adwy a ffurfir gan ddyffryn a olygir (ar yr ystyron hyn, gw. GPC 1089, 2551)? Os felly, efallai mai maint y ceisir ei gyfleu ynglŷn â threth Dafydd Llwyd. Fodd bynnag, y mae'n bosibl hefyd fod yma enw lle, ac os felly, ymddengys fod ei drigolion yn talu trethi uchel iawn. Ceir Drws-y-nant rhwng Llanuwchllyn a Dolgellau, ymhellach gw. GGRG 76–7, a cf. darlleniadau llsgrau. Xfg *drws y nant*.

66 Y mae'r gynghanedd yn afreolaidd. Ymddengys mai rhyw fath o gynghanedd sain gadwynog ydyw ond disgyn rhan gyntaf y cytseinedd ar yr un gair â'r odl gyntaf ac nid ar ei ôl.

Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf ond gellid hepgor *y* i gael y nifer cywir.

68 **ucho** Gw. 8.12n.

Ateb Llywelyn ap Gutun yw'r cywydd hwn i'r ail o ddau gywydd dychan iddo gan Ddafydd Llwyd o Fathafarn (At.vi).<sup>1</sup> Yn hwnnw edliwia Dafydd iddo fanteiso ar grefft y bardd a chreffft y telynor fel ei gilydd i hel ei geiniog, gan ychwanegu nad yw'n fardd cymwys. Ymetyb Llywelyn trwy gwyno eto am ddychan di-baid Dafydd, amddiffynna ei hawl i fod yn brydydd, a chyhudda Ddafydd eto o fod yn fwy barus nag ef. Diwedda'r dychan ar nodyn ysgafn pan awgryma Llywelyn y dylai ef, Dafydd a Syr Rhys o Garno rannu Cymru rhyngddynt i ddibenion ysbail, gyda Llywelyn yn cael Gwynedd, Dafydd ei wlad ei hun a Syr Rhys y de.

- 1 **Ofydd** Cyffelybir Dafydd Llwyd yn goeglyd i'r bardd Rhufeinig Publius Ovidius Naso (43 C.C.–?17 O.C.) a ystyrir yn yr Oesoedd Canol yn ben-meistr canu serch; gw. OCD<sup>3</sup> 1084–7.
- 5 **'mferwi** Anfoddfaol yw darlleniadau'r rhan fwyaf o'r llsgrau. Y darlleniad mwyaf cyffredin (llsgrau. CDIRSTZag) yw *am ferw i ddwyd*, a newidiwyd hwn yn *amferw 'dd wyd* yn GDL1 157 (172.5) a'i ddeall i olygu 'baldorddi yr wyt' (*ib.* 213), er na cheir y ffurf *amferw* yn y llsgrau. ac mai *e. fyddai*, nid be. Er nas ceir ond mewn un llsgr., *ymferwi 'ddwyd* llsgr. e sy'n rhoi'r synnwyr gorau a derbyniwyd hwn gan ei dal-fyrru er mwyn hyd y ll.
- 9 **rhifwn** Gthg. GDL1 158 (72.9) (*a rifais* a geir yn llsgr. J yn unig (ond cf. llsgr. b *a ryfes*).  
**mor ofer** Yn rhesymegol, dilyna *Dy swydd* yn y ll. nesaf.
- 11–16 **Sonnir** yma am wraig o'r enw Hunydd (gw. ll. 15n) a geisiodd rifo nifer y sêr gyda'r canlyniad i'w llygaid fynd yn groes (ll. 11 *tremynt tro*) ac iddi fethu â gweld mwy na saith seren byth wedyn.
- 11 **tremynt tro** Gthg. GDL1 158 (72.11) *dremynt dro* a geir yn llsgrau. IRY<sup>2</sup> (a cf. llsgrau. TW *dreinynt dro*, llsgr. a *dremynt draw*). Yr un, er hynny, fyddai'r sain oherwydd y calediad (-t d- > t) ac efallai na ddisgwyliid i'r sangiad dreiglo.
- 15 **Hunydd** Rhestrir merch o'r enw yn un o gariadferched Hywel ab Owain Gwynedd yn ei 'Orhoffedd', gw. GLIF 6.73; cf. hefyd GEO Atodiad C, rhif 9.1; BDG 337 (CLXVI.9) (gw. hefyd GLIBH 157). Fodd bynnag, ni ellir gwybod ai un ynteu sawl merch o'r un enw a olygir yn yr enghreifftiau hyn ac yn enghraifft y testun. Yn ôl Melville Richards, 'Gwŷr, Gwragedd a Gwehelyth', THSC, 1965, 40, perthyn yr enw i'r cyfnod cynnar a diflannodd yn y 15g. Yr unig enghraifft ar ôl

<sup>1</sup> Golygwyd ateb Llywelyn yn GDL1 157–9 (cerdd 72). Cyhoeddwyd testun hefyd gan Henry Lewis, 'Ymrysonau Dafydd Llwyd a Llywelyn ap Gutun', B iv (1927–9), 323–5.

- 1200 a welwyd yng ngwaith Bartrum yw Hunydd ferch Gwyn ab Einion a anwyd tua 1370, gw. P.C. Bartum: WG1 'Elystan Glodrydd' 50.
- 16 **teiroes hydd** Sef oes hir iawn, gw. GPC 1956. Yr oedd yr hydd hefyd ymhlith yr anifeiliaid hirhoedlog yn chwedl 'Culhwch ac Olwen'. Yn GDLI darllenir *einioes* am *deiroes* ond ni cheir y darlenniad hwnnw yn y llsgrau.
- 18 **cael y maes o'm claim i** 'Ennill buddugoliaeth ar fy hawl i'. Ar yr ymadrodd *cael y maes*, gw. GPC 387.
- 20 **bad** Cyfeiriad o bosibl at deithiau Dafydd Llwyd dros Afon Dyfi.
- 21–4 Yr hyn a ddywedir yw fod Dafydd Llwyd wedi darparu perfformiad cerddorol yn ei lys ar gyfer Syr Rhys (gw. ll. 22n) am i Syr Rhys ddatgan cywydd i Lywelyn ap Gutun yn galw arno i gymodi â Dafydd Llwyd.
- 22 **Syr Rhys** Diau mai Syr Rhys o Garno a olygir y dywed Dafydd Llwyd iddo roi caniatâd i Lywelyn geinioca o Garno hyd Gernyw am iddo golli ei farch (At.v.25–30). Deuai o ardal Carno a Llanbryn-mair, blynyddoedd ei oes oedd tua 1440–80 a bu'n offeiriad yng Nghorwen gan fyw yn y Drewyn. Ymrysonodd â Dafydd Llwyd a Guto'r Glyn; gw. GDLI 160–2 (cerddi 73–4), 209; GGI<sup>2</sup> 277–82 (CVIII–CIX), 360; CTC 378–9. Cf. llau. 46, 49. (Yn R. Wallis Evans, 'Y daroganau Cymraeg hyd at amser y Tuduriaid, gan roi sylw arbennig i'r cywyddau brud' (M.A. Cymru [Caerdydd], 1935), 154–5, awgrymir ar sail llau. 21–4 fod Syr Rhys yn fardd i Ddafydd Llwyd ei hun ond ni ddywedir cymaint â hynny yno.)
- 23 **o** Gthg. GDLI 158 (72.23) *o'i* (cf. llsgrau. GIJNPQRTb).
- 25 **dwylw** Yr ystyr yw 'dwyblaid' (GPC 1110). Yn y cyd-destun ymddengys mai'r hyn a olygir yw plaid / ymarferwyr cerdd dafod a phlaid cerdd dant. 1632 yw dyddiad yr enghraifft gynharaf o'r gair a restrir yn GPC 1110.
- 28 **dwyradd** Sef prydyddiaeth a thelynoriaeth, gw. y cwpled nesaf. Gwyddys am feirdd eraill a fedrai'r ddwy grefft ac ymddengys y rhoddid yr un urddas ar y ddwy, gw. Enid Roberts, 'Marwnadau Telynorion', TCHSDd xv–xvi (1966–7), 80–117 *passim*; uchod tt. 4–5.
- 29 **parod ddwy iaith** Fe'i deallir yn gyfansoddiad llac—'parod fy nwy iaith'. Ymddengys mai'r *dwyradd* (ll. 28) a olygir wrth *ddwy iaith*.
- 30 **llawnwaith** Tybed a ddylid darllen *lawniaith*, er nas ceir yn y llsgrau. (cf. GDB 34.5–6 *Ar ddvll llawn Llefoed* [darlenniad *ddvll llawnoed*] y *dywedaf*, / *Arglwydd fal Cynddelw a gynhaliad* (Dafydd Benfras))?
- 32 Gthg. GDLI 158 (72.32) *Nac oen na mollt nac un march* (cf. llsgrau. IJRTWb). Yn *l.c.* hefyd dilynir y ll. gan y cwpled *Erchi a wnâi tywarchawr / Ychen a meirch a chwân mawr!* (cf. llsgrau. Jb).

- 37–8 Gellid hefyd ddodi'r gofynnod ar ddiwedd ll. 38, neu drin y cwpled fel gosodiad trwy ddodi coma ar ôl *wahoddiaeth*, dileu'r cromfachau a deall *On'd* i olygu 'eithr' (S. 'but').
- 46 **moes ran** Gthg. GDLI 158 (72.48) *Moes ei ran* (cf. llsgr. K).
- 48 **arnyn'** Sef trigolion y *wlad* (ll. 47).
- 50 **i'w hanrheithiaw** Sef trigolion y *deau* (ll. 49). Ceir *anrheithiaw* hefyd yn y llsgrau. a gellid darllen hynny fel y gwneir yn GDLI 158 (72.52), gan ddeall 'w i gyfeirio at *dir* y deau. Ond, cf. llau. 47–8 *wlad ... / ... arnyn'* lle y crybwyllir tir yn gyntaf gan gyfeirio ato wedyn yn ôl ei drigolion. Hefyd, hepgorir *h* weithiau yn y llsgrau. ar ddechrau gair, fel nad yw ei habsenoldeb o reidrwydd yn dynodi'r rh.m. 3 un.gen.
- 51 **yma'n un** Gthg. GDLI 158 (72.53) *yma un* (cf. llsgrau. KNSZ).
- 52 **Dwy Wynedd** Sef Gwynedd Uwch Conwy a Gwynedd Is Conwy.
- 53 Gthg. GDLI 159 (72.55) *Un hwyl y dygwn helynt* (cf. llsgrau. Nc). Ar *hwyl ... helynt*, cf. 11.53.
- 54 **tair gormes** Tair Gormes Ynys Prydain, sef y Coraniaid, y Gwyddyl Ffichti (Pictiaid) a'r Saeson, gw. TYP<sup>3</sup> 90–3. Y mae'n bosibl, er hynny, mai 'Tair Prif Ormes Môn' a olygir, *ib.* 52. Gan y crybwyllir Beuno Sant yn ll. 56, y mae yma hefyd adlais o draddodiad am dair gormes a borthwyd gan y sant hwnnw, gw. TWS 82–3.
- 56 **Beuno** Beuno Sant, sant yn y 5–6g. a gysylltir yn bennaf â Chlynnog Fawr ac â manau eraill yng ngogledd Cymru; gw. LBS i, 208–21; G 56; CLC<sup>2</sup> 46.
- 57 **parai** Gthg. GDLI 159 (72.59) *A wnâi* (cf. llsgrau. JMbe).  
**nis dysg dyn** 'Ni ddysg dyn ef (sef Beuno) [sut i wneud hynny] (sef gwledd a fyddai'n para am flwyddyn)', cyfeiriad, fe ymddengys, at wyrthiau'r sant.
- 57–8 Nid oes cyfeiriad at wledd o'r math hwn yn benodol ym Muchedd Beuno, LIA 119–27. Fodd bynnag, sonnir am Feuno yn peri lladd a pharatoi ych ifanc i fwydo neiaint y brenin Cynan fab Brochwel, pryd y methwyd â thwymo'r dŵr yn y crochan i'w goginio, *ib.* 121. Adeg ei farw, hefyd, gwahodddwyd y sant gan Dduw i'r wledd dragwyddol, *ib.* 126, a cheir cywydd gan Rys Goch Eryri lle y tynnir sylw at y gwahaniaeth rhwng y wledd hon a'r wledd ddaearol, ddarfodedig a gynhaliodd yr ymherodr Hu o Gaergustennin, gw. GRhGE cerdd 14. Yr oedd, felly, ddigon o gysylltu'r sant â gwleddoedd.
- 59 Gthg. GDLI 159 (72.61) *Neu'n gyrru yn un gweryd. neu a'n gyrrai* a geir yn y rhan fwyaf o'r llsgrau. Gellid hefyd ystyried y darlleniad *gweryd* ond bernir bod *gwryd* yn fwy cydnaws yma â'r sôn am allu Beuno Sant (cf. ll. 50 *Yn un rhuthr*).

## 15

Thema'r cywydd hwn yw dirwy a godwyd ar Lywelyn ap Gutun yn sir Feirionnydd am ryw *geintiach* (ll. 40) na fanylir arni. O ganlyniad bu'n crwydro Cymru i hel digon o wŷn i'w gwerthu er mwyn talu ei ddyled a oedd, fe ymddengys, yn un sylweddol (gw. llau. 51–4). Gan wŷr Gwynedd y caiff yr wŷn a chanmola hwy am eu haelioni. Crintachlyd, ar y llaw arall, fu gwŷr Gwent, Morgannwg a Phowys wrtho. Ar ôl hel y praidd, ymddengys i Lywelyn ei yrru trwy Bowys a datgan ei gerdd yno gan edliw i'r trigolion eu hamharoddrwydd i'w helpu (gw. llau. 55–60).

- 1 H.y., y mae dwy wlad (sef y Mars a Môn, gw. y ll. nesaf) sy'n galluogi'r bardd i dalu ei ddyledion.
- 3 **diswr** Fe'i deallir yn fenthyciad o'r S.C. *dees* 'dice', gw. GPC 1040, a therfyniad gweithredydd, 'chwarawwr dis'; cf. GSH 27.15–16 *A'r cardwyr, diwynwyr, dôn*, / *A'r diswyr yn rheidusion*. Ymddengys mai ergyd y gymhariaeth yw fod diswr, yntau, yn gyfarwydd â chaledi ariannol oherwydd y ddyled y gall fynd iddi o ganlyniad i'r elfen o hap sy'n gynhenid i'w weithgaredd.
- 6 **diawl Gwent** Nis enwir. Ymddengys mai rhyw wŷr o bwys ydoedd a dramgwyddwyd gan Lywelyn ac o'r herwydd a wrthododd roi caniatâd iddo gardota yn y fro. Ai Syr Wiliam Herbert, Iarll Cyntaf Penfro, a oedd â'i gastell yn Rhaglan, a olygir?
- 7 **dewised** Bron na ellir ei ddeall i olygu 'cadwed' yn yr ystyr 'caiff ef gadw'.
- 9 **tros gywydd** 'O ganlyniad i [ganu] cywydd[au]. Ar ystyr *tros*, gw. GPC 3616 (3 (a)).  
**trymwydd** Fe'i deallir yn gyfuniad o *trym* (o *trwm*) a *gwŷdd* yn yr ystyr 'gwaywffyn', gw. GPC 1753 (d); cf. GILIF 12.6 (a ffurf f. yr a. dan ddylanwad yr eb. *trin*; gthg. hefyd yr ystyr 'presenoldeb neu wyneb llidiog' a roddir *ib.* 163) *Hil dau Ddafydd, dromwydd drin* (Ieuan Llwyd Brydydd). Ymddengys mai at waywffyn a gludai Llywelyn ar ei deithiau, i amddiffyn ei hun neu i ymosod ar eraill (cf. 2.25n), y cyfeirir.  
**trom wedd** Cyfuniad llac—'llym / tost eu modd / heffaith' (am y gwaywffyn).
- 10 H.y., soniodd Llywelyn am Fôn, Arfon a Meirionnydd (*teirsir Gwynedd*) yn ei gywyddau, canodd iddynt.
- 11 **boneddigion** Ai gwŷr Powys a olygir (gw. y sylwadau rhagarweiniol uchod)?
- 12 **telyn** Gall mai at grefft Llywelyn fel telynor y cyfeirir neu ynteu at ei waith yn defnyddio telyn i gyfeilio i'w gerddi. Yn wyneb y cyfeiriad at

*gywydd* yn ll. 9, efallai mai'r ail sydd fwyaf tebygol.

- 13 **gwrêng** 1547 yw dyddiad yr enghraifft gynharaf o'r gair a restrir yn GPC 1702.

**damwoen dig** Ymddengys fod Llywelyn yn edliw i bobl mor isel eu hystad â'r *gwrêng* feddu ar wŷn ac yntau'n brin ohonynt. Ar y llaw arall, efallai mai'r awgrym yw eu bod yn rhoi eu hŵyn, er mor gas (*dig*) ganddynt hynny, h.y., eu bod yn hael (cf. ll. 22). Amrywiad yw *damwoen* ar *damwyn*, sydd yn ei thro'n amrywiad ar *damwain*; gw. GPC 886; GMW 4.

- 14 **pwn** Llsgrau. *ol*. Diwygir er mwyn y synnwyr a'r gynghanedd.

- 15 **Llannerch-y-medd** Plwyf ym Môn, gw. WATU 135. Yno yr oedd Llwydiarth, cartref Dafydd ap Gwilym ap Dafydd, un o noddwyr y bardd Guto'r Glyn (gw. GGI<sup>2</sup> 96–7 (XXXVI)) y bu Llywelyn yn ymwneud ag ef ac y cyfeirir ato yn y gerdd (gw. llau. 17, 52).

Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *wŷn yn*.

- 16 **mam Wynedd** Cf. yr ymadrodd 'Môn mam Cymru' a grybwyllir gan Gerallt Gymro; DGG<sup>2</sup> 145 (LXXIX.7–8) *Engylion Môn mam ynys / Ydych ymhob llewych llys* (Gruffudd Gryg).

- 17 **boddes Guto** Cf. cerdd 11 lle y dychmyga Llywelyn ap Gutun fod Guto'r Glyn wedi boddi ym Malltraeth. Nid yw'n eglur paham y cyfeirir at hyn yma. Gellid dweud mai er mwyn rhoi cyfle i'r bardd i'w ddyrchafu ei hun gerbron y gynulleidfa (er yn gellweirus) trwy ddilyn esiampl rhywun mor enwog â Guto'r Glyn yn clera ar yr ynys. Fodd bynnag, yn ll. 52 cyfeiria Llywelyn at *Guto 'nghâr*, sef yr un gŵr yn ddiau â'r Guto hwn, a gall ei fod yn ei gyfarch yn bersonol yno (gw. ymhellach l. 52n). Os oedd Guto'r Glyn yn bresennol yng nghynulleidfa Llywelyn, byddai'r sôn am ei fodd i ym Môn yn ffordd wrth-fynd-heibio o dynnu ei goes.

- 18 **to** Efallai mai'n ffigurol y dylid ei ddeall am 'wybren'. Gan fod tir Môn yn wastad ac nid yn fynyddig, y mae'r edrych fel pe bai mwy o bellter rhyngddo a'r awyr uchod. Efallai fod awgrym hefyd fod mwy o ddefaid i'w cael ar dir o'r fath.

- 19 **brys am ben** H.y., y mae *gwŷr y brenin* yn barod iawn i roi wŷn.

- 19–20 **gwŷr y brenin, / ... sir Gaer** Gallai *sir Gaer* ddynodi sir Gaerfyrddin, sir Gaernarfon (a gw. GSDT 10.33n), neu swydd Gaer (*S. Cheshire*). Gan mai am Wynedd y mae'r bardd yn sôn, y mae'n debygol mai sir Gaernarfon a olygir. Os felly, ymddengys mai'r rheswm y cyfeirir at ei thrigolion fel *gwŷr y brenin* (ll. 19) yw fod sir Gaernarfon yn rhan o'r Dywysogaeth ac yn eiddo brenin Lloegr.

**brwyswyr** Gellid ei ddeall yn gyfuniad o *browys* 'bywiog ... llon ...', GPC 334, wedi ei gywasgu, a *gwŷr*. Ond gall mai benthyciad ydyw o'r

f. S. *broach*, gw. OED<sup>2</sup> ii, 565 (4 (a)), ‘to pierce (a cask, etc.) so as to draw the liquor; to tap’, gyda’r terfyniad ll. -*wyr*.

21 **hwnt ruddaur** ‘Acw [y mae] rhuddaur’.

25 Y mae’r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *tyrfa a*.

26 **trais** Ffigurol yw ei ystyr yma: y mae Llywelyn yn hawliwr rhoddion hy (gw. hefyd 2.25n).

Y mae’r ll. yn rhy fyr o sillaf oni chyfrifir *enw* yn ddeusill.

27–32 Sylwer bod y diriogaeth a ddisgrifir yma yn cyfateb i ffiniau Gwynedd.

27 [y] **llawr pella’** Sef Ynys Môn.

**llawr y llyn** Y tebyg yw fod rhyw air fel *hyd* (‘hyd at’) yn ddealledig o’u blaen yn hytrach na’u bod yn sefyll mewn cyfosodiad â *llawr pella’f*. Ymddengys mai ardal y Bala a olygir lle y saif tîrnod mawr llyn Tegid. Os felly, ffurfia Môn a’r llyn begynau gorllewinol a dwyreiniol yn naearyddiaeth Llywelyn ap Gutun (a cf. ll. 30n). Sylwer, er hynny, y defnyddir yr un gair, *llawr*, ddwywaith yn yr un ll., a gall fod rhyw lygredd yn y testun.

28 **Berwyn** Bryndir eang yng ngogledd Powys i’r de-ddwyrain o Lyn Tegid.

29 **acw** Sef Môn.

**o fôr** ‘O [gyfeiriad] môr’ yn hytrach na ‘thros fôr’. Gan y cyfeiria Llywelyn at Gaergybi yn y ll. nesaf, ymddengys mai môr glannau Ynys Cybi a olygir.

Y mae’r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *Acw o*.

30 **Dyfi** Ffurfia Afon Dyfi ffin ddeheuol Meirionnydd, a hefyd begwn deheuol mewn perthynas â Chaergybi yn y gogledd (cf. ll. 27n).

31–2 H.y., y mae’n rhaid i’r bardd dalu rhyw ddirwy (*ffin*, gw. GPC 1289 d.g. *ffin*<sup>2</sup> a cf. ll. 44) ym Meirionnydd. Ymddengys mai rhyw *geintiach* (ll. 40) oedd y rheswm am hyn.

33 **ni’*m*** Llsgr. A *min*, llsgr. B *myn*. Diwygir er mwyn y synnwyr.

34 **llyn** Dichon mai Llyn Tegid a olygir, cf. ll. 27 y *llyn*. Os felly, trigolion Meirion a olygir wrth y rheini a oedd *islaw* ac *uwchlaw* y llyn.

36 **bythaid** Nis rhestrir yn GPC 368 ond gellir ei ddeall yn gyfuniad o *bwth* a’r terfyniad e. -*aid*: ‘llond cwt’ neu’r cyffelyb.

37–40 Deellir y disgwylir i Lywelyn werthu 100 o’i wŷn, sef gwerth 500 ceiniog.

40 **un geintiach** Ymddengys mai at ryw gweryl a gafodd Llywelyn ac a arweiniodd at ei *ffin* (ll. 31) y cyfeirir; cf. *fy ngham*, *tra fŷm wamal* yn y ll. nesaf.

- 42 **Gwynedd wŷr duedd** H.y., tuedd gwŷr Gwynedd, ffordd arall o ddweud ‘gwŷr tuedd Gwynedd’.  
**a dâl** Y gwrth. dealedig yw rhyw air fel ‘dyled’, cf. ll. 1 *a dâl dyledion*.
- 43–4 Cyfeirir at y traddodiad fod gwŷr Morgannwg wedi talu iawndal dros Ddafydd ap Gwilym i’r Bwa Bach am Forfudd, gw. D.J. Bowen, ‘Dafydd ap Gwilym a Morgannwg’, LICy v (1958–9), 172–3.
- 47–8 Gwŷr Morgannwg (nid Gwynedd) sydd dan y lach ac edliwir iddynt eu crintachrwydd ynglŷn â rhoi wŷn.
- 47 **o** ‘O ran’.  
 Y mae’r ll. yn rhy hir o sillaf.
- 49–50 H.y., y mae’n haws i Lywelyn hel cardod gan bobl dlawd (*gwan*) Gwynedd na chan bobl Morgannwg.
- 49 **llog** Ar ei ystyrion, gw. GPC 2202 d.g. *llog*<sup>1</sup>. Efallai na olyga fwy na ‘tholl, dirwy’ yma (cf. ll. 31 *ffin*). Ynteu a gafodd Llywelyn ap Gutun fenthyciad gan ryw usurwr i’w helpu ymhellach i dalu ei ddirwy? Os do, gellid dadlau mai hwnnw a olygir wrth y *Fleiddias* yn ll. 53. (Ceir cerdd gan Ddafydd y Coed, GDC cerdd 9, lle y cwyna am golledion ariannol a ddaeth i’w ran o ganlyniad i arian a fenthyciwyd iddo gan usuriwr.)
- 50 **gyrrwr geiniog** ‘[Rhoddwr] ceiniog [i] yrrwr (wŷn)’.
- 51 **troell hen** Ymddengys fod angen deall ‘o ddefaid’ ar eu hôl, ond nid yw’r eglur beth a ddynodir gan y geiriau eu hunain. Ystyr gyffredinol *troell* yw ‘olwyn, cylch’ (gw. GPC 3612). Ai rhyw adeiladwaith cylchog—math o ffald—a olygir?
- 52 **Guto ’nghâr, gut yng Nghorwen** Cyfeiriad at yr ymryson a fu rhwng Guto’r Glyn a Thudur Penllyn wedi i Guto fynd ar daith borthmona i werthu defaid Syr Bened, person Corwen (gw. GGI<sup>2</sup> cerddi XXXI–XXXIII). Megis yn ll. 17, y mae’n anodd gwybod ai sôn am Guto wrth y gynulleidfa y mae Llywelyn ynteu ei gyfarch fel aelod ohoni. Efallai mai ‘cyfaill’ yn hytrach na ‘pherthynas’ yw ystyr *câr* yma; cf. 5.4–6n. Bernir mai ffald ddefaid Syr Bened a olygir wrth *gut* (cf. ll. 36 *bythaid o wŷn*). 1547 yw dyddiad yr enghraifft gynharaf o’r gair a restrir yn GPC 632 d.g. *cut*<sup>1</sup>. Plwyf oedd Corwen yng nghwmwd Edeirnon ym Mhowys Fadog, gw. WATU 48, 63.
- 53 **bleiddias** Yn ffigurol am y sawl a oedd yn mynnu arian gan Lywelyn. Nis enwir yn y gerdd; gw. hefyd l. 49n.
- 54 **ficsys** GPC 1269, ‘? argoel(ion)’, benthyciad efallai o’r S. *ƒbissex* [*sic*] ‘the intercalary day in a leap-year’, l.c. Aneglur yw ei ergyd yma.  
**rheidus** Bydd y bardd yn anghenus oherwydd y nifer mawr o ddefaid (*tri llonaid troell hen*, ll. 51) y mae’n rhaid iddo eu rhoi yn dâl.
- 56 **Cerrig** Tebyg mai Cerrigydrudion (ychydig i’r gorllewin o Gorwen) a



olygir. Cyfeirir felly ato heddiw.

59–60 Ni wna gwŷr Powys dalu dim i Lywelyn ap Gutun am yrru wŷn Gwynedd atynt: gwell ganddynt fynd i Wynedd i'w cyrchu eu hunain.

59 **cost dalu** 'Talu cost'.

61 **dyffryn** Ni wyddys pa ddyffryn a olygir—Dyffryn Ardudwy, neu Ddyffryn Clwyd, efallai.

62 **deudal** Sef y tâl am yr wŷn a'r tâl am eu cyrchu.

63 **fal am briodi** Ymddengys fod y bardd yn synio am y cytundeb rhyngddo a'r gwŷr a fyddai yn ei dalu fel cwlwm priodas. Felly y syniai'r beirdd weithiau am eu perthynas â'u noddwyr, gw. Proinsias Mac Cana, 'The Poet as Spouse of his Patron', *Ériu*, xxxix (1988), 79–85.

64 **diolch** Fe'i dywedir yn goeglyd wrth wŷr Powys.

Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *briodi* yn ddeusill.

## 16

Deallwn oddi wrth y cywydd byr hwn fod Dafydd Llwyd o Fathafarn wedi *gyrru* (ll. 7) Llywelyn ap Gutun ar daith i Ynys Enlli.<sup>1</sup> Nid yw'n eglur ai ceisio rhywbeth i Ddafydd Llwyd yr oedd Llywelyn neu ynteu iddo'i hun. Gall fod y geiriau *Man ni cheid er eich mwyn chwi, / Na hybarch farch na hobi* yn awgrymu'r cyntaf, er na raid deall y cyfeiriad at farch a hobi yn llythrennol.<sup>2</sup> Ar y llaw arall, y mae'n bosibl mai mynd yno i ganu clod i'r abad yn y gobaith o gael rhyw wobr oedd bwriad Llywelyn wedi i Ddafydd roi'r syniad yn ei ben. Os felly, rhaid ei fod wedi ei siomi'n arw o gwrdd â Sais o abad a lefarodd wrtho yn Saesneg! Y mae Catrin T. Beynon Davies wedi dadlau mai i wella ei fuchedd yr aeth Llywelyn i Enlli,<sup>3</sup> eithr bernir mai annigonol yw'r dystiolaeth o blaid credu hynny. Ond beth bynnag yn union oedd neges Llywelyn, croeso crintach a gafodd gan abad yr ynys, ac ymddengys mai chwarae cast arno yr oedd Dafydd Llwyd wrth ei anfon yno. Dygir i gof waith Rhisiart Cyffin yn rhoi llythyr i Lywelyn yn caniatáu iddo gardota wŷn ond a arweiniodd, yn hytrach, at ei garcharu (gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 9). Nid oedd dim yn gasach gan y beirdd na noddwr crintachlyd ac y mae dychan Llywelyn i'r abad yn nodweddiadol o'r dirmyg a ddangosent at y cyfryw (cf. hefyd gerdd 18).

Ni wyddys mwy am yr abad nag a ddywed y gerdd. Prin iawn yw'r

<sup>1</sup> Golygydd y gerdd hon yn CTC 242 (cerdd 118), 521–4. Ar ei hawduraeth, gw. tt. 14–15.

<sup>2</sup> Go brin y byddai Llywelyn wedi mynd i ynys fechan i ofyn am farch neu hobi, a haws fyddai deall y geiriau yn ffordd arall o ddweud nad oedd dim o werth i'w gael yno ar gyfer Dafydd Llwyd.

<sup>3</sup> CTC 522. Ar ymwneud y beirdd ag Enlli a'u cerddi iddi, gw. *ib.* 522–3.

wybodaeth am abadau Enlli yn y bymthegfed ganrif:

Yn ystod gwrthryfel Glyndŵr gwelwyd Robert ap Maredudd ap Hywel yr abad yno'n brwydro dros blaid Glyndŵr ... ac ar 20 Mai 1448 gwelwyd dyrchafu Dafydd ab Maredudd, canon o'r tŷ yno'n abad ar y priordy ... Erbyn 1464 rhyw 'Robertus' (ac nid y Robert ap Meredith uchod ...) oedd yn bennaeth yn Enlli oherwydd ceir hanes amdano'n caniatáu gweddiâu ar ran Meurig Fychan, a'i wraig Angharad o'r Nannau ... ni cheir rhagor o dystiolaeth am y priordy'n y dogfennau cyfoes hyd 1507 pryd yr enwir John Conway fel abad Enlli ... Dylid cofio er hynny i Hywel ap Dafydd grybwyll rhyw Ieuan yn abad Enlli a chofier ei fod ef yn ei flodau ... rhwng tua 1450–80. Eto gall mai'r John Conway hwn yw'r abad a grybwyllir gan Hywel ac nid oes dystiolaeth ddigonol amdano'n y gerdd.<sup>4</sup>

O gofio cyfnod Llywelyn ap Gutun (gw. tt. 2–3) ac adeg marw Dafydd Llwyd o Fathafarn tua 1486,<sup>5</sup> tebyg mai abad yn y cyfnod 1464–c. 1486 oedd gwrthrych dychan y bardd, a'r unig enw sy'n hysbys o'r cyfnod hwnnw yw Robert na wyddys dim mwy amdano. Ymddengys yn annhebygol mai John Conway ydoedd gan i hwnnw fod yn abad Enlli drachefn yn 1523–4,<sup>6</sup> fel pe bai'n perthyn i gyfnod diweddarach. Awgrymodd Catrin T. Beynon Davies mai'r un gŵr ydoedd abad cerdd Llywelyn â Madog ap Madog o Gaerwedros a ddychenir mewn awdl gan Ddeio ab Ieuan Du ac a elwir mewn rhai llawysgrifau yn 'abad Enlli'.<sup>7</sup> Dyma ei dadleuon: byrdwn yr awdl yw nad yw Madog yn darparu dim ond caws i'w westeion, a cheir cyfeiriad at gaws yng ngherdd Llywelyn (ll. 12); gwyddys i Lywelyn grwydro i Gaerwedros (yng Ngheredigion) yn ogystal ag i Aberdaron ac Enlli; a chanwyd y ddwy gerdd tua'r un pryd. Fodd bynnag, go brin mai un o blant Alis oedd gŵr a chanddo enw fel Madog ap Madog ac a hanai o Gaerwedros; nid oes unrhyw arwyddocâd o reidrwydd i'r cyfeiriad at gaws gan y gall ei fod yn ymborth cyffredin ar Enlli, sut bynnag, yn yr oes honno; ac nid oes cofnod fod abad o'r enw Madog ap Madog wedi bod yn abad ar yr ynys. Oni cheir goleuni pellach, felly, rhaid i'r cwestiwn pwy oedd yr abad dan sylw aros yn ddiateb, ond y mae'n ddiddorol nodi mai Sais ydoedd ac nid Cymro mewn lle mor Gymreig o ran traddodiad ac ymwybyddiaeth.

Byr iawn yw'r cywydd, ac yn ôl teitlau llawysgrifau ABFG, darn ydyw o gerdd hwy. Dyna hefyd farn Catrin T. Beynon Davies.<sup>8</sup> Ar y llaw arall, er ei

<sup>4</sup> *Ib.* 523. Golygwyd cerdd Hywel ap Dafydd ab Ieuan (Hywel Dafi) yn Maredudd ap Huw, 'A Critical Examination of Welsh Poetry Relating to the Native Saints of North Wales (c. 1350–1670)' (D.Phil. Oxford, 2001), 83–91, 317–23.

<sup>5</sup> Enid Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caernarfon, 1981), 6–7; CLC<sup>2</sup> 159.

<sup>6</sup> CTC 523.

<sup>7</sup> *Ib.* 244, 523; gw. hefyd GDID 140. Ceir golygiadau o'r gerdd yn CTC 243–6 (cerdd 119), 524; GDID 39–41 (cerdd 16).

<sup>8</sup> CTC 521.

fyrred, ffurfia gyfanwaith rhesymegol a dichon mai ei fyrder yw'r unig sail dros gredu mai dryll ydyw. Deil Catrin T. Beynon Davies hefyd mai rhan o ymryson coll â Dafydd Llwyd ydyw.<sup>9</sup> Nid annichon hynny, ond nid oes rhaid tybio felly ychwaith gan y gall nad yw'r gerdd yn ddim mwy nag ymateb byr i gast ymarferol.

- 1 **Dafydd o ddyffryn Dyfi** Sef Dafydd Llwyd o Fathafarn, gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 13 a 13.23n.
- 2 **awydd** Awydd Dafydd Llwyd, efallai, i Lywelyn fynd i Ynys Enlli. Sylwer mai sillaf leddf yw'r -wy-, gw. G 48 a cf., e.e., GGDT 4.50 *Amod rhwydd awydd awen* (Gruffudd ap Dafydd ap Tudur).
- 5 **cerddetri** Amrywiad ar *cerddet(i)an*, gw. GPC 466. 1658 yw dyddiad yr enghraifft gynharaf o'r gair a restrir yno.
- 7 **iangwraidd** 1632 yw dyddiad yr enghraifft gynharaf o'r gair a restrir yn GPC 1998.
- 8 **yn llaw ddiawl** Cf. DGG<sup>2</sup> 146 (LXXIX.31–2) *A lladd iarll, aed yn llaw ddiawl, / Neu farwn balch nifeiriawl* (Gruffudd Gryg). Yr ystyr yw 'dan affawd' neu'r cyffelyb.
- 9–10 **Man ni chaid ... / Na hybarch farch, na hobi** Ar y syniad a'r geiriad, cf. GDC 11.5–7 *Lle nis gwnaeth ... / ... / Hardd ged oesgred ... / Heirdd brydyddion prifion pryff ...* (Dafydd y Coed, am dref Llanymddyfri).
- 11 **mab Alis** H.y., Sais. Ar yr ymadrodd *plant Alis* am y Saeson, gw. GPC 2818.
- 12 Mewn S.Diw., *Brother, sit, eat bread or cheese*. Newidiwyd orgraff *eat* llsgr. H a *cheese* llsgrau. DF yn unol â MED.  
*or* Gan y bwyteir caws ar fara pan fônt gyda'i gilydd, disgwylid *and*, cf. llsgrau. BDFH, ond tyr hynny ar y gynghanedd. Yn CTC 242 darllenir *a'r*, megis yn llsgr. G, ond Cym. yw hynny o ran ffurf, nid S. Fodd bynnag, efallai mai'r ergyd yw mai un yn unig o'r ddau fwyd a gynnigiwyd i Lywelyn, h.y., tynnir sylw at gybydd-dod yr abad.  
*chese* Sylwer mai fel *s* yr yngenid y *ch-* yn Gym.
- 17–18 Gan nad oedd y gymuned ar Enlli yn un ddeuryw, ni ddylid deall cynnwys y cwpled hwn yn llythrennol.
- 19 **hwit-hwat** Amrywiad ar *chwit-chwat*, gw. GPC 858. 1584–90 yw dyddiad yr enghraifft gynharaf o'r gair a restrir yno.

<sup>9</sup> *Ib.* 522.

## 17

Yn yr englyn unodl union hwn canmolir person Llanarmon Mynydd Mawr am ei haelioni tuag at feirdd a dychenir person Selatyn am ei gybydd-dod. Yr un yw agwedd Llywelyn ap Gutun at yr ail ag at abad Enlli (gw. cerdd 16). Ni chafwyd goleuni yng ngwaith D.R. Thomas ynghylch pwy oedd person Llanarmon Mynydd Mawr.<sup>1</sup> Yn ei restr o reithoriaid plwyf Selatyn, dan y flwyddyn 1413, rhestrir John Barbour ac yna, dan y flwyddyn 1518, nodir marwolaeth Robert ap Hywel.<sup>2</sup> Ceir sawl Robert ap Hywel yn yr achau<sup>3</sup> ond ni lwyddwyd i uniaethu'r un ohonynt â gwrthrych y gerdd.

- 1 **Llanarmon** Llanarmon Mynydd Mawr, plwyf yng nghwmwd Mochnant Is Rhaeadr yn sir Ddinbych, gw. WATU 158.

Sylwer bod y gynghanedd yn wallus gan nad atebir *-rm-* yn *Llanarmon. ŷn'* Sef trigolion Llanarmon, y mae'n debyg.

**daioni** Llsgr. *ddaioni*. Diwygir er mwyn cytseinedd â *Dwy* yn y ll. nesaf.

- 3 **brat** '[A] cherpyn [amdano]'. Yr awgrym yw fod y person yn rhy grintach i brynu dillad teilwng iddo'i hun neu ynteu nad yw'n haeddu bod yn noddwr.

**Selatyn** Plwyf ger Croesoswallt yn swydd Amwythig, gw. WATU 197.

- 4 'Â [i guddio] y tu ôl i'r drws os gwêl rywun'. Ar dopos rhai noddwyr yn cilio rhag rhoi i'r beirdd, gw. D.J. Bowen, 'Y Cywyddwyr a'r Dirywiad', B xxix (1980–2), 459–60; *id.*, 'Siôn Cent a'r Ysgwieriaid', LlcY xxi (1998), 22–3.

Y mae'r ll. yn rhy hir o sillaf oni chywesgir *Â isgil*.

## 18

Yn yr englyn proest dalgron hwn cwyna Llywelyn ap Gutun am farchogaeth ar hyd ffyrdd ceffyl, a'r tebyg yw fod ffyrdd o'r fath yn arbennig o arw.

- 2 **gwân** Llsgrau. *gavan* y gellid ei ddeall yn ffurf ar *cafn* ond gwna'r ll. yn rhy hir o sillaf. Gallai'r amrywiad a geir yn llsgr. B fod yn ymgais ddiweddarach i gywiro hyd y ll. ac i gael gwell synnwyr ond y mae'n ddarlleniad boddhaol ac fe'i derbynir. Fe'i deallir i gynrychioli *gwân* yn yr ystyr 'ergyd' (gw. GPC 1572 d.g. *gwân*<sup>1</sup>), sef yr ergydion a ddioddefa march y bardd wrth gamu ar hyd llwybrau geirwon.

<sup>1</sup> Gw. D.R. Thomas: HDStA ii, 220–1.

<sup>2</sup> *Ib.* iii, 78.

<sup>3</sup> Gw. P.C. Bartrum: WG2, y mynegai ar gyfer Powys, 160.

**cryman crest** Disgrifiad, fe ymddengys, o ffurf mwng y ceffyl ar hyd ei wddf a'i ben.

3 **gwengast** Fe'i deallir yn gywasgiad o *gwenwyngas* 'peth i'w gasáu' gyda *t* anorganig ar y diwedd.

4 **wtra** 1547 yw dyddiad yr enghraifft gynharaf o *wtra* a restrir yn GPC 3739.

**gwilost** O safbwynt synnwyr y ll., gellid ei ddeall yn ffurf ar *gwilwst* 'ceffyl'. Sylwer, er hynny, nas rhestrir yn GPC 1661.

### *Atodiad i*

Dyma'r cywydd a ganodd Lewys Môn i Risiart Cyffin, Deon Bangor, yn sgil sylwadau dychanol Llywelyn ap Gutun am y Deon wrth iddo gystadlu am Alswn o Fôn (cerdd 8). Er na ffurfia ran o ymryson â Llywelyn ap Gutun, fe'i cynhwyswyd yma oherwydd ei berthnasedd i'r helynt. Atgynhyrchir testun GLM 53–6 (XV).

### *Atodiad ii*

Dyma ateb Guto'r Glyn i gywydd ddychan Llywelyn ap Gutun (cerdd 11). Atgynhyrchir testun GGI<sup>2</sup> 101–3 (XXXVIII).

### *Atodiad iii*

Cerdd serch yw'r cywydd hwn gan Ddafydd Llwyd o Fathafarn i Werful Mechain lle y dywed hefyd y bydd yn anfon Llywelyn ap Gutun ati yn llatai. Cafwyd ymateb gan Lywelyn (cerdd 12) a chan Werful (At.iv). Atgynhyrchir testun GGM cerdd 5.<sup>1</sup>

### *Atodiad iv*

Yn y cywydd hwn ymetyb Gwerful Mechain i'r cywydd serch a ganodd Dafydd Llwyd o Fathafarn iddi lle y dywedodd y byddai'n anfon Llywelyn ap Gutun ati yn llatai (At.iii a gw. sylwadau rhagarweiniol cerdd 12). Anghydwêl Gwerful â syniad Dafydd a beirniada gymeriad a buchedd Llywelyn. Atgynhyrchir testun GGM cerdd 7.<sup>2</sup>

<sup>1</sup> Am olygiad arall o'r gerdd, gw. GDLI 144–5 (cerdd 65); a gw. Henry Lewis, 'Ymrysonau Dafydd Llwyd a Llywelyn ap Gutun', B iv (1927–9), 313–5.

<sup>2</sup> Am olygiad arall o'r gerdd, gw. GDLI 147–8 (cerdd 67).

*Atodiad v*

Yn y cywydd hwn dychana Dafydd Llwyd o Fathafarn Lywelyn ap Gutun am ei deithiau di-baid trwy Gymru i glera, hel arian a hel defaid. Ceir ymateb Llywelyn yng ngherdd 13. Atgynhychir testun GDLI 151–3 (cerdd 69).<sup>1</sup>

*Atodiad vi*

Ateb Dafydd Llwyd o Fathafarn yw'r cywydd hwn i gerdd 13 gan Lywelyn ap Gutun. Ceir ymateb Llywelyn yng ngherdd 14. Atgynhychir testun GDLI 155–7 (cerdd 71).<sup>2</sup>

<sup>1</sup> Gw. hefyd Henry Lewis, 'Ymrysonau Dafydd Llwyd a Llywelyn ap Gutun', B iv (1927–9), 317–18.

<sup>2</sup> Gw. hefyd *ib.* 321–3.

## Geirfa

- a**<sup>1</sup>: **a**'i 10.10n, 13.13n **a**'n 14.59n  
**a**<sup>2</sup> 10.64n  
**â**<sup>1</sup> 3.7n **ag** 10.41n **â**'r 10.36n  
**â**<sup>2</sup> gw. **myned**  
**abid** gwisg urdd grefyddol 16.16  
**acw** 15.29n  
**a**'ch 3.56  
**adar** 9.64n  
**adnabod** 3 *un.pres.myn.* **edwyn**  
15.33; 3 *un.amhff.myn.*  
**adwaeniad** 7.4  
**adwaeniad** gw. **adnabod**  
**adwyth** dinistr 7.15  
**addef** 13.17n  
**addo** 1 *un.grff.myn.* **addewais**  
1.42n  
**addwyn** gwyth 9.29  
**aelwyd** lle tân 2.56  
**afrwydd** caled 1.1, 16.2  
**ai** 10.44n  
**ail** 4.4n  
**ais** 1.34n  
**ale** 16.11n  
**allawr** 6.12n  
**am** 8.28n  
**am ben** ar 15.19n  
**amser** 4.35n  
**anap** anffawd, aflwydd 11.11  
**anab** 1.3  
**anael** rhywun crintachlyd 3.17  
**anardd** 5.19n  
**anelu** plygu 7.2  
**anffawd** melltith 1.58  
**anguriol** aruthr, dygn 2.63n  
**anguriawl** 11.61  
**annawn** anlwc 10.21  
**annedd** trigfan 5.14n  
**anras** anffawd 6.8, 13.24  
**anrheg** 13.56n  
**anrheithio** ysbeilio 6.28n  
**anrheithiaw** 14.50n  
**anturiaeth** camp 2.3  
**anturio** beiddio, herio 3.1  
**anwyth** gwael 13.57  
**ar**<sup>1</sup> 1.1n, 3.1n  
**ar**<sup>2</sup> 8.44n  
**araf** 8.9n  
**arail** gofal 8.15  
**arch** cais 13.69  
**ar draill** 7.31n  
**ar gân** 15.10  
**ar ôl** 5.15n, 10.54n **ar ei ôl** 11.52n  
**ar untu** 11.37–8n  
**arwest** cerddoriaeth 14.21  
**arwydd** 8.13n  
**asgrwn** *ll.* **esgyrn** 2.42n  
**aur** 10.6n  
**awenyddiaeth** barddoniaeth 11.9  
**awydd** 16.2n  
**bad** cwch 14.20n  
**baich** 4.2n, 6.31–2n  
**ban** pen 6.32  
**baril** casgen, rhywun boliog 9.66  
**barn grog** dedfryd i grogi 9.28  
**bedd** 10.47n  
**bêr** cigwain 2.62n  
**bil** dogfen wÿs, dogfen ganiatâd  
9.15n, 18n, 27, 53, 61; *ll.* **biliau**  
9.42  
**blaenau** mynydd-dir 13.51  
**blaeneudir** mynydd-dir 14.34  
**bleiddiaest** 15.53n  
**blodau** 6.23n  
